



Adroddiad

Ymchwiliad a agorwyd ar 10/03/20
Ymweliadau safle a wnaed ar 18/03/20

gan **A L McCooey BA MSc MRTPI**

Arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru

Dyddiad: 18.05.2020

Report

Inquiry opened on 10/03/2020
Site visits made on 18/03/20

by **A L McCooey BA MSc MRTPI**

an Inspector appointed by the Welsh Ministers

Date: 18.05.2020

DEDDF PRIFFYRDD 1980

DEDDF CAFFAEL TIR 1981

**GORCHYMYN CEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (YR A40) (GWELLIANT
LLANDDEWI FELFFRE I BENBLEWIN A THYNNU STATWS CEFNFFORDD) 201-**

**GORCHYMYN CEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (YR A40) (GWELLIANT
LLANDDEWI FELFFRE I BENBLEWIN) (FFYRDD YMYL) 201-**

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL GWEINIDOGION CYMRU (CEFNFFORDD
LLUNDAIN I ABERGWAUN (YR A40) (GWELLIANT LLANDDEWI FELFFRE I
BENBLEWIN)) 201-**

RHESTR TERMAU A BYRFODDAU A DDEFNYDDIR YN YR ADRODDIAD HWN

| | |
|----------|-------------------------------------------------------|
| ACA | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| AGA | Ardal Gwarchodaeth Arbennig |
| BCR | Cymhareb Cost a Budd |
| CD | Dogfen Graidd (gweler Atodiad B) |
| CEMP | Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| CPO | Gorchymyn Prynu Gorfodol |
| dB | Desibel |
| DCFW | Comisiwn Dylunio Cymru |
| DMRB | Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd |
| EIA | Asesiad Effeithiau Amgylcheddol |
| ES | Datganiad Amgylcheddol ar gyfer y Cynllun |
| GHG | Nwyon Tŷ Gwydr |
| HGV | Cerbyd Nwyddau Trwm |
| HWEZAB | Bwrdd Cynghori Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau |
| ID (PID) | Dogfen Ymchwiliad |
| LCA | Ardal Cymeriad Tirwedd |
| LVCC | Cyngor Cymuned Llanddewi Felffre |
| LIC | Llywodraeth Cymru |
| PCC | Cyngor Sir Penfro |
| PMA | Mynedfa Breifat |
| PPW | Polisi Cynllunio Cymru |
| REAC | Cofrestr Camau Gweithredu ac Ymrwymadau Amgylcheddol |
| SIAA | Datganiad i Lywio Asesiad Priodol |
| SoDdGA | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| SRO | Gorchymyn Ffyrdd Ymyl |

| | |
|--------|--------------------------------------------------------------|
| WCHR | Cerddwyr, Beicwyr a Marchogion |
| WeITAG | Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru |
| WS2+1 | Ffordd Gerbydau 2+1 Sengl Lydan fel y'i cynigir yn y Cynllun |
| WTS | Strategaeth Drafnidiaeth Cymru |

TABL CYNNWYS

MANYLION YR ACHOS

1. RHAGLITH
2. MATERION GWEITHDREFNOL
3. CRYNODEB O'R CYNLLUN/TIROEDD Y GORCHYMYN
4. YR ACHOS O BLAID LLYWODRAETH CYMRU
5. YR ACHOS O BLAID Y CEFNOGWYR
6. YR ACHOS O BLAID GWRTHWYNEBWYR gydag YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I'R GWRTHWYNEBIADAU
7. CASGLIADAU
8. ARGYMHELLION YR AROLYGYDD

ATODIADAU

- A YMDDANGOSIADAU YN YR YMCHWILIAD
- B RHESTRAU O DDOGFENNAU ATEGOL
- C ADDASIADAU A GEISIR GAN LYWODRAETH CYMRU
- Ch TROSOLWG O WEITHDREFNAU STATUDOL

MANYLION YR ACHOS

- Byddai'r Gorchymyn Llinell Diwygiedig drafft yn cael ei wneud o dan Adran 10 Deddf Priffyrdd 1980 ac fe'i hadwaenir fel: GORCHYMYN CEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (YR A40) (GWELLIANT LLANDDEWI FELFFRE I BENBLEWIN A THYNNU STATWS CEFNFFORDD) 201- (Doc. 2.01.01).
- Byddai'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl drafft yn cael ei wneud o dan Adrannau 12, 14, 125 a 268 Deddf Priffyrdd 1980 ac fe'i hadwaenir fel: GORCHYMYN CEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (YR A40) (GWELLIANT LLANDDEWI FELFFRE I BENBLEWIN) (FFYRDD YMYL) 201- (Doc. 2.02.01.).
- Byddai'r Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft yn cael ei wneud o dan Adrannau 239, 240, 246, 250 a 260 Deddf Priffyrdd 1980 ac o dan Adran 2 a pharagraffau 1(1)(b), (3) a (4) Rhan 1 Atodlen 2 Deddf Caffael Tir 1981, ac fe'i hadwaenir fel: GORCHYMYN PRYNU GORFODOL GWEINIDOGION CYMRU (CEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (YR A40) (GWELLIANT LLANDDEWI FELFFRE I BENBLEWIN)) 201- (Doc. 2.03.01).

CRYNODEB O'R ARGYMHELLION

Argymhellaf fod y Gorchymyn Llinell drafft yn cael ei wneud.

Argymhellaf fod y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl drafft yn cael ei addasu a'i wneud fel y'i haddaswyd.

Argymhellaf fod y Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft yn cael ei addasu a'i wneud fel y'i haddaswyd.

RHAGLITH

- 1.1 Fe'm penodwyd gan Weinidog Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru yn unol â Pharagraff 7 Atodlen 1 Deddf Priffyrdd 1980 ac Atodlen 13 (2) Deddf Caffael Tir 1981 i gynnal Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus i'r Gorchmynion arfaethedig uchod a rhoi adroddiad i Weinidogion Cymru. Mae'r Gorchmynion arfaethedig a'r cynigion tynnu statws cefnffordd yn ffurfio'r Cynllun gyda'i gilydd.
- 1.2 Cynhaliais gyfarfod Cyn-Ymchwiliad yn Neuadd Bentref Llanddewi Felffre ar 15 Ionawr 2020, i drafod proses yr Ymchwiliad a'r trefniadau gweinyddol. Anfonwyd nodyn o'r cyfarfod at bawb a oedd yn bresennol a'r rhai hynny a oedd wedi gwneud gwrthwynebiad neu gynrychiolaeth ynglŷn â'r Gorchmynion arfaethedig.
- 1.3 Cyfeiriaf at yr Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus i'r Gorchmynion Arfaethedig fel "yr Ymchwiliad" yn yr adroddiad hwn. Cynhaliais yr Ymchwiliad yn Neuadd Bentref Llanddewi Felffre ar hyd cyfanswm o 6 diwrnod eistedd rhwng 10 Mawrth a 19 Mawrth 2020. Cynhaliais archwiliad safle digwmni o'r dechrau i'r diwedd ac archwiliad gyda chwmni o leoliadau penodol ar 18 Mawrth 2020. Cynhaliais archwiliadau safle digwmni ar adegau eraill cyn ac yn ystod yr Ymchwiliad hefyd.
- 1.4 Dosbarthodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 36 o gynrychiolaethau a dderbyniwyd yn rhai a oedd yn mynegi gwrthwynebiad ynglŷn â rhyw agwedd neu agweddau ar y Gorchmynion Arfaethedig. Roedd 20 gwrthwynebiad statudol ac 16 gwrthwynebiad anstatudol i'r Gorchmynion Arfaethedig, ac roeddent yn cynnwys nifer o gynrychiolaethau a wnaed ar ôl y cyfnod gwrthwynebu ffurfiol. Tynnwyd 25 o wrthwynebiadau yn ôl, ac aeth 3 o'r rhain ymlaen i fynegi cefnogaeth i'r Cynllun. Derbyniwyd 61 cyfathrebiad unigol ac 1 ddeiseb gefnogol. Rwyf wedi ystyried yr holl faterion a godwyd wrth ddod i'm casgliadau a'm hargymhellion.
- 1.5 Rhoddodd wyth tyst dystiolaeth yn yr Ymchwiliad ar ran Llywodraeth Cymru. Rhoddodd Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanddewi Felffre dystiolaeth o blaid y Cynllun. Roedd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael drwy gydol yr Ymchwiliad.
- 1.6 Roedd 3 gwrthwynebydd wedi ymddangos neu wedi cael eu cynrychioli yn yr Ymchwiliad, fel a ganlyn:

| | |
|-------|--------------------------------|
| R0040 | Cyfeillion y Ddaear Sir Benfro |
| R0024 | Mr a Mrs Peett |
| R0026 | Ms Margaret R Thomas |
- 1.7 Mae'r Gorchmynion arfaethedig yn ymwneud â chylchfan newydd i'r dwyrain o Landdewi Felffre a ffordd newydd yn osgoi'r pentref i'r gogledd gan gysylltu â chylchfan bresennol yr A40/A478 ym Mhenblewin. Cynigir ffyrdd ymyl o'r A478 i fynwent Trefangor; ger Capel Ffynnon; ac o'r gylchfan arfaethedig yng nghefn Capel Bethel.

- 1.8 Y prif resymau dros wrthwynebu cynigion y Gorchymyn drafft oedd:
- Nad oes angen y Cynllun, yn enwedig yng nghyd-destun argyfwng presennol yr hinsawdd a'i effaith ar allyriadau carbon;
 - Bod y cynllun yn cynrychioli gwerth gwael am arian ac y dylai'r arian gael ei wario ar rywbeth arall a/neu ar welliannau i drafndiaeth gyhoeddus;
 - Yr effaith ar yr amgylchedd naturiol, yn enwedig coetir hynafol;
 - Yr effeithiau negyddol ar fusnesau lleol o ganlyniad i golli masnach sy'n mynd hebio.
- 1.9 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys disgrifiad byr o'r ardal a'r Cynllun y mae'r Gorchymynion arfaethedig yn ymwneud â nhw, hanfod yr achosion a gyflwynwyd (trwy gyfrwng tystiolaeth i'r Ymchwiliad a thrwy gyfrwng gwrthwynebiad ysgrifenedig) a'm casgliadau a'm hargymhellion. Rhoddir rhestrau o ymddangosiadau a dogfennau yn Atodiad A ac Atodiad B, yn ôl eu trefn. Mae Atodiad C yn amlinellu'r addasiadau i'r Gorchymynion arfaethedig a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae Atodiad Ch yn cynnwys trosolwg o ffeil Llywodraeth Cymru ynglŷn â chydymffurfio â'r gweithdrefnau statudol.

MATERION GWEITHDREFNOL

- 2.1 Cynhaliwyd yr Ymchwiliad o dan Reolau Priffyrdd (Gweithdrefn Ymchwiliadau) 1994 a Rheolau Prynu Gorfodol (Gweithdrefn Ymchwiliadau) 2010. Ni wnaed unrhyw gyflwyniadau cyfreithiol ffurfiol ac ni chodwyd unrhyw faterion gweithdrefnol o bwys yn yr Ymchwiliad. Ymdrinnir â sylwadau ynglŷn â chyfreithlondeb bwrw ymlaen â'r Cynllun yn dilyn yr her lwyddiannus i benderfyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar ymestyn Maes Awyr Heathrow o dan yr adran gwrthwynebiadau perthnasol isod.
- 2.2 Mae'r Cynllun yn cynnwys 4.3 km o ffordd 2+1 sengl lydan (WS2+1) o gylchfan Penblewin yn y gorllewin i gylchfan newydd i'r dwyrain o bentref Llanddewi Felffre. Byddai hyn yn osgoi'r pentref. Byddai'r rhan fwyaf o'r Cynllun oddi ar linell bresennol y ffordd gyda chyfanswm o oddeutu 2km o lonydd goddiweddyd tua'r dwyrain ac 1km tua'r gorllewin.
- 2.3 Yn yr Ymchwiliad, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fod yr holl Weithdrefnau Statudol wedi cael eu cwblhau'n briodol a chyflwynodd gopïau o'r dogfennau perthnasol yn ymwneud â hyn mewn nodyn ffeil o'r enw Trosolwg o Weithdrefnau Statudol (Crynodeb yn Atodiad Ch).
- 2.4 Cyhoeddwyd y Gorchymyn Llinell, y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl (SRO) a'r Gorchymyn Prynu Gorfodol (CPO) drafft ym mis Gorffennaf/Awst 2019. Daeth y cynnod gwrthwynebu i ben ar 20 Medi 2019. Cyhoeddwyd Datganiad Amgylcheddol (ES) ar 31 Gorffennaf 2019. Mae'r ES yn amlygu prif effeithiau amgylcheddol y Cynllun ac yn disgrifio'r mesurau a gynigir i

osgoi, unioni neu leihau'r effeithiau a darparu gwelliant amgylcheddol lle y bo'n ymarferol.

- 2.5 Mae pum Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) o fewn 10km o'r Cynllun (Afonydd Cleddau; Blaenau Yrbeston; Safleoedd Ystlumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherton; Sir Benfro Forol; a Bae Caerfyrddin ac Aberoedd) ac Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) o fewn 30km (Bae Caerfyrddin). O ganlyniad i agosrwydd y safleoedd hyn, cynhaliwyd Asesiad o Oblygiadau'r Cynllun i Safleoedd Ewropeaidd ac mae Datganiad i Lywio Asesiad Priodol (SIAA) wedi cael ei baratoi.

CRYNODEB O'R CYNLLUN/TIROEDD Y GORCHYMYN

- 3.1 Ar ei ben gorllewinol, byddai'r Cynllun yn dechrau wrth Gylchfan Penblewin, a fyddai'n cael ei gwneud yn fwy i ymdopi â'r gefnffordd arfaethedig. Nodaf fod cynlluniau i wella'r A40 i'r gorllewin o gylchfan Penblewin. Byddai angen y fraich oddi ar y gylchfan sy'n gwasanaethu'r A40 bresennol i gynnal mynediad i'r Ardal Orffwys a'r Parc Loriau. Gan deithio tua'r dwyrain o Benblewin, byddai'r ffordd newydd wedi'i lleoli i'r gogledd o'r A40 bresennol. Byddai dwy lôn yn cael eu darparu tua'r dwyrain a byddai un lôn yn cael ei darparu tua'r gorllewin.
- 3.2 Byddai'r ffordd newydd yn hollti'r llwybr presennol a ddefnyddir gan farchogion yn Henllan Lodge. Felly, byddai llwybrau ceffylau newydd yn cael eu darparu ar hyd ffiniau gogleddol a deheuol y llwybr arfaethedig, gan gysylltu wrth danffordd newydd i'r dwyrain o Gapel Ffynnon. Ar ôl Henllan Lodge, byddai'r ffordd newydd yn cael ei hadeiladu ar hyd llinell yr A40 bresennol; byddai rhan oddiweddyd yr WS2+1 tua'r dwyrain yn culhau i ran lôn sengl cyn Cyffordd Gorllewin Llanddewi Felffre.
- 3.3 Byddai Cyffordd Gorllewin Llanddewi Felffre yn gyffordd-T groesgam ac yn cael ei hadeiladu i'r gogledd o'r A40 bresennol. Byddai ynysoedd croesi ar gyfer troi i'r dde yn y llain ganol yn caniatáu i draffig lifo'n rhydd ar hyd y brif linell ac yn rhoi man diogel i draffig sy'n troi i'r dde aros am gyfle i groesi. Byddai braich ogleddol yn darparu mynediad i Gapel Ffynnon ac amryw eiddo a ffermydd yn y cyffiniau, tra byddai braich ddeheuol newydd yn darparu mynediad i bentref Llanddewi Felffre. Byddai traffig sy'n gadael y pentref i ymuno â'r A40 yn y lleoliad hwn yn cael ei atal rhag troi i'r dde ar y lôn tua'r dwyrain.
- 3.4 O Gyffordd Gorllewin Llanddewi Felffre, byddai'r A40 newydd yn mynd tua'r gogledd-ddwyrain, i ffwrdd oddi wrth linell yr A40 bresennol. Byddai'r ffordd yn mynd rhwng adeiladau fferm Pen-Troydin-fâch a Maes-y-Ffynnon mewn trychfa fas. I'r dwyrain o Ben-Troydin-fâch, byddai rhan oddiweddyd yn cael ei darparu ar gyfer traffig tua'r gorllewin. Byddai'r ffordd yn mynd i mewn i drychfa a byddai trosbont newydd yn cael ei darparu er mwyn i Llanfallteg Road fynd dros y ffordd newydd.
- 3.5 I'r dwyrain o Llanfallteg Road, mae'r llwybr yn mynd i gyfeiriad de-ddwyreiniol. Byddai'r ddarpariaeth oddiweddyd yn newid i ddarparu cyfle i oddiweddyd tua'r dwyrain. Byddai'r ffordd yn mynd i mewn i ran ar arglawdd gyda bwnd ar yr ochr ogleddol i sgrinio sŵn ac effeithiau gweledol. Byddai tanffordd llwybr troed newydd yn cael ei darparu i gysylltu tri llwybr troed a holltir gan y Cynllun.

- 3.6 Byddai'r ffordd yn parhau i gyfeiriad de-ddwyreiniol tan iddi gyrraedd Cylchfan newydd Dwyrain Llanddewi Felffre. Byddai braich ogledd-ddwyreiniol wrth y gylchfan yn darparu mynediad newydd i Gapel Bethel a'r eiddo o'i amgylch. Byddai hyn yn disodli'r fynedfa bresennol rhwng Capel Bethel a'r Festri, a fydd yn cael ei chau. Byddai braich ddeheuol newydd yn darparu mynediad i Llanddewi Felffre. Byddai braich ddwyreiniol y gylchfan yn ymuno â'r A40 rhwng Cylchfan Dwyrain Llanddewi Felffre a'r pwynt cysylltu wrth gyffordd Fron Hill.

4. YR ACHOS O BLAID LLYWODRAETH CYMRU

Cefndir

- 4.1 Ym mis Tachwedd 2001, cyhoeddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Fframwaith Trafnidiaeth Cymru. Amlinellodd hwn fod angen gwella'r coridor trafndiaeth rhwng y dwyrain a'r gorllewin yng ngorllewin Cymru ar hyd yr A40 i'r gorllewin o Sanclêr.
- 4.2 Ym mis Mawrth 2002, cyhoeddwyd y Flaenraglen Cefnffyrdd (CD 4.01.44), a oedd yn cynnwys yr A40 i'r gorllewin o Sanclêr. Aeth astudiaeth aml-foddol ati i ystyried gwelliannau i drafndiaeth gyhoeddus, a daeth i'r casgliad bod y costau sy'n gysylltiedig â gwell gwasanaethau i deithwyr yn debygol o fod yn uwch na'r refeniw, gan felly olygu bod angen cymhorthdal gweithredu. Cydnabuwyd hefyd na fyddai gwelliannau i drafndiaeth gyhoeddus yn mynd i'r afael â'r problemau trafndiaeth a amlygwyd ar gefnffordd yr A40. Felly, llywiodd gwaith cynnar y penderfyniad i geisio gwelliannau priffyrdd ar yr A40 ac aeth astudiaeth opsiynau llwybr ati i archwilio dewisiadau ar gyfer ffordd gerbydau unffrwd a deuol.
- 4.3 Yn 2004, cyhoeddwyd dau brif gynllun gwella ffordd unffrwd ar gyfer yr A40 i'r gorllewin o Sanclêr:
- i. A40 Penblewin – Parc Slebets
 - ii. A40 Llanddewi Felffre – Penblewin.
- 4.4 Cwblhawyd y cyntaf o'r prosiectau hyn yn 2011 yn sgil ffordd osgoi Robeston Wathen, i Barc Slebets. Gwnaed gwaith datblygu pellach hefyd ar gyfer prosiect yr A40 Llanddewi Felffre - Penblewin. Arweiniodd hyn at ddatblygu nifer o opsiynau llwybr arfaethedig ac, yn ystod cyfnod ymgynghori cyhoeddus, dangoswyd cefnogaeth glir ymhlith y cyhoedd i lwybr presennol y ffordd osgoi, ynghyd â gwelliannau rhwng Coed Ffynnon a Chylchfan Penblewin. Cyhoeddwyd llwybr a ffefrir ar gyfer Gwelliannau Llanddewi Felffre i Benblewin ym mis Mawrth 2010.
- 4.5 Mae'r Cynllun wedi'i restru o dan gyfeirnod R15 yng Nghynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol Cymru 2015: Diweddariad 2018 (CD 4.01.27), sef fframwaith o gynlluniau sy'n cyd-fynd â nodau polisi a amlinellir yn Strategaeth Drafndiaeth Cymru 2008 (CD 4.01.29). Cyfeiriodd datganiadau gweinidogol ysgrifenedig yn 2013 a 2015 at fwrw ymlaen â'r Cynllun fel mater o frys. Mae Strategaeth Genedlaethol 2017 (CD 4.01.33) a Symud Cymru Ymlaen 2016-2021 (CD 4.01.37) yn cynnwys

ymrwymiad i wella'r A40 yng ngorllewin Cymru yn sylweddol. Mae'r Cynllun hefyd wedi'i restru yng Nghynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 2019 – Diweddariad ar Lif Prosiectau (CD 4.01.40). Amlygir digon o dir i ddiogelu llwybr ar gyfer y Cynllun o dan Bolisi GN.39 Llwybrau a Gwelliannau Trafnidiaeth Cynllun Datblygu Lleol Sir Benfro (CD 4.01.58).

- 4.6 Mae'r A40 yn llwybr o bwysigrwydd strategol cenedlaethol a rhyngwladol, yn rhan o'r Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd (TEN-T). Ar lefel ranbarthol a lleol, mae'n gwasanaethu tref sirol Hwlfordd, economi dwristiaeth canol a gogledd Sir Benfro, porthladd Abergwaun a thref ddiwydiannol Aberdaugleddau i'r de.
- 4.7 Arweiniodd gwaith paratoi yn 2004 at ymgynghoriad cyhoeddus yn 2006 ynglŷn â 4 opsiwn llwybr ar gyfer y Cynllun. Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, cyhoeddwyd llwybr a ffeirir yn 2010. Yn 2017, penododd Llywodraeth Cymru Carillion i ddatblygu'r Cynllun. Aeth Carillion yn fethdalwr ym mis Ionawr 2018, a phenododd Llywodraeth Cymru'r tîm ymgynghorwyr presennol i barhau i ddatblygu'r Cynllun.
- 4.8 Amlygodd yr astudiaeth WeITAG (CDs 4.03.03 i 4.03.08) ystod o broblemau go iawn a chanfyddedig i fynd i'r afael â nhw ar yr A40 rhwng Llanddewi Felffre a Phenblewin.
- Cyfleoedd cyfyngedig ac anghyson i oddiweddyd, sy'n arwain at amserau siwrneiau annibynadwy, rhwystredigaeth ymhlith gyrwyr a symudiadau peryglus cysylltiedig gyda gwrthdrawiadau difrifol;
 - Mae platwnio (lle ceir confois o gerbydau nwyddau trwm (HGVs) o'r porthladdoedd fferi a cherbydau amaethyddol yn symud yn araf sy'n defnyddio'r llu o ffyrdd ymyl a mynedfeydd ffermydd ar hyd yr A40) yn cyfrannu at amserau siwrneiau annibynadwy wrth gyfuno hynny â chyfleoedd cyfyngedig i oddiweddyd a chymysgedd o draffig lleol a thraffig HGV;
 - Mae'r A40 yn mynd trwy'r ardal boblog, gan hollti'r gymuned, a chreu problemau llygredd aer a sŵn yn y gymuned leol yn Llanddewi Felffre;
 - Mae traffig sy'n symud yn araf yn ystod misoedd yr haf yn gwaethygu'r problemau, gyda thwristiaid yn achosi cynnydd sylweddol mewn traffig a cherbydau sy'n symud yn araf, gan gynnwys carafannau;
 - Ceir lefelau cynhyrchiant is na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y rhanbarth gyda dibyniaeth ar sectorau economaidd cyfyngedig. Ceir lefel uchel o ddiweithdra yn Aberdaugleddau a Doc Penfro;
 - Mae diffyg sefydliadau addysg uwch yn Sir Benfro yn golygu bod rhaid i ddarpar fyfyrwyr adael y Sir i astudio; ac
 - Ystyrir bod Sir Benfro yn anghysbell a bod hyn yn rhwystro mewnfuddsoddiad, twristiaeth a datblygiad y farchnad teithio-i'r-gwaith yn Ninas Rhanbarth Bae Abertawe.
- 4.9 Yn unol â Chanllawiau WeITAG (CD 4.01.11), defnyddiwyd dull wedi'i arwain gan amcanion. Mae gwaith yr astudiaeth wedi amlygu amcanion ar gyfer y cynllun, sef:

- 01 gwella gwydnwch y rhwydwaith a gwella hygyrchedd ar hyd coridor trafniadaeth y dwyrain-gorllewin er mwyn cyrraedd cyrchfannau allweddol o safbwynt cyflogaeth, cymunedau a thwristiaeth;
 - 02 gwella ffyniant a darparu gwell mynediad i dref sirol Hwlfordd, Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau a phorthladdoedd Abergwaun ac Aberdaugleddau yng ngorllewin Cymru;
 - 03 lleihau hollti cymunedol a chreu buddion o ran iechyd ac amwynderau;
 - 04 lleihau nifer a difrifoldeb gwrthdrawiadau;
 - 05 hyrwyddo teithio llesol trwy gerdded, beicio a marchogaeth (WCHR) er mwyn darparu cyfleoedd ar gyfer ffyrdd iach o fyw;
 - 06 cyflawni cynllun sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ac sy'n integreiddio â'r rhwydwaith trafniadaeth lleol er mwyn cysylltu cymunedau lleol yn well â chanolfannau trafniadaeth allweddol;
 - 07 cyflawni prosiect sy'n gynaliadwy o fewn Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, gan gymryd camau i leihau neu wrthbwysu gwastraff a charbon;
 - 08 rhoi ystyriaeth ofalus i effaith trafniadaeth ar yr amgylchedd a chyflwyno gwelliannau lle bo hynny'n ymarferol.
- 4.10 Mae Adroddiad Cam 3 WeITAG (CD 4.03.07) yn asesu pa mor dda mae'r Cynllun yn perfformio yn erbyn yr amcanion. Mae'r canlyniadau'n dangos bod y Cynllun yn perfformio'n dda yn erbyn amcanion 1 i 6; y byddai'n niwtral ar gyfer rhif 7 ac y byddai ychydig yn niweidiol o ran amcan 8.

Cydymffurfio â Deddfwriaeth a Pholisïau

Nodyn gan yr Arolygydd

Mae'r dystiolaeth yn ystyried yr holl ddeddfwriaeth a pholisïau perthnasol. Adroddaf ar sylwedd y dystiolaeth ynglŷn â gofynion deddfwriaethol a pholisïa, er mwyn rhoi adroddiad cryno â ffocws i'r Gweinidogion.

- 4.11 Er nad adroddiad ar ymchwiliad cynllunio yw hwn, mae adran 10 (2) Deddf Priffyrdd 1980 yn mynnu bod Gweinidogion Cymru, wrth ystyried cynigion i adeiladu cefnffordd newydd, yn rhoi ystyriaeth briodol i ofynion cynllunio lleol a chenedlaethol, gan gynnwys gofynion amaethyddiaeth. Mae'r dystiolaeth yn archwilio p'un a yw'r cynllun wedi cael ei ddatblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (WFGA) (CD 4.01.10), ac i ba raddau y byddai'n cyfrannu at y saith nod llesiant yn y Ddeddf.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

- 4.12 Cyflwynodd Adran 6 y Ddeddf (CD 4.01.05) ddyletswydd uwch i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth

gyflawni eu swyddogaethau, i'r graddau y bo hynny'n gyson â chyflawni eu swyddogaethau ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo cydnerthed ecosystemau. Cyflwynir gwybodaeth am effeithiau'r Cynllun yn yr ES a'r SIAA. Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Ymchwiliad yn dod i'r casgliad bod gofynion Deddf yr Amgylchedd wedi cael eu bodloni o ganlyniad i ddyluniad a chynigion lliniaru'r cynllun.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (WFGA)

- 4.13 Mae WeITAG 2017 yn darparu fframwaith ar gyfer asesu newidiadau arfaethedig i system drafnidiaeth Cymru. Diwygiodd a diweddarodd y canllawiau i ymsefydlu'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a geir yn yr WFGA, ac fe'i cymeradwywyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Adolygwyd yr amcanion yn erbyn y saith nod llesiant yn yr WFGA. Mae'r adroddiad cam 3 (CD 4.03.07) yn amlinellu asesiad o'r opsiwn a ffefrir yn erbyn amcanion llesiant Llywodraeth Cymru. Dangosodd yr ymarfer hwn sut y byddai'r opsiwn a ffefrir yn mynd i'r afael â'r problemau a'r amcanion a amlygwyd ar gyfer y cynllun a sut y byddai'n cyfrannu at nifer o'r amcanion llesiant ac felly'n cyflawni'r nodau llesiant.
- 4.14 Mae datblygiad y Cynllun wedi bodloni'r pum ffordd o weithio a amlinellir yn yr WFGA. Byddai'r Cynllun yn mynd i'r afael â'r problemau a amlygwyd yn y tymor hwy. Mae'r ES yn ystyried yr effeithiau amrywiol y byddai'r Cynllun yn eu cael ac yn cynnig mesurau lliniaru helaeth i fynd i'r afael â'r effeithiau hyn. Defnyddiwyd ymagwedd integredig: er enghraifft, cytunwyd ar amcanion y cynllun gan grŵp adolygu a oedd yn cynnwys Cyngor Sir Penfro.
- 4.15 Mae'r adroddiad datblygu cynaliadwy (CD 4.03.09) yn dadansoddi'r cyfraniad y byddai'r Cynllun yn ei wneud at amcanion llesiant cenedlaethol a lleol, ac felly'r nodau llesiant cenedlaethol. Mae'n dangos cyfraniadau cadarnhaol at gyflawni 9 o'r amcanion llesiant cenedlaethol a sawl amcan lleol.
- 4.16 Cymerwyd camau i leihau allyriadau carbon y Cynllun trwy lai o oleuadau, cydbwysedd cloddwaith a lleihau trwch palmentydd. Er hynny, byddai'n cael effaith niweidiol ar leihau allyriadau carbon a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Yn ystod y cyfnod arfarnu 60 mlynedd, byddai cynnydd 8.4% yng nghyfanswm yr allyriadau carbon o adeiladu, gweithredu a defnyddio'r ffordd, o gymharu â'r senario gwneud y lleiaf posibl. Felly, ni fyddai'n cyfrannu at fodloni un o'r amcanion llesiant cenedlaethol, ond byddai'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at fwyafrif y rhai eraill.
- 4.17 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng newid yn yr hinsawdd ym mis Ebrill 2019 ac ymrwymodd i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG) yng Nghymru 95% erbyn 2050. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi arwain at waharddiad llwyr ar adeiladu ffyrdd newydd yng Nghymru. Mae dogfen ymchwiliad (ID) 10 yn amlinellu'r cyd-destun ar gyfer y cyhoeddiad ynghylch argyfwng newid yn yr hinsawdd. Mae hefyd yn rhoi llinell amser o ddatganiadau Gweinidogion Cymru ers y cyhoeddiad yn cefnogi amryw gynlluniau ffyrdd yng Nghymru ac yn ymrwymo'r llywodraeth i fwrw ymlaen i'w hadeiladu. Pwynt pwysig arall yw bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau ar draws pob maes y mae'n gyfrifol amdano i fynd i'r afael

â'i tharged newid yn yr hinsawdd. Mae'r camau gweithredu y mae'r llywodraeth yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater hwn wedi'u hamlinellu yn y dystiolaeth. Felly, er y byddai'r Cynllun yn arwain at gynnydd bach mewn allyriadau GHG, ni ddylid ystyried hyn ar wahân ond yn hytrach yng nghyd-destun mentrau ehangach y llywodraeth. Byddai'n anghywir ac yn anymarferol dod i'r casgliad nad yw'r prosiect yn gyfystyr â datblygu cynaliadwy oherwydd effaith niweidiol bosibl ar un amcan neu nod llesiant, heb ystyried ei gyfraniadau cadarnhaol at amcanion a nodau llesiant eraill. At ei gilydd, byddai'r cynllun yn gwneud cyfraniad arwyddocaol at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol ac felly byddai'n rhan o'r broses o wella elfennau llesiant datblygu cynaliadwy, fel y'u diffinnir yn yr WFGA.

Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

- 4.18 Mae'r Ddeddf hon (CD 4.01.13) yn creu dyletswyddau newydd i awdurdodau priffyrdd ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr a darparu'n well ar eu cyfer. Mae hefyd yn mynnu bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn hyrwyddo cerdded a beicio fel dull trafndiaeth fel bod cymunedau lleol yn dibynnu llai ar geir wrth wneud teithiau byr. Trwy osgoi'r pentref, byddai'r cynllun yn lleihau traffig a gwrthdaro rhwng traffig a phreswylwyr neu gerddwyr. Byddai hyn yn helpu i greu amgylchedd mwy diogel a dymunol yn y pentref ac yn lleihau'r posibilrwydd o ddamweiniau. Mae cyfleoedd ar gyfer buddion i gerddwyr, beicwyr a marchogion (WCHR) yn y cynigion ar gyfer y rhan o'r A40 bresennol y tynnwyd ei statws cefnffordd a fyddai'n cael ei hosgoi gan y cynllun. Amlinellir y buddion hyn yn y cynigion tynnu statws cefnffordd. Ystyrir bod y cynllun yn cyd-fynd â'r Ddeddf hon.

Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel

- 4.19 Mae'r ddogfen hon (CD 4.01.24) yn gosod y sylfeini ar gyfer trawsnewidiad Cymru i fod yn genedl carbon isel. Cyfeirir at y targedau a osodir yn Neddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (CD 4.01.15) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau ar draws ei holl feysydd cyfrifoldeb i gyflawni ei huchelgeisiau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, ar yr un pryd â chydabod yr heriau difrifol sy'n ei hwynebu. Darparwyd cyllid i gefnogi datgarboneiddio yng nghyllideb 2020-21. Felly, er y byddai'r Cynllun yn arwain at gynnydd bach mewn allyriadau GHG, ni ddylid ystyried hyn ar wahân ond yng nghyd-destun mentrau ehangach Llywodraeth Cymru sydd â'r nod o ddatgarboneiddio trafndiaeth trwy annog cerbydau trydan a darparu seilwaith gwefru. Mae hefyd yn bwysig pwysleisio bod yr amcanestyniadau allyriadau defnyddwyr ar gyfer y Cynllun yn geidwadol iawn ac nad ydynt yn caniatáu ar gyfer mwy o ddefnydd o gerbydau trydan.

Cynllun Cyllid Trafndiaeth Cenedlaethol 2015 a Diweddariad 2018

- 4.20 Mae'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol – Diweddariad 2018 (CD 4.01.27) yn rhestru'r gwahanol gynlluniau trafndiaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyflawni, yn unol â Strategaeth Drafndiaeth Cymru 2008 (CD 4.01.29). Mae'r Cynllun hwn wedi'i restru o dan gyfeirnod R15. Ym mis Gorffennaf 2013, cyhoeddodd y Gweinidog ar y pryd ddatganiad ysgrifenedig yn amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer trafndiaeth. Datganodd fod Bwrdd Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau wedi amlygu gwella'r A40 fel blaenoriaeth, a bod y Gweinidog yn bwriadu datblygu gwelliannau a gynigiwyd yn flaenorol ymhellach. Gwnaeth sawl cyfeiriad at fwrw ymlaen â'r Cynllun hwn mewn datganiadau ysgrifenedig eraill yn 2014 a 2015.

Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 10 (PPW)

- 4.21 Byddai'r Cynllun yn cyflawni nifer o'r Canlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol a ddiffinnir yn PPW 10 (CD 4.01.30). Mae PPW10 yn diffinio 3 thema cysylltiedig â lleoedd sydd â'r nod o gynnal neu greu lleoedd cynaliadwy a chyflawni'r canlyniadau creu lleoedd cynaliadwy cenedlaethol. Byddai'r Cynllun yn bodloni'r cyntaf o'r themâu hyn – Lleoedd Egniol a Chymdeithasol. Mae wedi'i gynnwys mewn polisiau trafndiaeth cenedlaethol a lleol. Byddai'n lleihau gwahanu yn Llanddewi Felfre ac yn gwella mynediad ar gyfer WCHR. Nid yw'r hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy¹ yn berthnasol gan ei bod yn ymwneud ag asesu datblygiadau newydd ac nid gwelliannau i'r prif rwydwaith ffyrdd. Byddai'r Cynllun yn cyflawni'r amcanion Lleoedd Egniol a Mentrus yn PPW. Mae'r buddion yn cynnwys gwell diogelwch ar y priffyrdd; hybu'r economi leol a thwristiaeth trwy wella mynediad i'r ardal bellennig hon; llai o lygredd aer, sŵn a gwahanu cymunedol yn Llanddewi Felfre, a gwell cyfleoedd ar gyfer teithio llesol.
- 4.22 Y drydedd thema yw Lleoedd Unigryw a Naturiol, sy'n ystyried effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol, y dirwedd, bioamrywiaeth/ecoleg, ansawdd aer a sŵn.
- 4.23 Amlinellwyd y sefyllfa o ran GHG uchod. Mae'r effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol wedi cael eu hystyried yn ofalus mewn cysylltiad agos â Cadw ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed. Cynigir rhaglen helaeth o fesurau lliniaru a chofnodi yn yr ES. Mae'r effaith ar y dirwedd wedi cael ei lleihau i'r eithaf trwy leoliad a dyluniad y Cynllun; a chynigion tirweddu cynhwysfawr. Mae'r goblygiadau i fioamrywiaeth wedi cael eu hystyried, a chynigir mesurau lliniaru a gwella. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cadarnhau nad oes ganddo unrhyw wrthwynebiadau a'i fod yn fodlon â'r cynigion lliniaru. Mae'r dystiolaeth yn cadarnhau bod y cynllun yn bodloni gofynion Deddf yr Amgylchedd, y Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, PPW a Nodyn Cyngor Technegol 5 – Cadwraeth Natur a Chynllunio. Mae buddion y Cynllun yn cyfiawnhau colli ardaloedd bach o goetir hynafol. Byddai'r Cynllun yn gwella ansawdd aer ac yn lleihau effeithiau sŵn ar gyfer nifer sylweddol o anheddau. Felly, mae'r cynllun yn cyd-fynd â'r WFGA a PPW o ran y thema hon a nodau fel Cymru Iachach. Yn olaf, ystyrir bod y Cynllun yn gyson â pholisiau ac amcanion strategol y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft sy'n dod i'r amlwg.

¹ PPW paragraff 4.1.11

Traffig ac Economeg²

- 4.24 Mae'r dystiolaeth yn dangos bod traffig yn llifo'n rhydd ar y rhwydwaith presennol trwy ardal y Cynllun. Mae tagfeydd cyfyngedig o rhwng 15 a 17% ar adegau prysur, sy'n debygol o fod o ganlyniad i gyfuniad o gerbydau sy'n symud yn araf a diffyg cyfleoedd diogel i oddiweddyd. Bydd hyn yn cynyddu yn sgil y twf a ragwelir mewn traffig.
- 4.25 Yn ystod y cyfnod 10 mlynedd rhwng 2006 a 2015, roedd naw damwain ar yr A40 yn y pentref lle mae terfyn cyflymder o 40mya, yr arweiniodd un ohonynt at anafiadau difrifol. Cofnodwyd 13 damwain arall, a arweiniodd at fân anafiadau, rhwng y pentref a chylchfan Penblewin. Mae'r damweiniau'n cynnwys sawl gwrthdrawiad penben a gwrthdrawiadau wrth oddiweddyd. Mae sawl rhan o'r A40 rhwng Hwlfordd a Sanclêr wedi cael eu huwchraddio i ffyrdd WS2+1. Mae data damweiniau'n dangos bod y gyfradd ddamweiniau ar gyfer ffyrdd WS2+1 â therfyn cyflymder o 50 neu 60mya 36% yn is na'r gyfradd ddamweiniau gyfatebol ar gyfer ffyrdd unffrwd â'r un terfyn cyflymder. O'i chymharu â ffyrdd unffrwd â therfyn cyflymder o 30 neu 40mya, mae'r gyfradd ddamweiniau ar gyfer ffyrdd WS2+1 52% yn is.
- 4.26 Penderfynwyd defnyddio matrices taith benodedig oherwydd amgylchiadau penodol ardal yr astudiaeth a thraffig. Darperir dystiolaeth o sut cafodd y model ei raddnodi a'i wirio, sy'n dangos bod model traffig y Cynllun yn cynrychioli'r amodau traffig a arsylwyd yn ystod y flwyddyn sylfaen yn gadarn, a'i fod felly'n addas i'r diben o baratoi rhagolygon traffig ar gyfer y dyfodol er mwyn arfarnu'r cynllun arfaethedig.
- 4.27 O ran amser teithio mewn car, byddai'r cynllun yn arbed oddeutu 20 eiliad tua'r dwyrain ac oddeutu 10 eiliad tua'r gorllewin. Mae'r arbedion amser teithio i HGVs yn debyg iawn. Mae'r arbedion amser wedi'u lleihau ychydig gan oedi newydd wrth gyffordd sy'n gysylltiedig â'r gylchfan arfaethedig ym mhen dwyreiniol y cynllun. Mae'r mesur tagfeydd yn dangos y disgwylir i'r ffordd weithredu o dan senario amodau llif rhydd. Unwaith eto, nodir nad yw'r dadansoddiad hwn yn cyfleu effaith cerbydau sy'n teithio'n araf ar ddefnyddwyr eraill y ffyrdd. Mae arsylwadau'n cadarnhau bod defnyddwyr y ffyrdd yn cael eu dal y tu ôl i gerbydau sy'n teithio'n araf weithiau, ac y byddai hyn yn digwydd yn amlach wrth i'r galw am deithio gynyddu.
- 4.28 Mae costau a buddiannau ariannol y cynllun wedi cael eu cyfrifo yn unol â'r canllawiau perthnasol. Mae'r buddion yn cynnwys ystyriaeth ariannol ynglŷn â llai o anafiadau o ganlyniad i'r cyfraddau damweiniau is ar gyfer ffyrdd WS2+1. Mae'r amcangyfrif hwn yn geidwadol. Mae'r costau cyffredinol yn cynnwys ystyriaethau priodol ynglŷn â risg a thuedd optimistaeth, yn unol â'r dulliau cymeradwy unwaith eto. Amcangyfrifir mai'r costau yw £39.5m, yn ôl prisiau 2018. Mae ymagwedd safonol y Deyrnas Unedig yn mynnu bod ffigurau'n cael eu gostwng i werthoedd 2010 fel y gellir cymharu pob Cynllun yn gyfartal. Y ffigurau hyn yw costau o £28.96m a buddion o £3.74m, gan arwain at gymhareb cost a budd (BCR) o 0.13. Ni ystyrir buddion ansoddol. Byddai'r Cynllun yn

² Adroddiadau cefndir yn CD 4.5.01 – 05

symud 96% o'r traffig presennol allan o'r pentref. Byddai hyn yn arwain at fuddion sylweddol i'r gymuned o ran llai o wahanu, llai o sŵn, gwell ansawdd aer a gwell cyfleoedd i gerdded a beicio. Byddai'r buddion i draffig yn cynnwys gwell dibynadwyedd amser siwrneiau; darparu cyfleoedd i oddiweddyd er mwyn osgoi platwnio a rhwystredigaeth ymhlith gyrwyr; a mynd i'r afael â llifoedd traffig uwch yn ystod cyfnodau gwyliau.

- 4.29 Cynhaliwyd dadansoddiad o sensitifrwydd. Mewn senario twf traffig isel mae'r BCR yn lleihau i 0.1, ac mewn senario twf uchel mae'r BCR yn cynyddu i 0.16. Cynigiodd y dyluniad cychwynnol ar gyfer pen dwyreiniol y Cynllun gyffordd-T groesgam i gyrraedd Llanddewi Felffre (sy'n cydymffurfio â safonau dylunio). Yn ystod y cyfnod ymgynghori, gofynnodd y cyhoedd iddi gael ei newid i gylchfan. Byddai hyn yn arwain at fuddion amlwg o ran diogelwch a llif traffig i'r brif ffordd o'r pentref. Er mwyn asesu effaith y newid hwn ar y BCR, cynhaliwyd prawf sensitifrwydd ychwanegol i asesu effaith y gylchfan arfaethedig ar ben dwyreiniol y cynllun o gymharu â chyffordd-T groesgam. Pe byddai cyffordd-T wedi cael ei darparu, yn lle cylchfan, byddai'r BCR ar gyfer y cynllun wedi bod yn 0.4. Mae hyn yn dangos bod y BCR yn sensitif iawn i newidiadau cymharol fach i ddyluniad y cynllun.
- 4.30 Mae prawf sensitifrwydd arall a gynhaliwyd yn ymwneud ag asesu'r cynigion a awgrymwyd i wella diogelwch ar draws ardal yr astudiaeth trwy leihau'r terfyn cyflymder trwy'r pentref o 40mya i 30mya. Dylid nodi bod sawl gwrthwynebydd wedi awgrymu hyn hefyd. Profwyd senario gwneud y lleiaf posibl trwy leihau'r terfyn cyflymder i 30mya trwy'r pentref ac i 50mya i Benblewin. Pan gymharwyd cynigion y Cynllun â'r senario gwneud y lleiaf posibl hwn gyda'r terfynau cyflymder is ar waith, cynyddodd y BCR yn sylweddol i oddeutu 0.6, sy'n dangos sensitifrwydd yr achos i'r terfyn cyflymder.
- 4.31 Mae'r awdurdodau perthnasol wedi cadarnhau y byddai Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ar gael ar gyfer y Cynllun er gwaethaf Brexit a'r ymadawriad o'r Undeb Ewropeaidd. Byddai'r cyllid hwn yn talu am oddeutu dwy ran o dair o'r gost gyffredinol.

Peirianeg

- 4.32 Mae'r cynllun yn cyd-fynd â'r safonau perthnasol, at ei gilydd. Mae'r gyffordd i'r gorllewin o'r pentref wedi cael ei newid i gyffordd groesgam chwith/de er mwyn: lleihau'r effaith ar berchenogaeth tir a chynyddu hyd lonydd goddiweddyd. Mae hyn yn gofyn am wyro oddi wrth y safon, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru. Darperir manylion adeiladu'r ffordd, gan gynnwys ffyrdd ymyl ac arwyneb ffordd sy'n lleihau sŵn. Cynhaliwyd archwiliad annibynnol o ddiogelwch ar y priffyrdd ynglŷn â'r Gorchmynion arfaethedig. Gwnaeth yr archwilywyr 25 o argymhellion ac mae'r tîm dylunio wedi derbyn bron pob un ohonynt. Roedd dau achos lle yr ystyriwyd na ddylid dilyn argymhellion yr archwilydd. Mae adroddiad eithriadau Archwiliad Diogelwch ar y Priffyrdd wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru (ID 15), sy'n derbyn bod rhesymau da dros yr eithriadau.

- 4.33 Darperir manylion y cloddwaith a'r trychiadau a'r argloddiau arfaethedig. At ei gilydd, cynigir cydbwysedd o dorri a llenwi. Disgrifir system draenio'r briffordd yn yr adroddiad strategaeth ddraenio (CD 4.04.04). Byddai system ddraenio gadarnhaol yn cael ei darparu ar gyfer y cynllun yn unol â'r safonau perthnasol sy'n ystyried y newid yn yr hinsawdd. Byddai dŵr ffo wyneb yn cael ei gasglu a'i gludo mewn pibellau o dan y ddaear i gyfleusterau arafu. Byddai pyllau arafu'n cael eu darparu, o faint sy'n ddigonol i ymdopi â digwyddiad 1 mewn 100 mlynedd +30% i ganiatáu ar gyfer y newid yn yr hinsawdd. O ganlyniad i'r cynigion draenio, byddai ansawdd dŵr yn cael ei gynnal yn unol â'r safonau gofynnol. Nid yw CNC na'r cyngor sir wedi gwrthwynebu'r trefniadau draenio.
- 4.34 Diwygiwyd dyluniad y Cynllun ar ôl ymgysylltu â'r cyhoedd, ac fe'i hadolygwyd gan Gomisiwn Dylunio Cymru (DCFW) mewn cyfres o gyfarfodydd. Aethpwyd i'r afael â'u sylwadau ar gynaliadwyedd ac allyriadau GHG. Yn y cyfarfod diweddaraf ym mis Chwefror 2020³, canmolwyd yr Hyrwyddwyr am eu hymgysylltiad â'r broses. Mae'r cysylltiad â'r cynigion tynnu statws cefnffordd yn gadarnhaol iawn ac fe'i croesawyd. Gwnaeth DCFW nifer o awgrymiadau a fydd yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru a'u cyflwyno i DCFW yn yr adolygiad nesaf. Roedd un awgrym yn ymwneud â chynhyrchu gofynion dylunio ychwanegol ar gyfer y Cynllun a'r cynigion Teithio Llesol a thynnu statws cefnffordd cysylltiedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i ddatblygu'r rhain i'w cynnwys yn nogfennau'r contract.
- 4.35 Yn amodol ar gwblhau'r gweithdrefnau statudol yn foddhaol, byddai contractwr Dylunio ac Adeiladu yn cael ei gaffael ar gyfer camau dylunio manwl ac adeiladu'r Cynllun. Disgwylir i'r gwaith adeiladu gymryd oddeutu 18 mis, gan ddechrau'n gynnar yn 2021 a gorffen ar ddiwedd 2022. Mae Adroddiad Adeiladwyedd (CD 4.04.09) wedi cael ei baratoi sy'n darparu methodoleg adeiladu amlinellol ar gyfer y Cynllun, gan gynnwys diagramau fesul cam / dilyniant mewn lleoliadau cydgysylltiad allweddol.
- 4.36 Mae'r ystyriaeth a roddwyd i adeiladu ac adeiladwyedd wrth ddatblygu'r dyluniad rhagarweiniol yn rhoi hyder y gellir cyflawni'r Cynllun yn llwyddiannus mewn modd effeithlon ac amserol gyda chydnyddiaeth ddigonol o'r amryw faterion amgylcheddol a pheirianegol, a'r effaith ar breswylwyr, busnesau a thraffig. Rhoddwyd ystyriaeth i'r cyfnod adeiladu o ran cynnal cysylltiadau â phrifyrdd, mynedfeydd preifat a hawliau tramwy yn ystod adeiladu. Er enghraifft, tra bod trosbont Llanfallteg Road yn cael ei hadeiladu, byddai ffordd dros dro yn cael ei darparu yn union i'r gorllewin o Llanfallteg Road i gynnal mynediad tra bod y gwaith yn cael ei wneud. Oriau gwaith arferol y prosiect fyddai 0700 i 1900 ar ddiwrnodau'r wythnos a 0700 i 1700 ar ddydd Sadwrn. Byddai unrhyw waith y tu allan i oriau arferol yn cael ei gytuno â'r swyddog iechyd yr amgylchedd lleol o flaen llaw a byddai preswylwyr lleol yn cael gwybod.
- 4.37 Mae'r Strategaeth Arwyddion Traffig a Marciau Ffordd (CD 4.04.02.) yn rhoi manylion y mesurau i hysbysu defnyddwyr y ffyrdd o gyfleusterau

³ Gweler y nodyn yn ID 17

lleol, sydd wedi'u seilio ar y rhai hynny a ddefnyddir yn rhan Robeston Wathen gyfagos o'r gwelliannau i'r A40. Byddai hyn yn mynd i'r afael yn rhannol â gwrthwynebiadau'r rhai hynny sy'n pryderu am effaith y cynllun ar y siop leol, y swyddfa bost a'r orsaf betrol sy'n gweithredu o dan yr enw Preseli Services Station.

- 4.38 Byddai goleuadau ffyrdd yn cael eu darparu wrth gylchfannau a'r rhannau o'r ffordd sy'n nesáu atynt yn unig. Byddai lleihau'r goleuadau yn arwain at fuddion yn sgil llai o gost, llai o effaith weledol, llai o effaith ar rywogaethau a warchodir (ystlumod) a llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae'r ymagwedd hon yn cyd-fynd â gwelliannau blaenorol i'r A40. Nid yw'r lleihad mewn goleuadau yn cydymffurfio â'r safonau, ac mae dau wriad wedi cael eu cymeradwyo yn rhan o ddyluniad y cynllun.
- 4.39 Mae'r dystiolaeth yn disgrifio'r gwelliannau teithio llesol a fyddai'n cael eu gwneud ar y rhannau o'r A40 flaenorol, y bwriedir tynnu ei statws cefnffordd. Trwy ddarparu'r Cynigion Teithio Llesol a Thynnu Statws Cefnffordd, ynghyd â darparu'r Gorchmynion arfaethedig, cyflawnir Amcanion canlynol y Cynllun: lleihau nifer a difrifoldeb gwrthdrawiadau (O4); hyrwyddo teithio llesol trwy feicio, marchogaeth a cherdded i ddarparu cyfleoedd ar gyfer ffyrdd iach o fyw (O5); lleihau hollti cymunedol a darparu buddion o ran iechyd ac amwynder (O3).
- 4.40 Byddai'r Cynigion Teithio Llesol a Thynnu Statws Cefnffordd ar gyfer yr A40 bresennol yn ategu buddion y Cynllun a'u cynyddu i'r eithaf. Nid yw'r Cynigion Teithio Llesol a Thynnu Statws Cefnffordd yn rhan o'r Gorchmynion arfaethedig, ac nid oes angen cymryd unrhyw dir ar eu cyfer yn y CPO ychwaith. Cefnogir y cynigion gan PCC ac maen nhw wedi'u sicrhau trwy gael eu cynnwys yn yr Hysbysiad o Gontract a gyhoeddwyd ar 16 Mawrth 2020 (gweler ID18).
- 4.41 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod achos cymhellol dros y cynllun a bod rhaid caffael tir a hawliau yn barhaol a dros dro er budd y cyhoedd. Y tir a'r hawliau sydd i'w caffael a ddangosir yn y CPO drafft yw'r lleiaf posibl sy'n angenrheidiol i adeiladu, lliniaru, gweithredu a chynnal y cynllun arfaethedig. Byddai'r rhan newydd o gefnffordd yn mynd trwy dir amaeth yn bennaf a byddai angen oddeutu 36 ha o dir i gyd (gan gynnwys tir dros dro ar gyfer adeiladu). Byddai un eiddo preswyl, o'r enw bwthyn Trefangor, yn cael ei ddymchwel o ganlyniad i'r cynllun. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn berchen ar yr eiddo hwn. Mae proses ymgysylltu â'r rhai hynny y mae'r CPO drafft yn effeithio arnynt wedi cael ei chynnal ac mae addasiadau i'r Gorchmynion arfaethedig wedi cael eu cynnig, gyda chytundeb y tirlfeddianwyr perthnasol.

Yr amgylchedd

- 4.42 Byddai'r system draenio'r briffordd yn cynnwys triniaeth tri cham ar ffurf draeniau hidlo, pyllau dal a basnau gwanhau i ddileu a chadw llygrwyr toddadwy a chrog er mwyn sicrhau bod y gollyngiadau i ddŵr daear neu gyrsiau dŵr lleol ar lefelau derbyniol. Amlinellir manylion cynnal a chadw'r pyllau triniaeth yn nogfen WG 1.4.4. Byddai mesurau arfer da safonol i ddiogelu adnoddau dŵr yn cael eu gweithredu yn ystod adeiladu. Felly, ni ddisgwylir i'r effeithiau ar yr amgylchedd dŵr o ganlyniad i

adeiladu a gweithredu'r cynllun arwain at unrhyw effaith niweidiol arwyddocaol.

- 4.43 Cynhaliwyd asesiad o effeithiau tirweddol a gweledol y Cynllun yn unol â'r fethodoleg ragnodedig yn DMRB. Aseswyd yr effaith ar ardaloedd sydd wedi'u cynnwys o fewn dynodiadau tirwedd a chanfuwyd na fyddai unrhyw effeithiau arwyddocaol. Mae 16 ardal cymeriad tirwedd o fewn ardal yr astudiaeth. Byddai effaith niwtral ar 14 a byddai effaith niweidiol gyffredinol ar 2. Byddai'r effeithiau'n rhai niweidiol mawr yn ystod y cyfnod adeiladu a blwyddyn un. Byddai'r mesurau lliniaru arfaethedig yn lleihau'r effeithiau hyn i rai niweidiol cymedrol erbyn blwyddyn 15. Cafwyd canlyniadau tebyg ar gyfer y golygfannau cynrychioliadol a amlygwyd yn yr asesiad o'r effaith weledol. Byddai effeithiau niweidiol mawr ar 10 golygfan sy'n agos i'r cynllun. Erbyn blwyddyn 15, rhagwelir effeithiau gweledol niweidiol gweddilliol arwyddocaol ar gyfer wyth eiddo preswyl a rhannau o 13 hawl dramwy gyhoeddus. Byddai effeithiau buddiol arwyddocaol ar gyfer pedwar eiddo a dwy hawl dramwy.
- 4.44 Gallai'r cynllun achosi difrod ffisegol i weddillion archaeolegol claddedig. Amlinellir rhaglen o werthuso a lliniaru archaeolegol yn yr ES. Byddai effeithiau niweidiol dibwys ar ddwy gofeb gofrestredig. Byddai effaith fuddiol ar ddau adeilad rhestredig a chofeb ryfel y pentref o ganlyniad i sgrinio a llai o draffig ar yr A40 bresennol. Byddai effaith ddibwys ar chwe adeilad rhestredig arall.
- 4.45 Dyluniwyd y cynllun i leihau'r effaith ar dir amaeth i'r eithaf, ond bydd yn golygu colli oddeutu 27 ha o dir amaeth yn barhaol. Nid oes unrhyw ran o'r tir a gollir yn y categori gorau neu fwyaf amlbwrpas, a byddai ei gollu o arwyddocâd niweidiol bach. Byddai'r cynllun yn effeithio ar saith fferm. Bydd pob un yn profi newidiadau arwyddocaol i'w gweithrediadau dydd i ddydd, ond ni fyddai hyfywedd y daliadau dan fygythiad.
- 4.46 O ran ansawdd aer, mae'r crynodiadau llygredd presennol yn ardal yr astudiaeth yn isel a bodlonir amcanion ansawdd aer ar hyn o bryd. Mae effaith y cynllun yn dangos na fyddai unrhyw achosion o fynd yn fwy na'r amcanion NO₂ na PM₁₀. Mae canlyniadau'r asesiad yn dangos y byddai'r cynllun yn gwella ansawdd aer i fwyafrif y preswylwyr yn yr ardal.
- 4.47 Byddai effeithiau adeiladu ar yr amgylchedd yn cael eu rheoli trwy'r cynllun rheoli amgylcheddol adeiladu (CEMP)⁴, a fyddai'n rheoli camau gweithredu a pherfformiad amgylcheddol y contractwr yn ystod adeiladu. Caiff ei ddiweddarau cyn adeiladu ac yn gyfnodol drwy gydol y cam adeiladu. Byddai'r CEMP yn cael ei ategu gan Gofrestr Camau Gweithredu ac Ymrwymadau Amgylcheddol (REAC)⁵, datganiadau o ddull a baratowyd, prif gynlluniau amgylcheddol a dogfennau eraill perthnasol fel y Strategaeth Cadwraeth Rhywogaethau a Warchodir. Er bod yr ymrwymadau amgylcheddol yn anstatudol, mae Llywodraeth Cymru yn eu trin fel petaent yn gyfrwymol. Bydd y CEMP yn ffurfio'r sail i'r dogfennau ôl-ofal a'r dogfennau trosglwyddo pan fydd y gwaith adeiladu wedi cael ei gwblhau.

⁴ Ceir fersiwn ragarweiniol (y CEMP rhagarweiniol) yn Atodiad 2.2 yr ES

⁵ Gweler ID 7a

4.48 Mae ystyriaethau amgylcheddol wedi dylanwadu ar ddyluniad y cynllun er mwyn lleihau effaith y ffordd newydd ar dirwedd ac ecoleg yr ardal i'r eithaf. Mae mesurau lliniaru ymgorfforedig yn cynnwys cydbwysedd torri/llenwi, cadw'r cynllun mor isel â phosibl yn y dirwedd, gwaith tirwedd a phlannu gwrychoedd cynhwysfawr, yn enwedig ar yr argloddiau mawr, a dewis llwybr sy'n osgoi ardaloedd coetir hynafol lle y bo'n bosibl. Mae'n anochel y bydd gwrychoedd yn cael eu colli o ganlyniad i'r cynllun, ond byddai gwrychoedd presennol yn cael eu cadw neu eu trawsleoli lle bynnag y bo'n bosibl. Byddai coed iach yn cael eu cadw a'u gwarchod lle y bo'n bosibl, ac mae newidiadau i'r aliniad yn golygu y gellir gwarchod mwy o goed perth aeddfed unigol. Byddai gwaith plannu'n cael ei wneud hefyd i helpu i liniaru rhywogaethau a warchodir, fel yr amlinellir yn y dystiolaeth ynglŷn ag ecoleg.

Ecoleg

- 4.49 Mae gofynion deddfwriaeth, polisi ac arweiniad perthnasol yn ymwneud ag ecoleg a chadwraeth natur wedi'u hystyried ac wedi derbyn sylw. Cynhaliwyd arolygon priodol yn unol â chanllawiau arfer gorau. Amlinellir y canlyniadau yn y dystiolaeth a'r ES. Ymgynghorwyd â rhanddeiliaid amgylcheddol, gan gynnwys cyfarfodydd â Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).
- 4.50 Amlinellir yr effeithiau posibl ar gynefinoedd a chyrsgiau dŵr. Bydd adeiladu'r cynllun yn arwain at golli cynefinoedd glaswelltir, coetir a gwrychoedd. Ni ystyrir bod colli cynefinoedd o ganlyniad i adeiladu'r cynllun yn arwyddocaol o ganlyniad i werth isel y cynefinoedd.
- 4.51 Mae'r effeithiau posibl ar rywogaethau a warchodir sy'n bresennol yn ardal yr astudiaeth wedi cael eu hystyried yn ofalus a byddai mesurau lliniaru ac osgoi priodol yn cael eu mabwysiadu yn y Cynllun. Amlinellir effeithiau'r Cynllun ar safleoedd dynodedig Ewropeaidd yn yr SIAA a phennod 8 yr ES. Mae'r effeithiau arwyddocaol posibl (heb unrhyw fesurau lliniaru) yn ymwneud â'r effeithiau ar ddyfrgwn, ystlumod pedol mwyaf, ystlumod pedol lleiaf ac ystlumod duon trwy wrthdaro â cherbydau a darnio cynefin.
- 4.52 Mae'r CEMP yn amlinellu trefniadau monitro priodol yn ystod y cyfnodau adeiladu ac ôl-ofal. Adroddir ar ganlyniadau monitro i CNC a chyrrff amgylcheddol statudol perthnasol eraill yn flynyddol. Yn ogystal, bydd cwmpas, dulliau a chanlyniadau'r gwaith monitro yn cael eu trafod trwy ymgysylltiad pellach â'r grŵp cyswllt amgylcheddol yn ystod ac ar ôl adeiladu.
- 4.53 Roedd CNC wedi mynegi rhai pryderon ynglŷn â'r mesurau lliniaru arfaethedig. Ymdriniwyd â'r pryderon hyn ac mae CNC bellach yn fodlon â'r cynigion lliniaru. Mae dyluniad y cynllun wedi cael ei ddiwygio i gynnwys cwlfertau o faint addas i "rywogaethau ystlumod coetir" yn unol ag argymhellion arweinwyr blaenllaw yn y maes hwn⁶. Canfuwyd bod maint y cwlfertau a gynigiwyd yn cynyddu'r defnydd ohonynt yn sylweddol gan ystlumod pedol mwyaf yn y gwelliannau i'r A40 yn Robeston Wathen gyfagos⁷. Cynigir sawl tanffordd i gerddwyr o fewn y cynllun, a fydd yn fannau croesi effeithiol ar gyfer ystlumod. Mae lleoliad rhai o'r tanffyrdd

⁶ Berthinussen ac Altringham (2015) CD 4.06.17

⁷ Davies (2019) CD 4.06.23

hyn wedi cael ei newid i gyd-fynd â choridorau hedfan ystlumod a amlygwyd.

- 4.54 Dadansoddwyd data'r arolwg ymhellach i asesu'r risg bosibl i ystlumod, yn enwedig y rhywogaethau sy'n nodwedd o'r ACA. Daeth y tyst i'r casgliad bod perygl isel iawn y byddai rhywogaethau ystlumod pedol yn gwrthdaro â cherbydau gan nad ydynt yn bresennol yn aml a bod traffig yn ysgafn ar yr adegau o'r nos pan fo'r rhywogaethau hynny'n debygol o fod yn croesi'r cynllun.
- 4.55 Byddai goleuadau'n cael eu cyfyngu i'r ddwy gylchfan er mwyn osgoi effeithiau ar rywogaethau fel ystlumod, pathewod, moch daear a dyfrgwn. Bydd dyluniad y goleuadau'n cyfyngu ar y golau a ollyngir er mwyn osgoi goleuo llystyfiant yn agos i'r cynllun. Bydd coed sydd eisoes yn bodoli yn cael eu cadw lle y bo'n bosibl a bydd sbesimenau mwy o faint yn cael eu plannu ar bob ochr i'r ffordd i ddarparu croesfannau diogel ar gyfer ystlumod ym mhob un o'r manau croesi a amlygwyd lle mae canghennau'r coed yn bargodi ar draws y ffordd. Gellir gwneud gwaith gwella i gyfrannu at fioamrywiaeth ac amryw gynlluniau gweithredu a pholisïau. Ym mhen gorllewinol y Cynllun, gallai'r tir rhwng y gefnffordd flaenorol a'r ffordd newydd greu glaswelltir blodau gwyllt a mathau eraill o gynefin, a fydd yn cyfrannu at gynllun gweithredu bioamrywiaeth a mentrau coridorau gwyrdd Llywodraeth Cymru.
- 4.56 Cynigir gosod ffens i ddiogelu rhywogaethau a warchodir ar hyd y cynllun gan fod dyfrgwn a moch daear yn bresennol. Bydd y mesurau lliniaru arfaethedig yn effeithiol o ran atal dyfrgwn a rhywogaethau eraill o famaliaid daearol rhag cyrraedd y ffordd gerbydau, a byddant yn darparu manau croesi diogel (fel cwlffertau). Bydd y cynefin cyfnewid y bwriedir ei blannu yn darparu cynefin addas i'w ddefnyddio gan bathewod, ar gymhareb o 2.15 ha ar gyfer pob hectar a gollir. Byddai'r cwlffertau mwy o faint a'r tanffyrdd yn cynnwys croesfannau addas i bathewod. Bydd y cynigion lliniaru diwygiedig hyn yn effeithiol o ran cynnal cysylltedd y poblogaethau pathewod ar bob ochr i'r Cynllun.
- 4.57 Daeth yr SIAA i'r casgliad, gyda'r mesurau lliniaru priodol fel y'u hamlygwyd a'u disgrifiwyd, na fyddai unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd y safleoedd Ewropeaidd sy'n cael eu hystyried. Daeth yr ES i'r casgliad, gyda'r amryw fesurau lliniaru a digolledu a gynigir, y byddai effeithiau posibl y Cynllun yn cael eu lleihau i lefelau na fyddent yn arwyddocaol.
- 4.58 Mae cynllun lliniaru rhywogaethau a warchodir wedi cael ei baratoi a'i drafod gyda CNC, sydd wedi cadarnhau bod y mesurau lliniaru arfaethedig yn foddhaol yn amodol ar ychwanegu sawl ymrwymiad amgylcheddol at y gofrestr. Mae CNC hefyd yn fodlon na fyddai'r cynigion yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safleoedd Ewropeaidd a ystyrir yn yr SIAA. Mae'r pryderon wedi derbyn sylw ac mae CNC bellach yn fodlon â'r cynigion lliniaru a'r SIAA diwygiedig.

Sŵn

- 4.59 Gallai'r cynllun achosi cynnydd tymor byr, dros dro mewn sŵn a dirgryniad wrth rai derbynyddion sensitif yn ystod y gwaith adeiladu, a

newidiadau i lefelau sŵn traffig (cynnydd a gostyngiad). Roedd yr asesiad yn cynnwys arolwg sŵn sylfaenol, cyfrifo effeithiau sŵn a dirgryniad adeiladu, a modelu cyfrifiadurol i bennu effeithiau sŵn traffig. Cynhaliwyd yr holl elfennau hyn o'r asesiad yn unol â chanllawiau perthnasol safonau Prydeinig a'r DMRB. Roedd y gwaith modelu'n gadarn ac yn briodol i'r asesiad hwn. Mae darpariaethau deddfwriaeth diogelu amgylcheddol yn berthnasol i'r cyfnod adeiladu. Rheolir sŵn a dirgryniad adeiladu trwy'r gofyniad i ddilyn y dulliau gweithio ymarferol gorau, yn unol â'r safon Brydeinig berthnasol. Mae Llanddewi Felffre yn ardal flaenoriaeth ddynodedig yn y cynllun gweithredu sŵn, o ystyried effeithiau negyddol sŵn traffig o'r A40.

- 4.60 Daeth yr ES i'r casgliad, gyda'r mesurau lliniaru ychwanegol ar waith, y gallai effeithiau sŵn adeiladu gael eu lleihau i'r fath raddau fel na fyddai unrhyw effeithiau arwyddocaol yn codi. Mae canlyniadau'r asesiad sŵn traffig yn yr ES wedi cael eu hailgyfrifo oherwydd bod yr arwyneb lleihau sŵn ar yr A40 bresennol yn fwy helaeth nag a dybiwyd ac oherwydd bod y ffigurau cywir wedi cael eu darparu. Rhagwelir y bydd lefelau sŵn yn gostwng wrth y rhan fwyaf o anheddau yn y tymor byr a'r tymor hir, gyda 43 yn gweld gostyngiadau mawr yn y flwyddyn agoriadol, gan gynnwys sawl un sy'n profi lefelau sŵn uchel iawn ar hyn o bryd. Byddai 14 yn gweld gostyngiadau mawr yn y flwyddyn ddylunio. Yn y flwyddyn agoriadol, byddai 88 eiddo'n gweld gostyngiad bach i fawr mewn sŵn, a byddai hynny'n parhau ar gyfer 49 o'r rheiny yn y flwyddyn ddylunio. Byddai tri eiddo preswyl anghysbell ac un derbynnydd sensitif yn gweld sŵn yn cynyddu'n sylweddol yn y flwyddyn agoriadol, a byddai un effaith fawr yn parhau yn y flwyddyn ddylunio. Fodd bynnag, byddai dau o'r rhain yn parhau i brofi lefelau sŵn absoliwt cymharol isel sydd islaw trothwyon Sefydliad Iechyd y Byd, hyd yn oed gyda'r ffenestri ar agor. Disgwylir cynnydd bach i fawr wrth 15 eiddo preswyl yn y flwyddyn agoriadol ac 8 yn y flwyddyn ddylunio. Aseswyd nad yw'r effeithiau hyn yn achosi effaith arwyddocaol o ystyried y ffactorau eraill a amlinellir yn yr ES.⁸
- 4.61 I grynhoi, dangosodd yr ES na fyddai unrhyw effeithiau arwyddocaol yn codi o ganlyniad i sŵn neu dirgryniad adeiladu (trwy sicrhau bod y dulliau gweithio ymarferol gorau yn cael eu dilyn, a bod mesurau lliniaru priodol yn cael eu cynnwys). Byddai cymuned Llanddewi Felffre yn gweld effeithiau buddiol parhaol sylweddol yn sgil gostyngiad mewn sŵn traffig o ganlyniad i'r cynllun. Ni nododd yr asesiad unrhyw effaith niweidiol arwyddocaol o ganlyniad i sŵn traffig.

Casgliadau ynglŷn â'r Cynllun

- 4.62 Dylai'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru gael ei derbyn fel cyfiawnhad rhesymedig ar gyfer y Gorchmynion arfaethedig. Roedd y dystiolaeth yn gynhwysfawr ac yn fanwl. Mae'r dystiolaeth honno'n dangos bod modd cyflawni datrysiad derbyniol. Darparwyd tystiolaeth arbenigol glir a chytbwys ynglŷn â mater allweddol mesurau lliniaru i leihau neu osgoi effeithiau. Mae'r dystiolaeth honno, p'un a oedd yn ymwneud â gwarchod rhywogaethau neu ddarparu coetir cyfnewid, wedi

⁸ paragraff 14.3.78

cael ei hystyried yn ofalus ac yn darparu cydbwysedd gofalus rhwng yr amryw ffactorau economaidd, traffig, peirianeg, ecolegol ac amgylcheddol o fewn datrysiad sy'n rhoi pwys priodol i'r gwahanol fuddiannau hyn.

- 4.63 Mae'r cynlluniau i wella'r rhan hon o'r A40 wedi bod yn rhan o bolisi ers blynyddoedd lawer ac, wrth i'r Cynllun ddatblygu, maen nhw wedi parhau i fod yn rhan o bolisi ar lefel gyffredinol, strategol a lleol. Mae ID 10 yn dangos nad yw hyn wedi newid o ganlyniad i'r cyhoeddiad ynglŷn ag argyfwng hinsawdd ar 29 Ebrill 2019. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir nad yw'r digwyddiad hwnnw wedi newid ei pholisi ynglŷn ag adeiladu ffyrdd yn gyffredinol na chefnogi neu hyrwyddo'r Cynllun hwn yn benodol.
- 4.64 Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio ystod o bolisiau sy'n ceisio mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, megis: Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (CD 4.01.24), y Bil Gwasanaethau Bysiau diweddar sy'n cynnwys cynllun i gefnogi awdurdodau lleol i ddarparu mwy o fysiau (gweler ID 20) a'i buddsoddiad sylweddol mewn trafndiaeth dawlach, lanach a gwyrddach yng Nghymru, fel y gwelir yn yr ymrwymadau gwario a wnaed yng nghyllideb 2020-21 i gefnogi'r trawsnewidiad i gerbydau allyriadau isel, gyda'r bwriad o gael fflyd o fysiau a thacsis/cerbydau hurio preifat di-allyriadau erbyn 2028. Wedi dweud hynny, nid mater i'r Ymchwiliad yw p'un a ddylai polisi Llywodraeth Cymru fod yn wahanol. Mae sawl gwrthwynebiad yn mynd yn groes i Egwyddor Bushell trwy feirniadu polisi Llywodraeth Cymru yn hytrach na'i gymhwysiad i'r Cynllun a'r problemau sydd gerbron yr Ymchwiliad hwn.
- 4.65 Mae'r Cynllun yn mynd i'r afael â'r problemau a amlygwyd yn rhan o astudiaeth WelTAG, ac yn bodloni'r amcanion a amlinellwyd yn rhan o'r Astudiaeth honno yn y ffordd orau. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau'r buddion mwyaf posibl yn sgil tynnu statws cefnffordd y rhan o'r A40 bresennol. Mae'r cynigion yn cael eu datblygu gyda'r Cyngor a phreswylwyr lleol er mwyn gwella'r amgylchedd lleol a'r gymuned leol. Mae'r ymrwymiad i ddarparu'r gwaith hwn wedi cael ei brofi trwy ei gynnwys yn yr Hysbysiad o Gontract ar gyfer y Cynllun (ID 18).
- 4.66 Mae'r dyluniad peirianegol yn cyflawni'r cydbwysedd cywir i fodloni'r amcanion a mynd i'r afael â'r materion ffisegol a chysylltu a gyflwynir gan yr amgylchedd. Mae'r Adroddiad Eithriadau Diogelwch Ffyrdd yn cyflwyno casgliadau ar yr archwiliad diogelwch ffyrdd a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r datrysiad a gynigir yn un ystyriol. Cyfiawnhawyd y tir a gymerir mewn perthynas â phob achos o gaffael. Ystyriwyd effeithiau adeiladu yn fanwl, fel yr amlinellir yn yr Adroddiad Adeiladu ac Adeiladwyedd. O ran y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl, amlygwyd mynedfeydd amgen rhesymol ac fe'u darperir. Mae Llywodraeth Cymru yn dadlau bod yr ystyriaethau a'r gofynion amgylcheddol wedi cael eu bodloni. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cadarnhau bod yr holl weithdrefnau a phrosesau statudol wedi cael eu dilyn.
- 4.67 Gan droi at ofynion polisi cynllunio, mae'r Cynllun yn bodloni rhai o'r ystod eang o bolisiau yn PPW10 ond yn gwrthdaro ag eraill. Felly, mae angen dod i gasgliad cytbwys, gan bwysu'r buddion yn erbyn effeithiau niweidiol.

Mae paragraff 2.24 PPW10 yn cynghori y dylai buddion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol gael eu hystyried yn y broses benderfynu.

- 4.68 Yn yr achos hwn, mae buddion i ddiogelwch ar y priffyrdd a dibynadwyedd siwrneiau, a buddion posibl i'r economi leol a thwristiaeth, sydd oll yn denu pwys sylweddol. Mae'r hyrwyddwr yn rhoi pwys mawr i'r buddion i breswylwyr Llanddewi Felffre yn sgil llai o hollti cymunedol, llygredd aer a sŵn traffig, gwell cyfleoedd ar gyfer teithio llesol a'r cyfle i greu amgylchedd mwy diogel.
- 4.69 Yn erbyn y buddion hyn, mae'n rhaid ystyried yr effaith tymor hir ar y dirwedd a'r cynnydd mewn allyriadau GHG. Ni fyddai effaith arwyddocaol ar 14 LCA, a byddai mesurau tirwedd helaeth yn lleihau'r effaith tymor hir ar y 2 LCA yr effeithir arnynt i lefel gymedrol. Mae'r mesurau lliniaru ar gyfer rhywogaethau a warchodir wedi cael eu dylunio'n ofalus i ymateb i bryderon CNC, nad yw'n gwrthwynebu'r Cynllun na'r SIAA. Am y rhesymau hyn, dylid rhoi pwys cyfyngedig i'r effeithiau ar y dirwedd a'r effeithiau posibl ar fioamrywiaeth. Mae'n rhaid ystyried y cynnydd mewn allyriadau yng nghyd-destun camau gweithredu Llywodraeth Cymru ar draws ei holl feysydd cyfrifoldeb, gan gynnwys trafnidiaeth, sydd â'r nod o leihau allyriadau yng Nghymru a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.
- 4.70 Mae'r buddion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol sy'n deillio o'r Cynllun hwn, a gefnogir gan dystiolaeth gadarn, yn drech na'i effeithiau niweidiol cyfyngedig. Y casgliad cyffredinol ar ofynion cynllunio yw bod y Cynllun yn cyd-fynd â'r polisiau cynllunio cenedlaethol yn PPW10 a'r polisiau sy'n dod i'r amlwg yn y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

5 YR ACHOS O BLAID Y CEFNOGWYR

Cefnogwr a fynychodd yr Ymchwiliad

Mr Keith Thomas, Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanddewi Felffre⁹ (R0022)

- 5.1 Crybwyllwyd gwelliannau i'r A40 o amgylch y pentref gyntaf ym 1980 gan y Swyddfa Gymreig. Amlygodd adroddiad a gomisiynwyd gan yr hen Gyngor Cefn Gwlad Cymru ym 1995 y problemau a achosir gan swm a chyflymder traffig (yn enwedig HGVs) trwy'r pentref. Amlygwyd cyfres o erthyglau papur newydd yn cyfeirio at y problemau a brofwyd gan breswylwyr. Wrth agor ffordd osgoi Robeston Wathen yn 2011, cyhoeddodd y Dirprwy Brif Weinidog y byddai'r Cynllun presennol yn symud ymlaen. Dywedodd fod ffordd osgoi Robeston Wathen wedi rhyddhau canol y pentref rhag effeithiau traffig trwm y gefnffordd ac y byddai'n gwella diogelwch ac ansawdd bywyd y gymuned leol. Dyma'n union beth mae preswylwyr Llanddewi Felffre wedi bod yn ei geisio ers blynnyddoedd lawer fel y gallant ddefnyddio cyfleusterau lleol yn ddiogel ac y gall plant fynd i'r ysgol yn ddiogel. Nodir yr arbedion o ran amser siwrneiau a'r buddion economaidd yn sgil gwell cysylltedd. Ond o safbwynt preswylwyr, mae'r Cynllun yn ymwneud â'u diogelwch, eu llesiant a'u hansawdd bywyd.

Mynegiadau Ysgrifenedig o Gefnogaeth

Cyngor Sir Penfro (PCC) (R0052)

- 5.2 Un o nodau strategol y Cyngor yw cefnogi darparu'r Cynllun a chynlluniau ffyrdd allweddol eraill er mwyn gwella cysylltedd Sir Benfro trwy ffyrdd, rheilffyrdd, dŵr ac yn ddigidol. Esbonnir cefndir cynllun corfforaethol y Cyngor. Tynnir sylw at y trydydd amcan, sef gwneud Sir Benfro yn economaidd gystadleuol, gynhyrchiol a ffyniannus. Lle gwych i fyw a gweithio ynddo ac i ymweld ag ef. Er mwyn datblygu'r amcanion hyn, mae angen goresgyn anfanteision fel bod yn gymharol bell oddi wrth brif ganolfannau poblogaeth, yn ogystal â diffyg cysylltiadau da. I fynd i'r afael â hyn, ystyrir bod angen buddsoddi mewn seilwaith allweddol i gefnogi'r economi leol a'i phrif ddiwydiannau. Os na fydd hyn yn digwydd, ofnir mai cenedlaethau'r dyfodol fyddai'n ysgwyddo baich yr effaith. Aberdaugleddau yw'r pumed porthladd prysuraf yn y Deyrnas Unedig ac mae'n cynnwys Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau. Mae'r ardal hon yn un bwysig iawn o ran cyflenwadau ynni a seilwaith perthynol. Mae'r A40 yn darparu cysylltiad strategol pwysig i'r ardal fenter. Nodir hefyd bod y bwrdd iechyd lleol wedi gwneud ymrwymiad cadarnhaol i adeiladu ysbyty newydd yn rhywle rhwng Arberth a Sanclêr. Yn amlwg, byddai ffordd well yn cefnogi'r fenter hon. Felly, ystyrir yn strategol bod y Cynllun yn ddarn allweddol o seilwaith i helpu i wella mynediad ar gyfer Sir Benfro.

⁹ Esboniodd Mr Thomas ei fod yn siarad ar ran yr holl gynghorwyr cymuned a llawer o breswylwyr y pentref

- 5.3 Yn ogystal â phwysleisio'r buddion economaidd ehangach a amlinellir uchod, nodir y buddion lleol i'r gymuned o ran lleddfu effaith traffig trwy'r pentref. Mae rhaglen y Cyngor hefyd yn canolbwyntio ar leihau nifer y bobl sy'n cael eu hanafu a'u lladd ac ar sicrhau ffyrdd mwy diogel. Dros y blynyddoedd, mae'r Cyngor wedi cael gwybod am bryderon lleol sylweddol ynglŷn â'r problemau traffig trwy'r pentref. Bydd y Cynllun yn lleddfu'r rhan fwyaf o'r pryderon hyn a bydd y gwelliannau i gyfleusterau cerdded a beicio yn yr ardal a gynigir yn rhan o'r Cynllun yn arwain at well cyfleoedd a buddion sylweddol i ddiogelwch ffyrdd. Er ei fod yn cefnogi'r Cynllun hwn, mae'r Cyngor yn cefnogi mesurau trafndiaeth eraill hefyd, megis: gwell cysylltiadau rheilffyrdd â Sir Benfro a rhwydwaith o lwybrau beicio a cherdded rhwng trefi i leihau'r defnydd o geir ac annog pobl i fod yn fwy egniol yn gorfforol.

Cyngor Cymuned Llanddewi Felfre (R0083)

- 5.4 Mae'r Cyngor yn cefnogi'r ffordd osgoi arfaethedig yn llwyr. Mae'r cleric yn rhannu pryderon preswylwyr lleol sydd wedi cael eu cofnodi ers blynyddoedd lawer, ac yn sicr ers 2002. Mae'r cyngor a phreswylwyr wedi anfon llawer o lythyrau at Aelodau Seneddol, Aelodau'r Cynulliad, ac ati, yn gofyn am wneud gwelliannau i'r ffordd. Mae pryderon y Cyngor yn ymwneud â cherbydau sy'n teithio rhy gyflym trwy'r pentref (gweler arolygon traffig) a chamau annigonol i orfodi terfynau cyflymder. Mae gan y ffordd bresennol hanes gwael o ran diogelwch, cyffyrdd sydd wedi'u halinio'n wael a diffyg croesfannau diogel i gerddwyr, yn enwedig plant ysgol sy'n croesi i gyrraedd eu bysiau ysgol. Mae'r llwybrau troed yn annigol i gerddwyr ac yn annigonol i bobl sy'n llai symudol. O ganlyniad, mae preswylwyr oedrannus yn gyrru i'r siop leol gan ei bod yn rhy beryglus i gerdded ar hyd y ffordd. Mae peirianwyr sy'n cynnal gwaith arolygu ar y palmentydd wrth ymyl yr A40 wedi dweud ei bod yn torri canllawiau iechyd a diogelwch. Mae'r problemau hyn wedi arwain at gymuned ranedig, y byddai'r ffordd osgoi yn ei datrys. Mae'r Cyngor Cymuned yn ymwybodol y bydd y cynllun yn cael effaith negyddol ar rai preswylwyr, ond mae'n credu y byddai hyn yn cael ei wrthbwyso'n sylweddol gan y buddion mawr i'r gymuned gyfan yn drech na hyn.

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (R0018)

- 5.5 Mae'r Cynllun arfaethedig wedi cael ei ystyried. Bydd yn darparu cyfanswm o 2 km o lonydd goddiweddyd tua'r dwyrain ac 1 km tua'r gorllewin. Bydd yn gwneud gwelliannau i'r ffordd wael sy'n mynd trwy ganol y pentref, ni fydd yn effeithio ar fynediad i'r pentref a'r ardal o'i amgylch, a bydd yn cynyddu diogelwch trwy ei ddyluniad, ei adeiladwaith a'i oleuadau. Gan fod y cynnig hwn wedi'i fwriadu i gynyddu diogelwch ffyrdd a lleihau traffig, gan osgoi'r pentref, fe'i cefnogir yn llwyr.

Bwrdd Cyngori Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau (HWEZAB) (R0109)

- 5.6 Byddai'r cynnig yn gwella cysylltedd strategol a dibynadwyedd cysylltiadau â Chaerdydd a Bryste, sy'n bwysig i fynd i'r afael â pherifferoldeb. Byddai gwelliannau sylweddol i ddibynadwyedd, capasiti ac amser siwrneiau ar yr A40 yn welliant mawr. Cefnogir y cynllun yn gryf.

Pwyntiau a wnaed mewn cyflwyniadau ysgrifenedig unigol

Nodyn gan yr Arolygydd

Derbyniwyd 61 o gyfathrebiadau unigol yn cefnogi'r cynllun. Yn ogystal, derbyniwyd deiseb gefnogol yn cynnwys dros 151 o lofnodion¹⁰. Mae llawer o'r cyfathrebiadau hyn yn gwneud pwyntiau tebyg ac, i gynorthwyo'r darllenydd, mae'r paragraffau canlynol yn crynhoi'r prif bwyntiau a wnaed.

- 5.7 Yr A40 yw'r brif ffordd ar gyfer traffig sy'n defnyddio fferi Abergwaun, a dyma'r unig ran rhwng Hwlfordd a Chaerfyrddin sydd â therfyn cyflymder 40mya. Ceir tagfeydd yn y pentref yn aml, felly mae cyrraedd yr A40 o unrhyw gyffordd yn y pentref yn beryglus. Mae traffig yn cynyddu'n sylweddol yn ystod cyfnodau gwyliau o ganlyniad i dwristiaeth, sy'n gwaethygu'r problemau hyn. Mae carafannau teithiol yn creu problemau, ynghyd â'r nifer fawr o HGVs a thraffig lleol sydd oll yn defnyddio'r rhan hon o'r ffordd.
- 5.8 Mae'r ffordd osgoi wedi bod yn yr arfaeth ers blynyddoedd lawer ac fe ddylai symud ymlaen o ystyried yr angen clir i'r A40 gael ei hailgyfeirio o amgylch y pentref. Cyflwynwyd ffeil gyda'r ddeiseb. Mae'n cynnwys Adroddiad Cyngor Cefn Gwlad Cymru o 1995 yn ogystal â dogfennau eraill, cynlluniau ac erthyglau o'r wasg ynglŷn â phroblemau traffig a'r ffordd osgoi arfaethedig (dyddiad y cynharaf yw 1980). Ofnir y gallai'r prosiect gael ei oedi unwaith eto er anfantais i breswylwyr.
- 5.9 Mae'r llwybr troed presennol i'r garej yn beryglus iawn ac mae llawer o breswylwyr yn dewis gyrru ar gyfer y daith fer honno. Mae llawer o breswylwyr yn cyfeirio at anawsterau wrth ymuno â'r A40 ac mae'n well ganddynt droi i'r chwith a throi eu cerbydau yn hytrach na cheisio croesi'r brif ffordd. Mae preswylwyr yn cyfeirio at ddigwyddiadau yn ymwneud â HGVs, damweiniau a fu bron â digwydd a damweiniau go iawn. Mae preswylwyr lleol yn credu bod y ffordd yn beryg bywyd. Mae llawer o draffig yn teithio trwy'r pentref, ac mae'r rhan fwyaf ohono'n anwybyddu'r terfyn cyflymder 40mya. Mae sŵn traffig a llygredd 24 awr o ganlyniad i'r traffig cynyddol. Mae nifer o breswylwyr yn cyfeirio at gael eu magu yn y pentref a gorfod croesi'r ffordd i ddal y bws ysgol neu fynd i'r parc. Mae'r ffordd yn arbennig o beryglus i blant a phobl ifanc. Mae llawer o rieni'n dewis gyrru eu plant i'r ysgol oherwydd ei bod yn rhy beryglus cyrraedd y bws ysgol. Mae'r cynllun yn cynnwys gwell cysylltiadau â'r pentref i gerddwyr, a fyddai'n annog preswylwyr sy'n byw gerllaw i wneud teithiau byr i'r pentref ar droed neu ar gefn beic.
- 5.10 Mae gan nifer o breswylwyr lleol gymwysterau perthnasol fel cynllunwyr tref neu wyddonwyr ac, wedi ystyried manylion y cynllun, maen nhw'n cefnogi'r ffordd osgoi arfaethedig yn llwyr.

¹⁰ Mae ID 22 Crynodeb o Gynrychiolaethau yn amcangyfrif bod 244 o unigolion wedi'u henwi a bod cyfanswm lefel y gefnogaeth yn cyfateb i 192 o unigolion

6 YR ACHOS O BLAID Y GWRTHWYNEBWYR

Nodyn gan yr Arolygydd

Tynnwyd yn ôl bron pob un o'r gwrthwynebiadau statudol i'r Cynllun erbyn diwedd yr Ymchwiliad o ganlyniad i drafodaethau parhaus ac addasiadau a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd. Ymddangosodd yr asiant ar ran gwrthwynebiad R0026 yn yr Ymchwiliad. Daethpwyd i gytundeb gyda Llywodraeth Cymru drannoeth a thynnwyd y gwrthwynebiad yn ôl. Tynnwyd yn ôl gwrthwynebiadau a oedd yn weddill gan Dŵr Cymru a Western Power Distribution hefyd. Yn ddigymwynas, tynnwyd y gwrthwynebiad olaf yn ôl y diwrnod cyn y disgwyliwyd i'r gwrthwynebydd fynychu'r Ymchwiliad. O ganlyniad i'r nifer fach o wrthwynebiadau sy'n weddill, nid wyf wedi dilyn y fformat adrodd confensiynol. Yn lle hynny, rwyf wedi adrodd ar y gwrthwynebiadau a'u dilyn yn syth gan ymateb Llywodraeth Cymru.

Gwrthwynebwyr a ymddangosodd yn yr Ymchwiliad

Yr achos o blaid Cyfeillion y Ddaear Sir Benfro (R0040)

- 6.1 Dros flynyddoedd lawer, mae Cyfeillion y Ddaear Sir Benfro wedi cefnogi gwelliannau cyfyngedig i'r A40, fel ffordd osgoi Robeston Wathen, tra'u bod yn ymladd yn erbyn deuoli'r ffordd hon. Cydnabyddir bod preswylwyr y pentref o blaid y ffordd osgoi. Fodd bynnag, mae costau'r Cynllun yn drech na'r buddion.
- 6.2 Mae Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Penfro a Chyngor Sir Caerfyrddin wedi cydnabod ein bod yn wynebu argyfwng hinsawdd a bod rhaid i ni weithredu nawr i warchod y byd rhag cynhesu byd-eang. Cefnogir hyn gan y dyfarniad cyfreithiol diweddar yn erbyn y drydedd redfa ym Maes Awyr Heathrow, a ddadleuodd fod rhaid i bob polisi ystyried Cytundeb Paris a'r gostyngiadau mewn allyriadau GHG y mae Llywodraethau wedi cytuno iddynt a'u cadarnhau mewn deddfau. Datblygwyd y cynllun cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi argyfwng hinsawdd ym mis Ebrill 2019. Dylai'r cynllun cael ei ailasesu yng ngoleuni'r argyfwng cydnabyddedig.
- 6.3 Mae Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (CD 4.01.24) yn datgan mai'r ffordd orau o leihau allyriadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth yw lleihau defnydd o geir preifat. Amcangyfrifir y bydd y Cynllun yn cynyddu allyriadau GHG o draffig 8%, o gymharu â pheidio ag adeiladu'r Cynllun. Mae'r asesiad gan yr hyrwyddwr yn dangos y byddai'r cynllun yn cael effaith niweidiol gymedrol o ran nwyon tŷ gwydr. Bydd hefyd yn arwain at fwy o allyriadau CO₂ trwy effeithio ar goetir aeddfed a thrwy'r gwaith adeiladu. Bydd traffig sy'n teithio'n gyflymach yn arwain at fwy o sŵn a mygdarthau pibellau gwacáu, gan leihau ansawdd aer.
- 6.4 Mae PPW yn sôn am osgoi creu datblygiadau wedi'u seilio ar geir. Byddai'r Cynllun yn gwneud y gwrthwyneb. Mae PPW yn mynnu bod hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy yn cael ei defnyddio mewn perthynas â datblygiad newydd. Mae'r hierarchaeth yn gosod ceir ar y gwaelod, felly mae'r Cynllun yn groes i'r polisi. Mae Llywodraeth Cymru yn dadlau nad yw'r hierarchaeth yn berthnasol gan ei bod yn ceisio mynd i'r afael ag anawsterau presennol ac nid yw'n gysylltiedig â datblygiad newydd. Fodd bynnag, honnir hefyd y bydd y Cynllun yn arwain at fuddion economaidd ac yn gwella mynediad at addysg uwch. Felly, mae hyn naill ai'n anwir, neu dylai'r hierarchaeth fod yn berthnasol.

- 6.5 O ran yr WFGA: nid yw'r cynllun yn gydnaws â Nod Llesiant 7 – Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang. Mae'r gwrthwynebydd yn deall bod Llywodraeth Cymru ar fin cyhoeddi strategaeth drafnidiaeth newydd a bod y cynllun hwn yn debygol o fod y tu allan i'r gwelliannau i ffyrdd a ragwelir yn y strategaeth newydd hon.
- 6.6 Yn ôl tystiolaeth Llywodraeth Cymru i'r Ymchwiliad, mae'r achos economaidd dros y cynllun yn dangos gwerth gwael am arian. Byddai'n well defnyddio'r arian i wella gwasanaethau trafndiaeth leol, gan gynnwys y rhwydwaith bysiau a threnau. Gallai'r angen i fysiau sy'n teithio tua'r dwyrain droi i'r dde i mewn i'r pentref a chroesi'r A40 effeithio ar amserau a dibynadwyedd siwrneiau. Ychydig o ystyriaeth a roddwyd i drafnidiaeth gyhoeddus o ran y cynllun. Anwybyddodd asesiad Llywodraeth Cymru y posibilrwydd o wneud gwelliannau i reilffyrdd o ganlyniad i'r diffyg gorsafoedd o fewn ardal yr astudiaeth. Fodd bynnag, mae mwyafrif y traffig sy'n teithio trwy'r pentref yn dod o Hwlfordd, Abergwaun neu Aberdaugleddau. Mae gan y tair tref hyn gysylltiadau rheilffyrdd â Chaerfyrddin, Abertawe a thu hwnt, sy'n brif gyrchfannau. Cyfeirir at wasanaethau bysiau arloesol a chynlluniau trafndiaeth gymunedol mewn ardaloedd a gwledydd eraill.
- 6.7 Honnir mai gwella amserau siwrneiau yw un o fanteision mawr y cynllun. Fodd bynnag, mae'r ffigurau'n dangos mai dim ond oddeutu 10 neu 20 o eiliadau a fyddai'n cael eu harbed, sy'n welliant bach i amser siwrneiau. Mae unrhyw welliant yn debygol iawn o gael ei wrthbwyso gan fwy o dagfeydd yn Hwlfordd a Chaerfyrddin. Bydd y tagfeydd hyn yn effeithio ar ansawdd aer yn yr ardaloedd adeiledig hyn.
- 6.8 Nodwyd mai diogelwch ar y priffyrdd yw un o brif fanteision y cynllun. Mae sawl ffordd o gyflawni hyn heb adeiladu ffordd gwbl newydd. Dylai arian gael ei ailddyrannu i wella cysylltedd lleol a llwybrau diogel i feicwyr, cerddwyr a thrafnidiaeth gyhoeddus. Byddai hyn yn cynnwys croesfan ddiogel yn y pentref, lledu palmentydd a mesurau gostegu traffig. Yn arbennig, nid yw'n ymddangos bod cyfiawnhad i'r rhan o'r gorllewin o'r pentref i Benblewin, nad yw'n helpu i leihau hollti cymunedol. Nid oes tystiolaeth bod y cyhoedd yn cefnogi gwelliant oddi ar linell y ffordd ar gyfer y rhan hon, ar ôl dadansoddi canlyniadau'r ymarferion ymgynghori. Felly, nid yw'r rhan orllewinol yn darparu llawer o fudd heblaw am arbedion amser dibwys am gost ariannol ac amgylcheddol sylweddol. Mae asesiad Llywodraeth Cymru yn dangos bod y Cynllun arfaethedig yn perfformio'n wael o ran agweddau amgylcheddol. Mae pump o'r wyth maes prawf yn arwain at effeithiau negyddol. Byddai gwelliannau o ran sŵn ac ansawdd aer yn sgil y trosglwyddiad disgwylidig i gerbydau trydan yn lleihau llygredd sŵn ac aer ni waeth p'un a fyddai'r Cynllun yn symud ymlaen. Bydd y Cynllun yn cael effaith arwyddocaol ar goetir hynafol, bydd yn cael effaith negyddol ar nifer o ffermydd a cheir pryder ynglŷn â'i effaith ar nifer o rywogaethau sy'n bwysig yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gan gynnwys ystlumod a dyfrgwn.

Yr ymateb gan Lywodraeth Cymru

- 6.9 Roedd y gwrthwynebydd yn cefnogi gwelliannau i'r A40, yn enwedig ffordd osgoi Robeston Wathen. Mae'r cynllun yn debyg i'r ffordd osgoi honno a gwblhawyd yn 2011. Mae'r gwrthwynebydd yn amlwg yn cydnabod gwerth y cynllun i lawer o breswylwyr y pentref. Cydnabyddir yn glir y teimladau cryf yn yr ardal ynglŷn â symud traffig allan o'r pentref. O'i archwilio, ni ellid cadarnhau safbwynt y Tyst y gallai'r effeithiau negyddol gael eu datrys yn y pentref.
- 6.10 Mae llawer o'r dadleuon a wnaed yn groes i egwyddor Bushell gan eu bod yn cyfeirio at bolisiau Llywodraeth Cymru yn hytrach na'u cymhwysiad i'r broblem benodol sydd gerbron yr Ymchwiliad hwn. Dylid nodi'r pwynt hwn o ran sawl gwrthwynebiad arall.
- 6.11 Nid yw penderfyniad Heathrow yn berthnasol i'r Ymchwiliad hwn oherwydd ei fod yn ymwneud â Datganiad Polisi Cenedlaethol Lloegr, y canfuwyd nad oedd wedi'i lunio yn unol â'r gyfraith. Paratowyd y cynllun hwn o dan ddeddfwriaeth Cymru. Yr WFGA yw'r hyn sy'n fwyaf perthnasol i'r mater hwn. Mae'r Cynllun wedi cael ei baratoi yn unol â WeITAG, sydd wedi'i seilio ar ofynion yr WFGA.
- 6.12 Mae gwrthwynebwyr yn herio i ba raddau y byddai'r Cynllun yn cyfrannu'n gadarnhaol at yr amcanion llesiant cenedlaethol, ac yn pwysleisio'r methiant i annog newid moddol a'r cynnydd mewn allyriadau GHG. Er hynny, byddai'n anghywir gwrthod y Cynllun ar sail ei anallu i gyfrannu at un o'r saith nod llesiant yn unig, gan anwybyddu ei gyfraniadau cadarnhaol at y lleill, i bob pwrpas. Mae'n rhaid dod i safbwynt cytbwys sy'n cydbwysu methiant i gyfrannu at un nod yn erbyn yr holl gyfraniadau cadarnhaol at nodau llesiant eraill. At hynny, nid yw'r WFGA yn mynnu bod rhaid i bob cam gweithredu a gymerir gan Lywodraeth Cymru wneud cyfraniad cadarnhaol at bob un o'r nodau llesiant. Ni fyddai'n ymarferol gosod gofyniad o'r fath. Mae Adran 3(2)(a) yr WFGA yn mynnu y dylai amcanion llesiant corff cyhoeddus gynyddu 'ei' gyfraniad at gyflawni'r nodau i'r eithaf. Felly, camau gweithredu Llywodraeth Cymru gyda'i gilydd yw'r hyn y dylid ei ystyried, yn hytrach na chyfraniadau prosiectau unigol.
- 6.13 Rhan ganolog o gamau gweithredu Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd yw ei chyhoeddiad ynglŷn ag argyfwng hinsawdd ym mis Ebrill 2019 (Doc 4.01.65). Mae gwrthwynebwyr yn dadlau bod y Cynllun hwn yn anghydnaws â'r cyhoeddiad hwnnw; mae eu dadleuon yn awgrymu y dylai pob cynllun adeiladu ffordd ddod i ben. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwahardd pob cynllun ffordd newydd yng Nghymru; yn hytrach, mae'n cymryd camau ar draws pob maes y mae'n gyfrifol amdano i gyflawni ei huchelgeisiau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019 (Doc 4.01.24), yn cynnwys 100 o bolisiau a chynigion wedi'u gwasgaru ar draws holl bortffolios gweinidogol Llywodraeth Cymru. Mae cyllideb 2020-21 y Llywodraeth yn dyrannu £140m i gefnogi mentrau sydd â'r nod o ddatgarboneiddio trafniadaeth. Mae'r gwrthwynebydd yn

beirniadu camau gweithredu Llywodraeth Cymru ynglŷn â datgarboneiddio trafndiaeth, ond nid yw hynny'n fater i'r Ymchwiliad hwn.

- 6.14 Byddai'r cynllun yn arwain at fwy o allyriadau GHG. Fodd bynnag, pan gyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd, ni chyhoeddodd waharddiad ar adeiladu ffyrdd newydd. Cadarnhawyd hyn mewn sawl datganiad cyhoeddus gan Weinidogion Cymru (ID 10). Mae'r gwrthwynebydd yn cyfeirio at newidiadau posibl i'r polisi trafndiaeth yn y dyfodol. Fodd bynnag, gellir gwneud penderfyniadau yng nghyd-destun polisiau presennol yn unig. Mae'r Cynllun yn rhan o Strategaeth Drafnidiaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ac wedi'i gynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir Benfro (CD 4.01.58).
- 6.15 Mae paragraff 4.1.11 PPW yn cyfeirio at ddefnyddio hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy mewn perthynas â datblygiad newydd. Mae'r paragraff nesaf yn datgan mai bwriad yr hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy yw atal datblygiadau sy'n dibynnu ar geir mewn lleoliadau anghynaliadwy. Mae'n amlwg bod ei pherthnasedd i'r Cynllun hwn yn gyfyngedig. Mae paragraff 5.3.13 yn datgan y dylai cynlluniau ffordd newydd a gwelliannau i ffyrdd ystyried yr hierarchaeth drafnidiaeth, sy'n golygu bod trafndiaeth egniol a chynaliadwy yn cael ei hystyried cyn cerbydau modur preifat. Fodd bynnag, mae rhan nesaf y paragraff hwn yn datgan y bydd hyn yn helpu i leihau hollti cymunedol ac effeithiau niweidiol ar ddiogelwch, cyfleustra ac amwynder llwybrau ar gyfer teithiau ar droed, ar gefn beic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus. Nid oes amheuaeth y byddai'r Cynllun hwn yn lleihau hollti cymunedol yn sylweddol yn Llanddewi Felffre ac yn darparu cyfle i greu llwybr diogel a deniadol trwy'r pentref a'i ardal amgylchynol ar gyfer cerdded, beicio a mynediad i wasanaethau bysiau. Nid yw'r Cynllun yn gwrthdaro â pholisiau cynllunio cenedlaethol.
- 6.16 Byddai llawer o gost y cynllun yn cael ei hariannu trwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Ni fyddai'r cyllid hwn ar gael i wella gwasanaethau trafndiaeth leol eraill. Er bod y BCR o 0.13 yn dynodi achos economaidd gwael, fel yr amlinellir yn y dystiolaeth traffig ac economeg, mae llawer o fuddion anariannol na ellir eu meintio. Amlinellwyd y rhain yn gynharach, ond, i grynhoi, maen nhw'n ymwneud â gwelliannau i ddibynadwyedd amser siwrneiau trwy ddarparu cefnffordd well (mae'r cynllun yn rhan o'r gwelliant cyffredinol i goridor yr A40), lleihau straen a rhwystredigaeth gyrwyr ac effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol eraill. Dangoswyd hefyd bod mân addasiadau i'r cynllun neu derfynau cyflymder trwy'r pentref yn gwella'r BCR yn sylweddol.
- 6.17 Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i welliannau posibl i'r system trafndiaeth gyhoeddus bresennol yn y pentref ac o'i amgylch¹¹. Daethpwyd i'r casgliad bod y gallu i gyflawni newid moddol trwy drosglwyddo teithiau ar hyd y rhan hon o'r A40 i'r rheilffyrdd yn debygol o fod yn gyfyngedig. Byddai'n rhaid i'r boblogaeth wledig wasgaredig deithio mewn ceir i gyrraedd gorsafoedd rheilffyrdd ac ni fyddai'r arbedion i amser siwrneiau yn annog defnydd o'r rheilffyrdd. Mae gwasanaethau bysiau gwell yn cael

¹¹ dogfen 4.03.04

eu targedu orau ar lefel ranbarthol, ac mae'r astudiaethau'n dangos na fyddai hyn yn mynd i'r afael â'r problemau ar hyd yr A40.

- 6.18 Mae'r effeithiau ar goetir hynafol wedi cael eu hasesu yn yr ES fel yr adroddwyd yn nhystiolaeth Mr Sumner ac yn yr ymateb i'r gwrthwynebiad gan Goed Cadw. Nid oes gan CNC unrhyw wrthwynebiad yn hyn o beth nac mewn perthynas â'r effeithiau ar rywogaethau a warchodir a safleoedd dynodedig.
- 6.19 Byddai cynnwys y rhan orllewinol yn darparu ffordd gerbydau 2+1 hwy o lawer ac felly cyfleoedd ychwanegol i oddiweddyd yn ddiogel. Byddai hyn yn lleihau straen gyrwyr, yn cynyddu ansawdd a dibynadwyedd siwrneiau, yn gwella mynediad at gyflogaeth a gwasanaethau ac yn lleihau nifer y damweiniau posibl. Byddai cyfle hefyd i greu llwybr diogel a chyfleus ar gyfer cerddwyr, beicwyr a marchogion gan ddefnyddio'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus arfaethedig a'r A40 y tynnwyd ei statws cefnffordd, a fyddai'n darparu buddion iechyd ac amwynder.

Nodyn gan yr Arolygydd: Roedd Cyfeillion y Ddaear wedi cyfeirio at ddarparu tanffordd, palmentydd wedi'u lledu a mesurau gostegu traffig yn y pentref yn eu gwrthwynebiad gwreiddiol. Adroddir ar yr ymateb i'r materion hyn isod mewn perthynas â gwrthwynebiad R0015.

Yr achos o blaid Mr a Mrs Peett (R0024)

- 6.20 Mynegodd y gwrthwynebwyr faterion ychwanegol o egwyddor mewn cyflwyniadau llafar i'r Ymchwiliad, fel a ganlyn: defnyddir mynediad i Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau fel cyfiawnhad ar gyfer y Cynllun, er bod yr ardal hon yn cael ei gwasanaethu gan yr A477, sy'n llwybr mwy deniadol. Mae dyluniad y ffordd osgoi yn wael, gyda chylchfan a chyfleoedd cyfyngedig i oddiweddyd ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin. Ym mhrofiad y gwrthwynebwyr, mae ffyrdd 2+1 yn fwy peryglus na ffyrdd unffrd. Mae'r Cynllun yn werth gwael am arian a gallai diogelwch yn y pentref gael ei wella trwy ledi palmentydd a lleihau terfynau cyflymder. Nid yw'r Cynllun yn rhan o strategaeth gyffredinol i wella'r A40, a'r cyfan y bydd yn ei wneud yw symud problemau i lawr y ffordd. A yw'r Cynllun yn cydymffurfio â Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 yng ngoleuni dyfarniad y Llys Apêl ar yr estyniad arfaethedig i faes awyr Heathrow? Mae'r Cynllun yn groes i gyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynglŷn ag argyfwng hinsawdd. Mae colli tir amaethyddol ac allyriadau GHG yn ystyriaethau pwysig. Mae adroddiadau ynglŷn â chost y Cynllun wedi amrywio'n fawr, ac mae gan Lywodraeth Cymru hanes gwael o gadw at gyllidebau.
- 6.21 Roedd y gwrthwynebiad gwreiddiol yn ymwneud ag effaith y cynnig ar werth eu heiddo trwy gyfrwng mwy o sŵn a llygredd golau. Y mater pwysicaf oedd sŵn. Mae lefelau sŵn tymor hir uwchlaw 55dbA yn niweidiol i iechyd. Ni chynhaliwyd arolygon monitro sŵn wrth yr eiddo, a gallai'r ymagwedd ddiffygiol hon fychanu'r effaith o bosibl, yn enwedig gan fod yr holl ystafelloedd gwely a'r ardd ar ochr yr A40 o'r eiddo. Dylid darparu byndiau sŵn wedi'u lleoli mewn man addas a gwydro dwbl ar y wedd sy'n wynebu tua'r de. Bydd adeiladu a gweithredu'r cynllun yn cael effaith ddifrifol ar eu busnes gwely a brecwast, oherwydd un o'i brif

rinweddau gwerthu yw ei leoliad tawel. Heriwyd faint o oleuadau a gynigir wrth gylchfan Penblewin.

- 6.22 Byddai llinell welediad glir o'r ffordd arfaethedig a'r fynedfa breifat (PMA) a adwaenir fel Lôn Trefangor tuag at eiddo'r gwrthwynebwyr, yn groes i dystiolaeth Llywodraeth Cymru. Byddai'r lleiniau gwelededd (tua'r dwyrain) wrth gyffordd y PMA â'r A478 yn annigonol. Mae mynediad i gae yn agos i'r gyffordd PMA arfaethedig. Mae'r lleoliad hwn yn annerbyniol ac fe allai fod yn beryglus. Mae'n rhaid lleihau'r terfyn cyflymder ar yr A478 cyn iddi gyrraedd y gyffordd PMA, yn enwedig gan y bydd y PMA yn cael ei defnyddio gan draffig fferm. Roedd pryderon ynglŷn â dŵr ffo wyneb yn cyrraedd yr eiddo o'r A478, a fydd yn cael ei waethygu gan y cynnig¹².

Nodyn gan yr Arolygydd

Roedd y gwrthwynebwyr o blaid darparu PMA amgen gyda thanffordd o'r A40 flaenorol yn agos i'r fynedfa i Bounty Farm. Roedd achos Llywodraeth Cymru yn erbyn y dewis amgen hwn (dau opsiwn) wedi darbwylo'r gwrthwynebwyr i'w dynnu'n ôl yn yr Ymchwiliad (ID26).

Ymateb Llywodraeth Cymru

- 6.23 Ymdriniwyd â gwerth am arian a'r angen am y Cynllun uchod. Nid yw newidiadau i'r A477 na dileu tollau pont Cleddau wedi cael effaith sylweddol ar lif traffig ar yr A40. Mae'r amrywiad yng nghostau'r Cynllun yn deillio o amcangyfrif cynnar pan ddyfarnwyd y contract i gwmni adeiladu Carillion yn 2016. Ailarfarnwyd y Cynllun pan aeth Carillion i'r wal ac mae'r costau a ddyfynnwyd bellach yn gywir. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i gyfyngu ar orwario'r gyllideb, fel yr amlinellir yn y dystiolaeth economeg ac ID 19.
- 6.24 Nid yw penderfyniad Heathrow yn berthnasol i'r Ymchwiliad hwn oherwydd ei fod yn ymwneud â Datganiad Polisi Cenedlaethol Lloegr, y canfuwyd nad oedd wedi'i lunio yn unol â'r gyfraith. Paratowyd y cynllun hwn o dan ddeddfwriaeth Cymru. Yr WFGA yw'r hyn sy'n fwyaf perthnasol i'r mater hwn. Mae'r Cynllun wedi cael ei baratoi yn unol â WelTAG, sydd wedi'i seilio ar ofynion yr WFGA.
- 6.25 Mae pryderon ynglŷn ag effaith y cynnig ar werth yr eiddo a'r busnes gwely a brecwast yn faterion iawndal ac nid ydynt yn berthnasol i'r Ymchwiliad hwn.
- 6.26 Byddai Ffordd Ymyl arfaethedig (y cyfeirir ati fel Lôn Trefangor) wedi ymuno â'r A478 ger tir y gwrthwynebwyr. Roedd yr Arolygydd yn rhannu'r pryder ynglŷn â ph'un a fyddai gwelededd priodol wrth y gyffordd rhwng yr A478 a'r Ffordd Ymyl arfaethedig. Mae Llywodraeth Cymru wedi ailystyried ac yn cytuno y byddai problem welededd o ganlyniad i grib yn yr A478 gerllaw. Mae'r Cynllun wedi cael ei ddiwygio i symud y gyffordd tua'r gogledd i giât gae bresennol, gyda chytundeb y tiffeddianwyr¹³. Mae

¹² Mae'r gwrthwynebiad yn cyfeirio at Lôn Trefangor fel PMA. Ffordd ymyl ydyw yn y Cynllun. Mae'r llain welededd y cyfeirir ati yn mynd tua'r gogledd yn hytrach na'r dwyrain.

¹³ Addasiad 18

- hyn yn sicrhau y byddai gwelededd digonol yn cael ei ddarparu ac na fydd y gyffordd yn rhy agos i'r giât gae bresennol.
- 6.27 Byddai'r golygfeydd tuag at eiddo'r gwrthwynebwyr o'r Cynllun yn gyfyngedig iawn, hyd yn oed pan fyddai'r berth a'r coed yn y canol wedi colli eu dail yn y gaeaf. Byddai'r cyfuniad o bellter (350m), tirffurf a sgrinio yn golygu na fyddai unrhyw effaith weledol arwyddocaol ar yr eiddo.
- 6.28 Cynhaliwyd yr asesiad sŵn yn unol â'r canllawiau yn y DMRB. Ni chynhaliwyd arolwg sŵn wrth yr eiddo oherwydd credwyd bod hynny'n ddiangen o ystyried ei leoliad a'i bellter oddi wrth y cynllun. Mae arolwg sŵn wedi cael ei gynnal bellach ar gais y gwrthwynebwyr, er nad oedd angen technegol am y mesuriadau hyn. Trwy gymharu'r lefelau sylfaenol a ragfynegwyd a'r lefelau sylfaenol a fesurwyd, dangoswyd bod y lefelau sylfaenol a ragfynegwyd gan y model yn rhy isel, yn enwedig yn y nos. Mae'r model sŵn sylfaenol wedi'i seilio ar lifoedd traffig blynyddol cyfartalog yn ystod yr wythnos, fel sy'n ofynnol yn ôl y canllawiau, ac felly mae'n annhebygol o fod yn union yr un fath ag unrhyw ddata sampl. At hynny, mae'n ymwneud yn unig â thraffig ar y ffyrdd a fodelwyd ac nid yw'n ystyried ffynonellau eraill o sŵn cefndir. Gallai'r ffynonellau eraill hyn o sŵn esbonio'r gwahaniaethau rhwng y lefelau sŵn a fesurwyd a'r sylfaen sŵn a fodelwyd. Ni fyddai defnyddio'r sylfaen a fesurwyd na'r sylfaen a ragfynegwyd yn effeithio ar gasgliadau'r asesiad o sŵn traffig.
- 6.29 Rhagfynegir y bydd lefel sŵn traffig wrth yr eiddo yn cynyddu llai nag 1 dB, y byddai'n anodd sylwi arno ac nad yw'n arwyddocaol. Byddai lefelau sŵn wrth yr eiddo yn ystod y dydd a'r nos yn aros ymhell islaw safonau lefel sŵn awyr agored Sefydliad Iechyd y Byd.
- 6.30 Lefel ddyddiol gyfartalog y sŵn adeiladu fyddai oddeutu 42 – 54 dBA LEQ yn ystod y cyfnod asesu. Byddai hyn yn amlwg yn effaith dros dro yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae'r dystiolaeth yn dangos na fyddai'r lefel 55-dBA yn cael ei thorri. Felly, mae'n ymddangos nad oes sail dda i'r gwrthwynebiad hwn, ac efallai na fydd mesurau lliniaru'n gwbl angenrheidiol. Wedi dweud hynny, y bwriad presennol, yn ôl y Cynllun Rheoli Amgylcheddol, yw darparu clawdd â pherth a sgrîn prif oleuadau yn gyfochrog ag ochr ogleddol y ffordd gerbydau ar bellter priodol yn ôl oddi wrth y ffordd. Ar hyn o bryd, disgwylir i'r clawdd hwnnw ymestyn ar hyd ochr yr ail gae o'r gylchfan. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd y clawdd ei hun, nad yw ei ddyluniad wedi'i gwblhau'n derfynol eto, o fudd i'r gwrthwynebwyr o safbwynt acwstig ac y gallai'r berth ddarparu rhywfaint o sgrinio.
- 6.31 Bydd dŵr ffo o'r PMA arfaethedig yn rhedeg i'r de tuag at gylchfan Penblewin a bydd ffos ddraenio'n cael ei darparu. Felly, ni fydd y cynllun yn gwaethgu materion dŵr ffo wyneb wrth y fynedfa i eiddo'r gwrthwynebwyr. Mae'r terfynau cyflymder ar yr A478 yn fater i'r awdurdod priffyrdd lleol (y cyngor sir). Yn dilyn cais gan y gwrthwynebwyr, cynhaliwyd cyfarfod â PCC, a fyddai'n barod i ystyried y newidiadau a awgrymwyd i'r terfynau cyflymder yn yr ardal o amgylch y fynedfa i'r eiddo. Byddai'r rhain yn faterion i PCC ac nid y Cynllun.

Gwrthwynebiadau Ysgrifenedig

Yr achos o blaid Coed Cadw (R0053)

- 6.32 Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth coetiroedd y Deyrnas Unedig sy'n ceisio gwarchod coetiroedd brodorol, coed a'u bywyd gwyllt ar gyfer y dyfodol. Mae Coed Cadw yn gwrthwynebu'r Cynllun ar sail difrod a cholli 2 ardal o goetir hynafol, y mae'r ddwy wedi'u cofnodi fel safleoedd coetir hynafol wedi'i adfer ar y rhestr coetiroedd hynafol. Mae PPW yn datgan bod coetir hynafol yn adnodd naturiol na ellir ei adnewyddu a chanddo werth tirwedd, bioamrywiaeth a diwylliannol arwyddocaol. Dylai coed a choetiroedd o'r fath gael eu gwarchod rhag datblygiad a fyddai'n arwain at eu colli neu eu dirywio oni bai bod buddion cyhoeddus sy'n arwyddocaol ac wedi'u diffinio'n glir. Yn achos safle sydd wedi'i gofnodi ar y rhestr coetiroedd hynafol, dylid ystyried cyngor CNC.
- 6.33 Diffiniwyd yr effeithiau fel: colled uniongyrchol i Goed Ffynnon a choetir heb ei enwi o ganlyniad i greu'r ffordd newydd; darnio o ganlyniad i ddinistrio cynefinoedd lled-naturiol cyfagos; lle mae ymyl y coetir yn bargodi'r rhwydwaith ffyrdd, gallai canghennau a hyd yn oed coed cyfan gael eu tocio neu eu torri'n ddiwahân, gan leihau canopi'r coetir; gallai fod newidiadau i'r hydroleg, gan newid cyfeintiau dŵr daear a dŵr wyneb; a gallai gwaith dros dro sy'n gysylltiedig â'r cynllun achosi difrod tymor hir i gynefinoedd. Roedd Coed Cadw hefyd yn pryderu am gynnydd mewn sŵn a llygredd golau o draffig, yn ogystal â llygredd llwch yn ystod adeiladu. Bydd y coetiroedd hefyd yn destun mwy o allyriadau NO₂ o gerbydau, sy'n gallu newid cymeriad llystyfiant coetir.
- 6.34 I warchod coetir hynafol rhag effeithiau'r cynllun, mae Coed Cadw yn dadlau y dylai llain glustogi o 30 m o leiaf gael ei sefydlu cyn i'r gwaith ddechrau, er mwyn osgoi difrod i wreiddiau a chaniatáu ar gyfer effaith llygredd o'r cynllun.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- 6.35 Byddai'r Cynllun yn mynd trwy ddwy ardal o goetir hynafol wedi'i adfer yng Nghoed Ffynnon a Choed Blaen-Pentroydin. Mae Coed Ffynnon wedi'i gynnwys yn y rhestr coetiroedd hynafol. Fodd bynnag, nid coetir hynafol wedi'i adfer yw llawer o'r coetir y byddai'r Cynllun yn effeithio arno. Mae'n rhan o arglawdd presennol yr A40 a ailblannwyd â choed conifferaidd anffodorol rai blynyddoedd yn ôl. Mae 1,387 m² o'r 2,085 m² yr effeithir arno eisoes o fewn ffin y briffordd. Yng Nghoed Blaen-Pentroydin, byddai'r Cynllun yn effeithio ar lain gul o goetir hynafol sy'n dod i 3,266 m².
- 6.36 Mae aliniad y Cynllun wedi cael ei ddewis yn ofalus i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o goetir hynafol yn cael ei gollu yn y ddau leoliad. Cynigir mesurau lliniaru ar ffurf 6.6 ha o goetir newydd neu gyfnewid. Byddai'r adnodd pridd o'r ardaloedd coetir hynafol yn cael ei aildddefnyddio yn yr ardaloedd plannu hyn. Mae'n rhaid cydbwysu buddion y Cynllun yn erbyn colli'r ardaloedd bach hyn o goetir hynafol. Mae safbwyntiau CNC yn ystyriaeth bwysig, ac nid oes gan CNC wrthwynebiad yn hyn o beth. Deuir i'r casgliad bod y Cynllun yn bodloni gofynion PPW o ran y polisi ar warchod coetir hynafol.

6.37 Mae'r ES yn rhagfynegi na fyddai unrhyw effeithiau niweidiol ar ddŵr daear na dŵr wyneb, nac ar ansawdd aer nac o ganlyniad i lygredd o gerbydau. Atgyfnerthir y casgliadau hyn gan y ffaith y byddai'r cynnig ar arglawdd trwy'r ddwy ran o goetir hynafol, sy'n cynyddu'r pellter oddi wrth y ffordd a'r cyfraddau gwasgaru ar gyfer allyriadau. Byddai mesurau priodol yn cael eu defnyddio i reoli llwch.

6.38 Bwriedir lleihau faint o goed a chanopi a gollir o ganlyniad i'r Cynllun i'r eithaf. Byddai'r ymagwedd a ddefnyddir yn cael ei rheoli yng Nghynllun Rheoli Amgylcheddol y Contractwr (sy'n rhan o'r ES). Mae'r CEMP yn mynnu bod y contractwr yn sicrhau bod coed a gedwir a'u hardaloedd gwarchod gwreiddiau yn cael eu diogelu'n ddigonol yn unol â Safonau Prydeinig perthnasol. Byddai'r CEMP a'r REAC yn mynd i'r afael â'r broses ar gyfer trawsleoli priddoedd, gwrychoedd a choed wedi'u bondocio.

Yr achos o blaid J Webb (R0005)

6.39 Derbynnir bod y ffordd trwy'r pentref yn brysur a bod problem yn bodoli. Mae ehangu cylchfan Penblewin a'r ffordd newydd i ddarparu mynediad i'r pentref o'r dwyrain yn gostau diangen ac yn wastraff arian.

Ymateb Llywodraeth Cymru

6.40 Bwriedir cadw cylchfan bresennol yr A40 o Benblewin er mwyn darparu mynediad i'r ardal orffwys, tir amaeth ac eiddo. Gan y byddai'r gylchfan yn gwasanaethu ffordd ychwanegol, byddai angen ei hehangu. Ni fyddai unrhyw ddewis amgen yn cynnig yr un buddion. Byddai angen cynyddu uchder ffordd gyswllt y pentref i'r gylchfan ddwyreiniol er mwyn darparu graddiant addas. Mae hyn yn golygu na ellir defnyddio'r A40 bresennol fel yr awgrymwyd.

Yr achos o blaid Mr Thomas Wheeler (R0015)

6.41 Byddai'r Cynllun yn groes i bolisiau a thargedau Llywodraeth Cymru ar y newid yn yr hinsawdd a lleihau allyriadau GHG, yng nghyd-destun yr argyfwng hinsawdd a gyhoeddwyd. Mae'r Hyrwyddwr yn gofyn i'r prosiect hwn gael ei ystyried yng nghyd-destun ehangach ymdrechion Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd mewn sectorau eraill. Mae camau gweithredu i ddatgarboneiddio trafndiaeth wedi bod yn gyfyngedig iawn ac mae pob tunnell ychwanegol o CO₂ yn ei gwneud hi'n fwy anodd cyflawni targedau cynhesu byd-eang. Nid yw'r Cynllun yn gydnaws â'r targed i leihau allyriadau'r sector trafndiaeth 43% erbyn 2030 a osodwyd yn Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel (CD 4.01.24).

6.42 Byddai'r ffordd osgoi hon yn groes i hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy Polisi Cynllunio Cymru, sy'n berthnasol i'r seilwaith trafndiaeth. Mae adeiladu ffyrdd newydd yn cyfleu'r neges anghywir a byddai'n cael effaith niweidiol ar y nod o annog pobl i beidio â defnyddio ceir preifat. Byddai'r ffordd newydd yn lleihau'r defnydd o drafndiaeth gyhoeddus ac yn cael effaith niweidiol ar amserau siwrneiau ar gyfer bysiau. Nid yw'r Cynllun yn cynnwys gwelliannau i reilffyrdd i wrthbwysu'r ffaith y byddai'r A40 yn fwy atyniadol o ganlyniad iddo. Awgrymir gwella gwasanaethau rheilffyrdd i Sir Benfro fel dewis amgen yn lle'r Cynllun.

- 6.43 Byddai'r Cynllun yn achosi traffig. Mae honiad yr hyrwyddwr ynglŷn â buddion economaidd i'r ardal ehangach yn sicr o gynhyrchu mwy o draffig, ac mae hyn yn groes i'r honiad na fydd y ffordd arfaethedig yn achosi traffig. Mae'r asesiad WeITAG yn dangos na fyddai'r Cynllun yn cyfrannu at fodloni amcanion 7 ac 8 y Cynllun. Byddai'r Cynllun yn werth gwael am arian, gyda BCR o 0.13.
- 6.44 Byddai'r Cynllun yn arwain at golli coetir hynafol mewn dau leoliad yn ogystal â choetir arall; gan hollti cysylltiadau ag ardaloedd eraill o goetir hynafol.
- 6.45 Byddai'r Cynllun yn achosi i fusnesau lleol golli masnach sy'n mynd heibio. Nid oes angen gwelliannau i'r gorllewin o Landdewi Felffre i Benblewin. Gellid mynd i'r afael â'r problemau yn y pentref trwy ddarparu croesfan i gerddwyr neu bont droed neu danffordd. Awgrymiadau eraill oedd lleihau'r terfyn cyflymder i 30 mya a mesurau gostegu traffig. Mae'r briffordd yn ddigon llydan i ledu'r palmant ar hyd yr A40 a ffyrdd ymyl. Byddai'r mesurau hyn yn dod i fymryn o gost y Cynllun.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- 6.46 Adroddwyd eisoes uchod ar ymateb Llywodraeth Cymru i faterion yn ymwneud â chydawnsedd â'r WFGA, y polisi newid yn yr hinsawdd a chynnydd mewn allyriadau GHG o ganlyniad i'r Cynllun. Ymdriniwyd hefyd â'r asesiad o effeithiau ar goetir a choetir hynafol wrth ymateb i wrthwynebiadau eraill, fel gwrthwynebiad Coed Cadw, er enghraifft.
- 6.47 Mae'n wir bod Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel wedi cael ei gyhoeddi cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi argyfwng hinsawdd. Ni fu cyhoeddiad dilynol yn newid polisi Llywodraeth Cymru ar gynlluniau ffyrdd. Ni fu newid i'r ymrwymiad yn Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol (CD 4.01.33) i gyflawni gwelliannau i'r A40 yng ngorllewin Cymru. Nid yw beirniadaethau o bolisiau Llywodraeth Cymru ar y newid yn yr hinsawdd yn fater i'r Ymchwiliad hwn. Mae gwella'r A40 yng ngorllewin Cymru yn parhau i fod yn rhan o bolisi Llywodraeth Cymru; y Cynllun hwn yw'r dull a ffefrir o wneud y gwelliannau y mae mawr angen amdanynt.
- 6.48 Mae paragraff 4.1.11 Polisi Cynllunio Cymru yn cyfeirio at ddefnyddio hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy mewn perthynas â datblygiad newydd. Mae'r paragraff nesaf yn datgan mai bwriad yr hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy yw atal datblygiadau sy'n dibynnu ar geir mewn lleoliadau anghynaliadwy. Mae'n amlwg bod ei pherthnasedd i'r Cynllun hwn yn gyfyngedig. Mae paragraff 5.3.13 yn datgan y dylai cynlluniau ffordd newydd a gwelliannau i ffyrdd ystyried yr hierarchaeth drafndiaeth, sy'n golygu bod trafndiaeth egniol a chynaliadwy yn cael ei hystyried cyn cerbydau modur preifat. Fodd bynnag, mae rhan nesaf y paragraff hwn yn datgan y bydd hyn yn helpu i leihau hollti cymunedol ac effeithiau niweidiol ar ddiogelwch, cyfleustra ac amwynder llwybrau ar gyfer teithiau ar droed, ar gefn beic ac ar drafndiaeth gyhoeddus. Nid oes amheuaeth y byddai'r Cynllun hwn yn lleihau hollti cymunedol yn sylweddol yn Llanddewi Felffre ac yn darparu cyfle i greu llwybr diogel a deniadol trwy'r pentref a'i ardal amgylchynol ar gyfer cerdded, beicio a mynediad i

wasanaethau bysiau. Nid yw'r Cynllun yn gwrthdaro â pholisïau cynllunio cenedlaethol.

- 6.49 Ystyrir yr effaith ar fusnesau lleol o ganlyniad i golli masnach sy'n mynd heibio isod o dan R0016.
- 6.50 Mae cynnwys rhan orllewinol y Cynllun i Benblewin yn golygu y gellir darparu mwy o gyfleoedd diogel i oddiweddyd, gan felly gyflawni sawl un o amcanion y Cynllun. Byddai hefyd yn helpu i leihau hollti cymunedol trwy ddarparu llwybr diogel ar gyfer cerddwyr, beicwyr a marchogion (WCHRs) i'r gorllewin o'r pentref.
- 6.51 Ymchwiliwyd i'r opsiwn o ddefnyddio llinellau rheilffyrdd presennol mewn astudiaeth a gynhaliwyd yn 2002. Daethpwyd i'r casgliad bod y costau sy'n gysylltiedig â gwell gwasanaethau i deithwyr yn debygol o fod yn fwy na'r refeniw, gan felly olygu bod angen cymhorthdal gweithredu. Cydnabuwyd hefyd na fyddai gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus yn lleihau faint o draffig sy'n defnyddio cefnffordd yr A40. Ystyriwyd opsiwn trafnidiaeth gyhoeddus yn ystod arfarniad cam 1 WeITAG hefyd, a daethpwyd i gasgliadau tebyg.
- 6.52 Ni fyddai'r Cynllun yn cael effaith niweidiol ar drafnidiaeth gyhoeddus oherwydd y byddai'n gwella dibynadwyedd amser siwrneiau trwy'r pentref i fysiau. Byddai hyn yn gwneud iawn am unrhyw amser a gymerir i deithio trwy'r cyffyrdd i mewn i'r pentref ac allan ohono i ymuno â'r ffordd osgoi. Ni fyddai'r arbedion bach o ran amser siwrneiau o ganlyniad i'r Cynllun yn achosi traffig ac ni fyddent yn cael unrhyw effaith arwyddocaol ar newid moddol o geir i drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r Adroddiad Rhagweld Traffig (CD 4.05.03) yn dangos na fyddai effaith ar faint o draffig sy'n teithio i'r dwyrain a'r gorllewin o'r Cynllun, gan awgrymu na fyddai'r Cynllun yn achosi traffig.
- 6.53 Byddai'r dewisiadau amgen a awgrymwyd¹⁴ (croesfan i gerddwyr, mesurau gostegu traffig a lleihau terfynau cyflymder) yn cael effaith niweidiol ar y problemau traffig a amlygwyd trwy'r pentref ar gefnffordd bwysig (rhan o'r rhwydwaith TEN-T Ewropeaidd). Ni fyddent yn cyflawni amcanion y Cynllun ac fe allent achosi problemau eu hunain. Byddai oedi pellach o ganlyniad i leihau cyflymder traffig trwy'r pentref yn gwella'r achos economaidd o blaid y Cynllun. Byddai'r effaith ar lefelau sŵn o draffig yn ddibwys. Byddai tanffordd yn anodd ei hadeiladu heb effeithio ar y ffordd bresennol. Gallai'r palmentydd gael eu lledu pan fydd y Cynllun wedi'i gwblhau gan y byddai 96% yn llai o draffig. Byddai hyn yn rhan o'r cynigion Teithio Llesol a Thynnu Statws Cefnffordd.

Yr achos o blaid Mr Jenkins o Preseli Service Station (R0016)

- 6.54 Mae'r ffordd yn rhedeg yn rhwydd heb unrhyw farwolaethau ac mae'r Cynllun yn wastraff arian trethdalwyr. Byddai'r Cynllun yn dileu masnach sy'n mynd heibio er anfantais i'r busnes, y byddai'n rhaid iddo gau ar ôl 20 mlynedd. Byddai hyn yn arwain at golli cyfleuster, siop a swyddfa bost sy'n bwysig yn lleol.

¹⁴ Nid yw'r rhain yn ddewisiadau amgen yn lle'r Cynllun o fewn yr ystyr a ddiffinnir yn Neddf Priffyrdd 1980

Ymateb Llywodraeth Cymru

- 6.55 Byddai mynediad o'r ardal leol a'r A40 yn cael ei gynnal. Byddai arwyddion ar bob ochr yn cyfeirio traffig sy'n mynd heibio at y cyfleusterau lleol sydd ar gael yn y pentref, gan gynnwys safle'r gwrthwynebydd. Bydd mynediad lleol ar gyfer cerddwyr yn cael ei wella yn rhan o'r Cynllun. Byddai gwelliannau i'r llwybrau troed a llai o draffig yn annog defnydd lleol o'r cyfleuster. Darparwyd arwyddion tebyg yn rhan o Gynllun Robeston Wathen ac mae'r orsaf betrol yn parhau i weithredu 9 mlynedd ar ôl i'r Cynllun agor. Mae yna elfennau o'r busnes nad ydynt yn dibynnu ar fasnach sy'n mynd heibio a/neu sydd â dalgylch lleol.
- 6.56 Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu tystiolaeth glir o'r angen am y Cynllun, a esboniwyd yn yr ymateb i wrthwynebiadau eraill uchod hefyd. Mae'r dystiolaeth ynglŷn â gwerth am arian yn dangos bod buddion y Cynllun yn ei wneud yn werth chweil.
- 6.57 Fel yr adroddwyd yn gynharach, mae'r data ynglŷn â damweiniau a arweiniodd at anafiadau personol wedi cael ei adolygu yn rhan o'r broses o arfarnu'r cynllun. Mae hyn yn dangos bod naw damwain wedi digwydd trwy'r pentref a bod 13 damwain arall wedi digwydd ar weddill y llwybr. Mae'r ystadegau perthnasol yn dangos bod gan ffordd o'r fath a gynigir yn y cynllun hwn hanes diogelwch gwell. Mae'r gyfradd ddamweiniau hyd at 52% yn is. Byddai'r cynllun yn dileu'r rhan fwyaf o draffig o'r pentref, gan felly greu amgylchedd mwy diogel. Byddai dileu traffig trwodd yn rhoi cyfle i ledu llwybrau troed a gwneud cerdded, beicio a marchogaeth yn fwy atyniadol ar gyfer teithiau o fewn y pentref.

Yr achos o blaid Sandra Rowlands (R0019)

- 6.58 Prif bwyntiau'r gwrthwynebiad oedd: effaith lleoliad pwll gwanhau ar llwybrau mynediad amaethyddol i'w thir i'r de o'r A40; aliniad y ffordd arfaethedig i'r pentref a'i heffaith ar danc olew yn Glenfield (y ffermdy); y fynedfa y bwriedir ei darparu i dir i'r gogledd o Gapel Bethel a chynnwys llain 3/6AH yn y CPO; lleiniau tir a allai gael eu gwahanu i'r gogledd o Glenfield; aliniad y llwybr troed cyhoeddus arfaethedig rhif 3/H a 3/I ar y gorchymyn ffyrdd ymyl drafft. Mae rhai o'r materion hyn wedi derbyn sylw trwy ddiwygiadau. Fodd bynnag, mae darparu mynedfa i'r caeau ger Awelfa¹⁵ yn golygu ei defnyddio ar y cyd fel llwybr beiciau/llwybr troed, sy'n codi cwestiynau ynglŷn ag atebolrwydd os bydd damwain.
- 6.59 Mae'r broses o brynu tir yn orfodol ar gyfer y Cynllun wedi achosi llawer o straen i'r teulu yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Bu gwybodaeth newydd a diwygiadau cyson, y bwriadwyd i rai ohonynt fynd i'r afael â'n pryderon. Dylai graddau llawn y colledion a/neu'r newidiadau i eiddo gael eu datgelu o'r dechrau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- 6.60 Byddai mynediad i'r tir i'r de o'r pwll gwanhau yn cael ei ddiogelu trwy addasu llinell y ffens i gynnal defnydd o'r trac mynediad presennol. Byddai mynediad i'r tir i'r gorllewin o'r pwll gwanhau yn cael ei ddiogelu

¹⁵ Anedd ar yr A40 ym mhen dwyreiniol y pentref yw Awelfa

hefyd. Cydnabyddir na fyddai'r fynedfa gerllaw Awelfa yn addas, a chynigir addasiad sy'n dangos mynedfa bresennol i gae sydd i'w chadw a'i dynodi'n fynedfa breifat ar gyfer fferm Glenfield. Pennir aliniad ffordd gyswilt y pentref gan safonau geometreg ar gyfer priffyrdd newydd. Mae safle'r gylchfan wedi cael ei newid ers mis Ebrill 2017. Bydd y lleoliad diwygiedig yn lleihau'r effaith ar yr A40 bresennol, gan ganiatáu i draffig lifo'n rhydd yn ystod y cyfnod adeiladu.

- 6.61 Ni fwriedir effeithio ar y tanciau olew presennol ar hyd ffin ddwyreiniol fferm Glenfield. Mae ffin arfaethedig y CPO wedi cael ei haddasu i ddangos hyn yn glir. Mae'r fynedfa arfaethedig i dir i'r gogledd o Gapel Bethel wedi bod yn destun trafodaethau ac mae'r hyrwyddwr yn fodlon hwyluso gofynion y gwrthwynebydd. Mae angen llain 3/6AH yn y CPO i ledu'r gyffordd rhwng y lôn a lôn arall. Mae'r gwaith lledu hwn yn hanfodol i sicrhau bod cerbydau brys yn gallu cyrraedd yr eiddo ar hyd y lôn honno. Byddai'r hyrwyddwr yn hwyluso mynediad i leiniau tir wedi'u gwahanu i'r gogledd o Glenfield¹⁶. O ran yr hawliau tramwy cyhoeddus arfaethedig: un o amcanion y cynllun yw hyrwyddo teithio llesol, sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth berthnasol. Mae llwybrau troed rhifau 3/H a 3/I yn darparu cysylltiad hollbwysig rhwng y pentref a hawliau tramwy eraill i'r dwyrain. Gall llwybr troed 3/H gael ei gynnwys yn y briffordd er mwyn osgoi rhedeg o fewn tir y gwrthwynebydd. Byddai addasiad yn mynd i'r afael â hyn.
- 6.62 Mae pryderon y gwrthwynebydd ynglŷn â defnyddio mynedfa breifat fel llwybr beiciau wedi derbyn sylw trwy gynnig i gadw'r rhan honno o'r hen A40 fel ffordd ymyl a fabwysiedir gan PCC. Mae'r Cyngor wedi cytuno i fabwysiadu'r rhan oddeutu 100m hon o'r ffordd, felly ni fyddai'r gwrthwynebydd yn atebol pe byddai damwain.
- 6.63 Mae Tîm y Prosiect wedi cyfarfod â'r gwrthwynebydd a'i Hasiant sawl gwaith ac wedi ymweld â'r safle. Darparwyd esboniadau a chynlluniau manwl o effaith y Cynllun ar yr eiddo, mynedfeydd preifat a thir amaeth. Gwnaed cryn ymdrech i ddatrys pryderon y gwrthwynebydd. Cynigiwyd addasiadau i fynd i'r afael â phob un o'r 7 mater a godwyd. Mae'r addasiadau hyn er ei budd hi a dylid eu cynnwys yn y Gorchmynion arfaethedig, os cânt eu gwneud.

Yr achos o blaid John a Linda Smith (R0028)

- 6.64 Roedd gwrthwynebiad gwreiddiol y gwrthwynebwr yn ymwneud ag effaith y Cynllun ar eu mynedfa, eu cyflenwad dŵr a'u cysylltiad band eang. Datryswyd y materion hyn, a thynnwyd y gwrthwynebiad gwreiddiol yn ôl.
- 6.65 Cyflwynwyd llythyr arall o wrthwynebiad a oedd yn codi'r pwyntiau canlynol: Nid yw'r cynllun yn cynrychioli gwerth am arian o ystyried y pwysau sylweddol am adnoddau yn y sector cyhoeddus. Byddai'r cynllun yn achosi i'r orsaf betrol a'r siop golli masnach sylweddol, a gallai hyn ei gorfodi i gau a'n hamddifadu o amwynder lleol a werthfawrogir yn fawr.

¹⁶ Byddai hyn wedi derbyn sylw gan addasiad 9. Fodd bynnag, gan ei fod yn gofyn am dir ychwanegol ac nid yw'r tîrfeidiannwr wedi rhoi caniatâd, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau na ddylai gael ei gynnwys. Mae'r gwaith er budd y gwrthwynebydd a gellir ei gynnwys fel gwaith hwylustod yn ddiweddarach.

- 6.66 Mae arwyddion sy'n peri gofid bod yr hinsawdd yn newid mewn gwirionedd. Dylai unrhyw benderfyniad roi pwys sylweddol i'r ffaith bod y Cynllun yn brosiect sy'n gofyn am lawer o adnoddau ac ynni, ac y bydd yn arwain at gollu hyd yn oed mwy o dir amaeth a lle agored naturiol gwerthfawr yng Nghymru. Mae'n amlwg nad yw "busnes fel arfer" yn ymagwedd synhwyrol at yr egwyddor ragofalus.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- 6.67 Mae'r achos ynglŷn â gwerth am arian wedi derbyn sylw uchod. Er bod y BCR yn isel, nid yw'r cyfrifiad hwn yn cyfleu holl fuddion disgwylidig y Cynllun, a amlinellir yn nhystiolaeth Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys lleihau hollti cymunedol yn y pentref a gwell cyfleoedd ar gyfer WCHR.
- 6.68 Mae'r effaith ar yr orsaf betrol/siop leol a'r effaith ar y newid yn yr hinsawdd wedi derbyn sylw uchod wrth ymateb i wrthwynebwyr eraill.
- 6.69 Nid oes unrhyw ran o'r tir amaeth a gollir yn dir o'r ansawdd gorau a mwyaf amlbwrpas. Nid oes unrhyw wrthwynebiadau gan fusnesau amaethyddol. Nid oes unrhyw fan agored dynodedig a fyddai'n cael ei gollu.

Yr achos o blaid James Cullingford (R0058)

- 6.70 Mae'r Cynllun yn gynnig gwastraffus, cibddall, na fydd yn datrys y problemau canfyddedig ac a fydd yn achosi niwed parhaol. Mae angen mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, osgoi niwed i'r amgylchedd a gwarchod adnoddau naturiol. Ni fyddai niwed amgylcheddol o'r math hwn yn cael ei ganiatáu mewn ardaloedd tebyg sy'n Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol neu'n Barciau Cenedlaethol. Yn hytrach, dylai arian gael ei wario ar gynlluniau trafndiaeth i fynd i'r afael â thagfeydd ar yr M4. Dylid anelu at leihau traffig a gwella gwasanaethau rheilffyrdd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- 6.71 Mae'r angen am y Cynllun o ran rôl yr A40 fel llwybr strategol a rhan o'r rhwydwaith TEN-T Ewropeidd a'r problemau traffig a brofir eisoes wedi cael eu hamlinellu. Mae'r problemau a brofir gan breswylwyr lleol yn ychwanegu pwys sylweddol at y dadleuon hyn. Mae'r Cynllun yn rhan o raglen Llywodraeth Cymru o welliannau i'r A40.
- 6.72 Mae effaith y Cynllun ar y newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd wedi cael ei hasesu uchod. Ni fyddai'r effaith ar ffermydd a cholli tir amaeth yn arwyddocaol. Byddai effaith dirweddol a gweledol y cynnig yn cael ei lleihau ymhen amser yn sgil y mesurau lliniarol a phlannu helaeth a gynnigir. Nid yw'r Cynllun o fewn Parc Cenedlaethol nac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, ond, sut bynnag, mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i ffyrdd o fewn ardaloedd Parc Cenedlaethol e.e. yr A470 yn Eryri. Byddai'r Cynllun yn cael ei ariannu'n rhannol gan gyllid Ewropeidd, y gellir ei wario mewn ardaloedd dynodedig yn unig, fel hon. Ni ellir gwario'r arian ar goridor yr M4. Ni fyddai'r problemau a amlygwyd ar yr A40 yn cael eu datrys trwy welliannau i'r rhwydwaith rheilffyrdd.

Yr achos o blaid Moira Rowlands (R0060)

- 6.73 Mae'r gwrthwynebiad hwn yn gwneud pwyntiau tebyg i'r gwrthwynebydd blaenorol (Mr Cullingford), nad ydynt yn cael eu hailadrodd. Mae'r cyfiawnhad i'r Cynllun yn wan, yn enwedig ar sail diogelwch. Honnwyd hyn wrth gefnogi gwelliannau i'r A477. Canlyniad hynny yw ffordd beryglus, gyda phwysau iddi ddod yn ffordd ddeuol. Nid yw unrhyw ffordd yn ddiogel, ac nid ydynt yn cynorthwyo â thwristiaeth.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- 6.74 Un o amcanion y Cynllun yw lleihau nifer a difrifoldeb damweiniau (gwrthdrawiadau). Mae'r dystiolaeth yn dangos bod gan ffyrdd WS2+1 rhwng Hwlffordd a Sanclêr gyfradd ddamweiniau 36% yn is na ffyrdd unffrwd sydd â therfynau cyflymder tebyg, a 52% yn is na'r rhai hynny sydd â therfyn cyflymder 30 neu 40 mya.

Yr achos o blaid Sally Amore (R0069)

- 6.75 Bydd y Cynllun yn achosi i'r orsaf betrol fynd i'r wal a bydd y pentref yn colli ei siop, ei swyddfa bost a'i orsaf danwydd. Byddai'r Cynllun yn cael effaith niweidiol ar fywyd gwylt, bioamrywiaeth a channoedd o erwau o'r tir amaeth gorau. Bydd cynnydd mewn lefelau sŵn. Mae gwelliannau pwysicach o lawer y mae angen eu gwneud i'r system ffyrdd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

- 6.76 Mae'r effaith ar yr orsaf betrol leol, bywyd gwylt a ffermydd wedi derbyn sylw uchod. Mae'r ES wedi asesu effeithiau sŵn y Cynllun, fel yr adroddwyd uchod. Mae eiddo'r gwrthwynebydd y tu allan i ardal yr astudiaeth ac ni ystyriwyd ef yn unigol. Mae cyfrifiad o sŵn traffig wedi cael ei baratoi ar gyfer yr eiddo sy'n dangos y byddai lefelau sŵn yn gostwng ychydig yn ystod y flwyddyn asesu (2036) gyda'r Cynllun ar waith.

7 CASGLIADAU

7.1 Ar ôl ystyried yr uchod, rwyf wedi dod i'r casgliadau canlynol.

Cyflwyniad i'r Casgliadau

7.2 Er mwyn argymhell bod y Cynllun yn symud ymlaen, mae angen dangos, at ei gilydd, ac o ystyried polisiâu cynllunio lleol a chenedlaethol, gan gynnwys gofynion amaethyddiaeth ac effeithiau niweidiol posibl, ei fod yn hwylus ac er budd y cyhoedd.

7.3 Os wyf am argymhell bod y Gorchymyn Llinell a Thynnu Statws Cefnffordd yn cael ei wneud, mae angen i mi hefyd fod yn fodlon â chydawnsedd y Gorchymyn hwn â manylion a chynigion y Cynllun ar gyfer tynnu statws cefnffordd a Theithio Llesol mewn perthynas â'r gefnffordd bresennol trwy Landdewi Felffre i Benblewin.

7.4 O ran tiroedd sydd i'w caffael o dan y Gorchymyn Prynu Gorfodol, ac o ystyried cyngor a meini prawf statudol, mae'n rhaid dangos bod angen cymhellol i brynu'n orfodol er budd y cyhoedd sy'n cyfiawnhau ymyrryd â hawliau dynol y rhai hynny sydd â buddiant yn y tir, bod gan Lywodraeth Cymru syniad clir o sut mae'n bwriadu defnyddio'r tir y mae'n ceisio ei gaffael, y byddai'r adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r cynlluniau hyn ar gael o fewn graddfa amser resymol, a bod y Cynllun yn annhebygol o gael ei atal gan unrhyw rwystr rhag gweithredu.

7.5 O ran y Gorchymyn Ffyrdd Ymyl, mae'n rhaid dangos bod llwybrau amgen yn lle priffyrdd y bwriedir eu cau yn rhesymol gyfleus a, lle y bwriedir cau mynedfeydd preifat (PMA), bod mynedfa arall resymol gyfleus ar gael, neu y byddai'n cael ei darparu gan y Cynllun, pe byddai angen.

Cefnogaeth a Gwrthwynebiadau

7.6 Mae PCC yn cefnogi'r Cynllun. Mae'r Cyngor hefyd wedi bod yn gefnogol iawn o'r cynigion tynnu statws cefnffordd ac wedi mynegi parodrwydd clir i gynorthwyo â mesurau teithio llesol a'r addasiadau arfaethedig fel y bo'r angen. Mynegodd y Cyngor Cymuned Lleol gefnogaeth glir iawn i'r Cynllun a mynychodd ei Gadeirydd yr Ymchwiliad i roi tystiolaeth. Mae Bwrdd Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau a'r Gwasanaeth Tân Lleol yn cefnogi'r Cynllun hefyd. Mae'r Bwrdd yn amlygu buddion economaidd gwelliannau ffyrdd i'r ardal.

7.7 Fe'm hysbysir bod 61 mynegiant unigryw o gefnogaeth yn ysgrifenedig, a 5 cynrychiolaeth nad ydynt yn gwrthwynebu'r Cynllun. Cyflwynwyd deiseb gefnogol gyda 167 o enwau 115 o unigolion gwahanol a ffeil yn cynnwys erthyglau o'r wasg, adroddiad a dogfennau eraill.

7.8 Roedd 36 o wrthwynebiadau i'r Cynllun, yr oedd 20 ohonynt yn wrthwynebwyr statudol. Tynnwyd 25 yn ôl erbyn diwedd yr Ymchwiliad. Mae tri o'r gwrthwynebwyr hyn wedi mynegi eu cefnogaeth bellach. Mae hyn yn gadael 11 o wrthwynebiadau sy'n weddill – 3 statudol (R0019, 24 a 28) a'r gweddill yn anstatudol.

7.9 Dadleuodd sawl gwrthwynebydd y dylai'r cyllid ar gyfer y Cynllun gael ei ddefnyddio neu ei wario ar rywbeth arall. Gwnaed y pwyntiau hyn er

gwaethaf cyngor a roddwyd yn y cyfarfod cyn-ymchwiliad nad yw dosbarthiad arian y Llywodraeth yn fater i unrhyw Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus. Nodaf hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi dweud na allai cyllid Ewropeaidd gael ei wario ar goridor yr M4, fel yr awgrymodd rai gwrthwynebwyr. Tynnaf sylw at y pryderon hyn yma, ond ni soniaf ymhellach am ddsbarthiad arian y Llywodraeth yn yr adroddiad hwn.

- 7.10 Mae'r gwrthwynebwyr yn erbyn y Cynllun oherwydd eu bod o'r farn, o ystyried yr argyfwng hinsawdd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, na ddylai rhagor o gynlluniau ffyrdd gael eu hadeiladu, neu y dylai polisiau trafndiaeth genedlaethol eraill nad ydynt wedi'u seilio ar ffyrdd gael eu datblygu yn lle hynny. Er y tynnir sylw at y gwrthwynebiadau, mae'n amhriodol gwneud sylwadau pellach arnynt gan nad ydynt yn faterion sydd o fewn cylch gorchwyl Ymchwiliad Lleol a, hyd yn oed os nad oedd hynny'n wir, ni chyflwynodd yr un o'r gwrthwynebwyr unrhyw dystiolaeth wrthrychol gymhellol i ddangos y gallai'r problemau presennol, heb sôn am rai yn y dyfodol, gael eu trin yn foddhaol trwy fodd arall heblaw am y Cynllun.
- 7.11 Cyfeiriodd gwrthwynebiadau hefyd at amryw ffyrdd o wella trafndiaeth gyhoeddus fel dewis amgen yn lle'r Cynllun, ond, unwaith eto, ni chynhyrchodd yr un ohonynt unrhyw dystiolaeth gymhellol i ddangos y gallai'r problemau presennol gael eu trin yn foddhaol trwy'r dulliau eraill hyn. Cynhyrchodd Llywodraeth Cymru dystiolaeth i ddangos bod yr holl ddewisiadau amgen eraill wedi cael eu hystyried yn gynnar yn y broses ac yn ddiweddarach yn rhan o broses WelTAG 2017. Yn hyn o beth, rwyf yn fodlon bod y dystiolaeth yn dangos yn glir na allai'r problemau a amlygwyd gael eu trin gan welliannau i drafndiaeth gyhoeddus.
- 7.12 Esboniodd tystiolaeth Llywodraeth Cymru yn argyhoeddiadol pam na fyddai adeiladu'r Cynllun yn achosi llawer o draffig neu ddim traffig o gwbl. Nid oedd honiadau'r gwrthwynebwyr fel arall wedi'u hategu gan unrhyw ddadansoddiad. Roeddent yn dibynnu ar astudiaethau cyffredinol wedi'u seilio ar senarios gwahanol iawn mewn mannau eraill. Roedd tystiolaeth Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar ddata traffig gwirioneddol a rhagamcanol ar gyfer ardal y Cynllun.

Yr Achos dros Adeiladu'r Cynllun

- 7.13 Mae'r Cynllun ar raddfa gymharol fach ac yn cynnig arbedion amser cymedrol. Mae BCR y Cynllun, sef 0.13, yn isel iawn ac mae'n cynrychioli gwerth gwael am arian ar yr olwg gyntaf. Fodd bynnag, nid dyma'r darlun llawn. Mae sawl ffactor arall a allai ac a ddylai gael ei gynnwys wrth asesu'r achos o blaid y Cynllun, sef polisi Llywodraeth Cymru ynglŷn â gwelliannau trafndiaeth a'r cyfraniad at fodloni amcanion polisi ac amcanion y Cynllun. Ystyriaf fuddion ac effeithiau niweidiol y Cynllun (a'r gwrthwynebiadau a godwyd) cyn dod i'm casgliadau cyffredinol.
- 7.14 Mae'r Cynllun yn rhan o raglen o welliannau i'r A40 yng ngorllewin Cymru (rhan o'r rhwydwaith TEN-T). Bu'n rhan o bolisiau (ynghyd â ffordd osgoi gyfagos Robeston Wathen sydd wedi'i chwblhau bellach) a rhaglenni cenedlaethol ers blynyddoedd lawer. Dylai gael ei ystyried yn y cyd-destun hwnnw.

- 7.15 Mae nifer o broblemau wedi'u hamlygu ar y rhan hon o'r rhwydwaith ac mae amcanion dynodedig y Cynllun yn ceisio mynd i'r afael â'r problemau hynny, neu helpu i fynd i'r afael â nhw. Rhoddaf bwys sylweddol i dystiolaeth nifer fawr o breswylwyr lleol ynglŷn â'r effeithiau niweidiol a achosir gan draffig sy'n teithio trwy'r pentref (gan gynnwys HGVs sy'n teithio o'r porthladd fferïau). Mae hyn wedi arwain at broblemau yn ymwneud â hollti cymunedol, sŵn ac aflonyddu a chyfleusterau gwael ar gyfer cerdded a beicio. Byddai'r Cynllun yn mynd i'r afael â'r materion hynny yn uniongyrchol. Byddai'r ffordd osgoi arfaethedig o fudd sylweddol i amwynder llawer o breswylwyr yn sgil llai o sŵn, sef y prif nod mewn Ardal Flaenoriaeth ddynodedig Cynllun Gweithredu Sŵn. Byddai'r Cynllun yn gwella ansawdd aer yn y pentref.
- 7.16 Byddai'r Cynllun yn helpu i wella'r rhwydwaith strategol yng ngorllewin Cymru, gan ysgogi'r economi a mynd i'r afael â chanfyddiadau ynglŷn â phellenigrwydd. Am y rheswm hwn, fe'i cefnogir gan Fwrdd Cyngori Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau. Byddai'r Cynllun yn helpu i fynd i'r afael â'r problemau traffig a amlygwyd trwy wella dibynadwyedd amser siwrneiau; darparu cyfleoedd i oddiweddyd er mwyn osgoi platwnio a rhwystredigaeth ymhlith gyrwyr; ac yn mynd i'r afael â phroblemau traffig tymhorol.
- 7.17 Rwyf hefyd yn ymwybodol bod newidiadau cymharol fach i'r Cynllun neu'r terfynau cyflymder trwy'r pentref yn cael effaith fawr ar y BCR. Dangoswyd hyn gan y profion sensitifrwydd yn nhystiolaeth Llywodraeth Cymru. Roedd cynnwys cylchfan ym mhen dwyreiniol y Cynllun yn darparu buddion sylweddol o ran mynediad a diogelwch ond yn lleihau'r BCR o 0.4. Dangosodd y dystiolaeth pe byddai'r terfynau cyflymder trwy'r pentref yn cael eu lleihau i 30mya, y byddai'r BCR yn cynyddu i 0.6.
- 7.18 Mae'r Cynllun wedi cael ei ddylunio yn unol â'r safonau a osodir yn y DMRB. Mae angen 3 gwyriad oddi wrth y safonau, sydd wedi cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Mae manylion y gwaith adeiladu'n dangos y byddai cydbwysedd o ran cloddwaith, y byddai arwyneb ffordd tawel yn cael ei ddefnyddio, y byddai trefniadau draenio priodol sy'n osgoi llygredd yn cael eu darparu a bod y strwythurau wedi cael eu dylunio yn unol â safonau ac i fodloni gofynion lliniaru amgylcheddol. Rwyf yn fodlon bod y materion adeiladu wedi derbyn sylw yn yr adroddiadau adeiladwyedd. Mae mwyafrif y cynnig oddi ar linell bresennol y ffordd a cheir cryn brofiad o adeiladu ffyrdd yn yr ardal hon. Mae hyn yn atgyfnerthu fy nghasgliadau ynglŷn ag adeiladwyedd a chywirdeb amcangyfrifon costau. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod cyllid ar gyfer y Cynllun wedi cael ei ystyried yn briodol ac os bydd y Gorchmynion yn cael eu gwneud ei bod yn debygol iawn y bydd y Cynllun yn cael ei weithredu.
- 7.19 Rhoddwyd ystyriaeth i ofynion PPW. Mae tystiolaeth Llywodraeth Cymru yn fy narbwyllo bod cydbwysedd priodol wedi'i daro rhwng amcanion polisi economaidd sy'n ceisio darparu gwell cysylltiadau trafniadaeth ar y ffyrdd, a'r rhai hynny sy'n ymwneud ag amcanion amgylcheddol fel lleihau allyriadau GHG, a gwarchod cadwraeth natur, asedau treftadaeth a'r dirwedd. Mae'n rhaid i'r cynnydd mewn allyriadau gael ei bwysu a'i fesur

yng nghyd-destun camau gweithredu Llywodraeth Cymru sy'n ceisio lleihau allyriadau yng Nghymru a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ar draws ei holl feysydd cyfrifoldeb, gan gynnwys trafnidiaeth. Byddai'r Cynllun yn gwella ansawdd bywyd preswylwyr yn Llanddewi Felffre. Mae'r achos a gyflwynwyd o blaid y Cynllun yn cydnabod y byddai effeithiau gweddilliol niweidiol ar y dirwedd a choetir hynafol ac o ran allyriadau GHG. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod effeithiau amgylcheddol y Cynllun wedi cael eu hystyried yn llawn a'u gwerthuso'n briodol drwy gydol y broses ddylunio. Aseswyd effeithiau amgylcheddol yn gynhwysfawr, gan ddefnyddio methodoleg gydnabyddedig; lle y byddai effeithiau niweidiol a allai fod yn arwyddocaol, cynigir camau i leihau a lliniaru'r effeithiau hynny, lle y bo'n ymarferol. Mae pryderon CNC ynglŷn ag effeithiolrwydd y mesurau lliniaru arfaethedig wedi derbyn sylw'n gynhwysfawr.

- 7.20 Paratowyd y canllawiau yn WeITAG 2017 a PPW yn unol â'r WFGA, sy'n mynnu bod camau gweithredu cyrff cyhoeddus yn cyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac ystyried y pum ffordd o weithio. Mae tystiolaeth Llywodraeth Cymru yn dangos sut mae'r Cynllun yn cyfrannu at y nodau llesiant a sut y'i datblygwyd yn unol â'r pum ffordd o weithio. Mae'r Adroddiad Datblygu Cynaliadwy yn ystyried y Cynllun yn erbyn ymrwymïadau Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy yng nghyd-destun yr WFGA. Deuaf i'r casgliad y dangoswyd cydymffurfiaeth â gofynion y Ddeddf yn briodol.
- 7.21 Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn mynnu bod Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn gwella cyfleusterau a llwybrau ar gyfer cerddwyr a beicwyr yn barhaus. Mae hefyd yn briodol ystyried y buddion hamdden ac iechyd a ddaw yn sgil cerdded a beicio. Rwyf wedi pwysu a mesur y cynigion i gynnal a gwella'r rhwydwaith lleol o lwybrau troed a llwybrau ceffylau. Credaf y byddai'r Cynigion Teithio Llesol a Thynnu Statws Cefnffordd ar gyfer yr A40 bresennol yn gwella'r cyfleusterau ar gyfer cerdded a beicio yn sylweddol yn Llanddewi Felffre. Byddai'r llwybr ceffylau newydd arfaethedig i'r gorllewin a'r tanffyrdd arfaethedig yn gwella cysylltedd y rhwydwaith lleol ar gyfer WCHRs. Pwysleisiaf y dylai'r mesurau hyn gael eu gweithredu yn rhan o'r Cynllun cyffredinol. Maent yn ofynnol i fodloni amcanion y Cynllun a byddent yn cynyddu buddion y Cynllun i'r eithaf. Rwyf yn sicr y byddent yn cael eu gweithredu oherwydd y ffaith eu bod wedi'u cynnwys yn yr hysbysiad o gontract (ID18).
- 7.22 Byddai oddeutu 27 ha o dir amaeth yn cael ei golli i'r Cynllun. Mae'r holl dir yn Radd 3b neu 4, ac felly ni fyddai unrhyw dir amaeth gorau a mwyaf amlbwrpas (Graddau 1, 2 neu 3a) yn cael ei golli. Mae'r effaith ar fusnesau fferm wedi cael ei hasesu'n gynhwysfawr. Er y byddai maint yr effaith yn arwyddocaol o ran cynnal yr unedau hyn o ddydd i ddydd, ni fyddai effaith ar eu hyfywedd. Mae'r cynllun wedi cael ei ddylunio i leihau'r effaith ar fusnesau amaethyddol i'r eithaf a sicrhau y byddai mynediad i ffermydd a chaeau yn cael ei gynnal. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda thirfeddianwyr fel bod mwyafrif y gwrthwynebiadau ar y seiliau hyn wedi cael eu datrys. Yn yr holl amgylchiadau hyn, deuaf i'r casgliad na fyddai effaith y Cynllun ar amaethyddiaeth yn arwyddocaol.

- 7.23 Daeth yr ES i'r casgliad, gyda'r amryw fesurau lliniaru a digolledu a gynigiwyd, y byddai effeithiau posibl y Cynllun ar gadwraeth natur yn cael eu lleihau i lefelau na fyddent yn arwyddocaol. Daeth yr SIAA i'r casgliad, gyda mesurau lliniaru priodol fel y'u hamlygwyd a'u disgrifiwyd, na fyddai unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd y safleoedd Ewropeaidd. Roedd CNC wedi mynegi rhai pryderon ynglŷn â'r mesurau lliniaru arfaethedig. Mae cynllun lliniaru rhywogaethau a warchodir wedi cael ei baratoi ers hynny a'i drafod gyda CNC, sydd wedi cadarnhau bod y mesurau lliniaru arfaethedig yn foddhaol yn amodol ar ychwanegu sawl ymrwymiad amgylcheddol at y REAC. Mae hyn yn mynd i'r afael â mesurau lliniaru a gwarchod priodol ar gyfer yr effaith ar rywogaethau ystlumod, dyfrgwn, pathewod a moch daear. Mae CNC hefyd yn fodlon na fyddai'r cynigion yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safleoedd Ewropeaidd a ystyrir yn yr SIAA. Felly, deufaf i'r casgliad bod yr effaith ar ecoleg wedi derbyn sylw'n ddigonol yn y Cynllun a'r mesurau lliniaru arfaethedig.
- 7.24 Mae effeithiau'r Cynllun o ran sŵn a dirgryniad ac ansawdd aer wedi cael eu hasesu'n gynhwysfawr, gan ddefnyddio methodolegau a gymeradwyir yn y DMRB, ar gyfer y camau adeiladu a gweithredu. Dangosodd yr ES na fyddai unrhyw effeithiau arwyddocaol yn codi yn sgil sŵn neu ddirgryniad adeiladu (trwy sicrhau bod y dulliau gweithio ymarferol gorau yn cael eu dilyn, a bod mesurau lliniaru priodol yn cael eu cynnwys yn y Cynllun). Byddai cymuned Llanddewi Felffre yn gweld effeithiau buddiol parhaol arwyddocaol yn sgil llai o sŵn traffig o ganlyniad i'r cynllun. Er y byddai lefelau sŵn yn cynyddu wrth nifer fach o adeiladau, aseswyd na fyddai'r sŵn gweithredol yn achosi effaith arwyddocaol pan ystyrir y ffactorau eraill a amlinellir yn yr ES. Yn ystod y cam adeiladu, byddai'r CEMP yn mynnu bod y contractwr yn defnyddio arfer gorau mewn sawl ffordd i leihau effeithiau niweidiol ar breswylwyr cyfagos gymaint â phosibl. Byddai gofynion arfer gorau yn cynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â sŵn a dirgryniad, llwch a mygdarthau, a symudiadau cerbydau a pheiriannau. O ran ansawdd aer, ni fyddai'r amcanion NO₂ na PM₁₀ yn cael eu torri. Mae canlyniadau'r asesiad yn dangos y byddai'r Cynllun yn gwella ansawdd aer i fwyafrif y preswylwyr yn yr ardal.
- 7.25 Mae effeithiau tirweddol a gweledol y Cynllun wedi cael eu hasesu yn unol â'r fethodoleg asesu ragnodedig. Mae effeithiau mawr ar y dirwedd yn gymharol leol a byddent yn digwydd mewn 2 o'r 16 LCA yn ardal yr astudiaeth. Rwyf yn fodlon bod yr ymagwedd ddylunio'n ceisio ymdrin â'r effeithiau hyn trwy dechnegau peirianegol priodol, tirweddau a phlannu llystyfiant. Byddai hyn yn lleihau'r effaith ar yr LCAs dan sylw i lefel gymedrol erbyn yr haf yn y flwyddyn ddylunio. Byddai effeithiau posibl goleuadau newydd yn cael eu lleihau i'r eithaf trwy gyfyngu ar oleuadau i'r manau lle y maent yn hanfodol i ddiogelwch a thrwy ddefnyddio goleuadau sy'n lleihau faint o olau a ollyngir i'r eithaf. Mae DCFW wedi bod yn ymwneud â'r Cynllun ers cam cynnar. Mae'r dystiolaeth ynglŷn â chynaliadwyedd ac allyriadau GHG wedi mynd i'r afael â'r materion a godwyd gan DCFW. Nodaf eu sylwadau y dylai'r Cynllun fod yn ddyluniad enghreifftiol ac y bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu gofynion dylunio ychwanegol ar gyfer y Cynllun a'r cynigion Teithio Llesol a thynnu statws cefnffordd cysylltiedig a'u cynnwys mewn dogfennau contract. Mae DCFW

yn mynd i drafferth i bwysleisio pwysigrwydd y cynigion Teithio Llesol a thynnu statws cefnffordd.

- 7.26 At ei gilydd, byddai'r effeithiau ar dreftadaeth ddiwylliannol wedi'u cyfyngu i weddillion archaeolegol claddedig posibl. Mae rhaglen o werthuso a lliniaru archaeolegol wedi'i hamlinellu yn yr ES. Byddai effeithiau niweidiol dibwys ar ddwy gofeb gofrestredig. Byddai effaith fuddiol ar ddau adeilad rhestredig a chofeb ryfel y pentref o ganlyniad i leihau traffig ar yr A40 bresennol a thrwy sgrinio. Byddai effaith ddibwys ar chwe adeilad rhestredig arall. Felly, mae'r Cynllun yn bodloni gofynion deddfwriaethol a pholisi mewn perthynas â'r amgylchedd hanesyddol.
- 7.27 Mae'r ES yn cynnwys Prif Gynlluniau Amgylcheddol¹⁷, sy'n dangos y cynigion tirweddu a lliniaru ar gyfer y Cynllun, a luniwyd trwy'r ES ac ymgysylltu â chyrrff perthnasol. Mae ymrwymadau a wnaed yn yr ES, yr SIAA a thrwy ymgynghori â thirfeddianwyr, preswylwyr ac ymgynghoreion wedi cael eu cyfleu yn y REAC. Byddai'r rhain yn cael eu cario drwodd i gamau dylunio manwl, adeiladu a chynnal a chadw arferol y Cynllun. Byddai ymrwymadau yn ymwneud ag adeiladu'r Cynllun yn cael eu gweithredu trwy'r CEMP. Byddai'r CEMP yn parhau i gael ei ddatblygu wrth i ddyluniad manwl y cynllun symud ymlaen. Byddai contractwr y Cynllun wedi'i gyfrwymo trwy gontract i gydymffurfio â darpariaethau'r CEMP a'r REAC; byddai gwaith monitro cydymffurfiaeth annibynnol yn cael ei wneud gan bersonél a chanddynt gymwysterau priodol.

Ystyried y Gwrthwynebiadau

Cyfeillion y Ddaear Sir Benfro (R0040)

- 7.28 Nid yw'r cyhoeddiad ynglŷn ag argyfwng hinsawdd wedi newid y datganiadau polisi sy'n cefnogi'r Cynllun, fel yr adroddwyd yn nhystiolaeth Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio at 100 o bolisiau a chynigion a grybwyllir yn Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel a mesurau eraill y mae'n eu cymryd neu y bydd yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn ychwanegol at y mesurau sydd eisoes ar waith o ganlyniad i gamau gweithredu blaenorol a chefnidir yr WFGA, sy'n rhoi cynaliadwyedd wrth wraidd y broses benderfynu.
- 7.29 Credaf ei bod yn amlwg nad yw Llywodraeth Cymru wedi cynnig gwahardd adeiladu ffyrdd newydd yn llwyr o ganlyniad i gyhoeddi'r argyfwng hinsawdd. Mae'r datganiadau gweinidogol a gynhwysir yn ID10 yn cadarnhau'r ffaith hon. Cytunaf â Llywodraeth Cymru nad yw penderfyniad Heathrow yn berthnasol i'r Ymchwiliad hwn am y rhesymau a roddwyd, yn bennaf oherwydd ei fod yn ymwneud yn benodol â Datganiad Polisi Cenedlaethol Lloegr.
- 7.30 Byddai'r Cynllun yn arwain at fwy o allyriadau GHG ac ni fyddai'n annog newid moddol o ran trafndiaeth yn uniongyrchol. Felly, ni fyddai'n cyfrannu at un o'r saith nod llesiant o dan yr WFGA (Nod 7). Fodd bynnag, mae'n rhaid rhoi ystyriaeth hefyd i gyfraniad y Cynllun at nodau llesiant eraill a dod i gasgliad cytbwys. Nid yw'r WFGA yn mynnu bod pob cam gweithredu'n cyfrannu at bob un o'r nodau'n gyfartal. Cytunaf mai

¹⁷ Mae ID 13 yn diweddarau'r Cynlluniau i adlewyrchu newidiadau i'r Cynllun ers yr ES

camau gweithredu Llywodraeth Cymru gyda'i gilydd y mae'n rhaid eu hystyried, ac nid pob cam gweithredu unigol. Mae tystiolaeth Llywodraeth Cymru yn ystyried cydymffurfiaeth â'r WFGA yn y modd hwn, ac rwyf yn cytuno â'r casgliadau y daethpwyd iddynt (fel y nodwyd uchod).

- 7.31 Mae'n ymddangos i mi fod yr hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy yn PPW yn fwy cysylltiedig â chynigion ar gyfer datblygiadau newydd fel tai a chyflogaeth. Mae paragraff 5.3.13 o fewn rhan o PPW sy'n ymdrin â'r rhwydwaith ffyrdd strategol, sy'n pwysleisio pwysigrwydd y rhwydwaith cefnffyrdd a chynllunio'n briodol ar gyfer seilwaith ffyrdd. Mae'r broses WeITAG wedi cael ei diwygio i gyd-fynd â gofynion yr WFGA ac ystyried opsiynau trafndiaeth lesol a chynaliadwy o'r dechrau. Mae hyn yn sicrhau bod gofynion PPW 5.3.13 yn cael eu bodloni. Nodaf hefyd, yn yr achos hwn, y byddai'r Cynllun yn lleihau hollti cymunedol ac yn gwella diogelwch, cyfleustra ac amwynder y pentref ac ardaloedd cyffiniol yn sylweddol o ran teithiau ar droed, ar gefn beic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus. Byddai hyn yn cael ei gyflawni trwy ddileu 96% o'r traffig o'r pentref a'r cyfleusterau gwell a gynigir yn rhan o'r trefniadau tynnu statws cefnffyrdd a Theithio Llesol.
- 7.32 Mae'r rhan orllewinol o'r Cynllun yn werthfawr gan ei bod yn darparu rhagor o lonydd goddiweddyd, gan gyfrannu at amcanion y Cynllun. Byddai gwell cysylltiadau WCHR hefyd trwy'r ffordd y tynnwyd ei statws cefnffordd a llwybr ceffylau newydd, tanffordd eang a chysylltiadau llwybr troed.
- 7.33 Mae effeithiau amgylcheddol ac ecoleg wedi cael eu hystyried yn yr ES, y SIAA a'r Cynllun Lliniaru Rhywogaethau a Warchodir. Mae CNC yn cytuno â'r casgliadau y daethpwyd iddynt ac nid oes ganddo wrthwynebiad i'r Cynllun bellach. Rwyf wedi dod i'r casgliad bod yr effaith ar ecoleg wedi derbyn sylw'n ddigonol yn yr ES a'r SIAA ar gyfer y Cynllun a bod y mesurau lliniaru arfaethedig yn foddhaol.

Mr a Mrs Peett (R0024)

- 7.34 Mae'r gwrthwynebiadau hwyr i egwyddor y Cynllun yn ailadrodd llawer o'r materion a ystyriwyd uchod yn rhan o'm casgliadau ynglŷn â gwrthwynebiadau Cyfeillion y Ddaear Sir Benfro. Ni ailadroddir y casgliadau hyn yma. Rwyf wedi ystyried y dystiolaeth ynglŷn â'r effaith ar ffermydd uchod ac wedi dod i'r casgliad na fyddai effaith y Cynllun ar amaethyddiaeth yn arwyddocaol. Mae'r data am ddamweiniau yn dangos bod y ffordd gerbydau WS2+1 arfaethedig yn fwy diogel na'r ffordd unffrwd y mae'n ei disodli. Mae data llif traffig ar yr A40 ers dileu tollau Pont Cleddau yn dangos bod hyn wedi cael effaith ddibwys ar swm y traffig¹⁸. Darparwyd esboniad o'r amryw ffigurau costau a ddyfynnwyd yn ID19. Mae'r ffigur presennol wedi'i seilio ar dendrau a gyflwynwyd yn y gorffennol a'r lefel sylweddol uwch o fanylion dylunio sydd ar gael bellach. Mae ID19 hefyd yn amlinellu sut y bydd yr arolygon ychwanegol a gynhaliwyd a'r strategaethau caffael a fyddai'n cael eu mabwysiadu, ynghyd â threfniadau cytundebol, yn cyfyngu ar orwario costau. Mae'r mesurau hyn, ynghyd â'r ystyriaethau risg a thuedd optimistaeth, yn fy

¹⁸ Gweler ID20

argyhoeddi bod yr amcangyfrifon costau mor gywir â phosibl a bod rheolaethau priodol ar waith i atal gorwario.

- 7.35 Cadarnhaodd y gwrthwynebwyr mai'r mater pwysicaf iddyn nhw oedd sŵn yn sgil adeiladu a gweithredu'r Cynllun. Rwyf yn fodlon bod arolygon a modelu sŵn priodol wedi cael eu cynnal yn unol â'r canllawiau yn y DMRB. Prin y gellid sylwi ar effaith tymor hir y cynnydd mewn sŵn traffig (sŵn gweithredol) wrth eiddo'r gwrthwynebwyr. Mae'r dystiolaeth yn dangos y byddai sŵn adeiladu'n aros o fewn yr amrediad 42 – 54 dBA LEQ yn ystod y cyfnod asesu, a byddai hyn yn effaith dros dro, yn amlwg. Er bod y lefel hon islaw'r 55-dBA a ddyfynnwyd gan y gwrthwynebwyr, cynigiodd Llywodraeth Cymru fesurau lliniaru ar ffurf clawdd â pherth a sgrin prif oleuadau yn gyfochrog ag ochr ogleddol y ffordd gerbydau ar bellter priodol yn ôl oddi wrth y ffordd.
- 7.36 Dylai'r clawdd â pherth gael ei greu cyn gynted â phosibl yn ystod y broses adeiladu. Byddai hyn yn arwain at fuddion acwstig ac fe allai ddarparu rhywfaint o sgrinio. O ran y pwynt hwn, cytunaf, o'm harsylwadau yn ystod yr ymweliad safle, y byddai'r effaith weledol ar yr eiddo yn gyfyngedig. Mae pryderon ynglŷn ag effaith y cynnig ar werth yr eiddo a'r busnes gwely a brechwast yn faterion iawndal ac nid yn faterion i'w hystyried yn yr Ymchwiliad hwn.
- 7.37 Byddai safle diwygiedig cyffordd y Ffordd Ymyl arfaethedig a adwaenir fel Lôn Trefangor â'r A478 yn datrys pryderon y gwrthwynebwyr sy'n honni ei bod yn rhy agos i'r fynedfa i gae. Mae'r safle diwygiedig yn ymgorffori'r fynedfa i gae. Byddai hefyd yn mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd ynglŷn â gwelededd wrth y gyffordd. Dangosir y safle diwygiedig ar Addasiad 18 ac mae ar dir y mae'r gwrthwynebwyr yn berchen arno. Mae eu hasiant wedi cadarnhau'n ysgrifenedig ers hynny y byddai hyn yn dderbyniol i'r gwrthwynebwyr. Cymeradwyaf yr addasiad hwn fel gwelliant i'r Cynllun a'r ffyrdd ymyl.
- 7.38 Mae'r dystiolaeth yn dangos na fyddai'r trefniadau draenio dŵr wyneb yn effeithio ar eiddo'r gwrthwynebwyr. Mae PCC wedi mynegi parodrwydd i adolygu'r terfynau cyflymder ar yr A478 yn nesáu at gylchfan Penblewin, yn unol â chais y gwrthwynebwyr. Nodaf hyn yma, ond cynghoraf hefyd ei fod yn fater ar wahân ac nad yw'n rhan o'r Cynllun. Nodaf hefyd fod y dewisiadau amgen a awgrymwyd gan y gwrthwynebwyr wedi cael eu tynnu'n ôl.

Coed Cadw (R0053)

- 7.39 Mae'r effeithiau posibl ar goetir hynafol wedi cael eu hasesu yn yr ES. Dyluniwyd y Cynllun i osgoi cymaint o goetir hynafol â phosibl trwy ei lwybro i'r gogledd o brif Goed Blaen-Pentroydin, sy'n golygu y byddai'n tramwyo llain gul o goetir hynafol. Yng Nghoed Ffynnon, mae llawer o'r coetir yr effeithir arno a ddangosir ar y gofrestr yn rhan o arglawdd presennol yr A40 mewn gwirionedd, ac nid yn goetir hynafol. Nodaf y cynigir mesurau lliniaru ac aildddefnyddio'r adnodd pridd hefyd.
- 7.40 Nid yw'r ES yn rhagfynegi unrhyw effeithiau arwyddocaol ar ddŵr daear, ansawdd aer nac o ganlyniad i lygredd llwch neu olau. Bydd y mesurau lliniaru arfaethedig yn cael eu sicrhau trwy'r REAC, y CEMP a'r Prif

Gynlluniau Amgylcheddol. Ni chododd CNC unrhyw bryderon ynglŷn â cholli coetir hynafol. Ystyriaf fod buddion y Cynllun yn cyfiawnhau colli'r rhannau cymharol fach hyn o goetir hynafol.

J Webb (R0005)

- 7.41 Nodaf fod y ffordd sy'n cysylltu'r gylchfan ddwyreiniol arfaethedig â'r pentref yn hanfodol a bod rhaid i gylchfan Penblewin gael ei hehangu i ddarparu ar gyfer gofynion y Cynllun. Felly, mae'r gwrthwynebiad hwn yn ddi-sail.

Mr Thomas Wheeler (R0015)

- 7.42 Mae'r gwrthwynebiadau i egwyddor y Cynllun yn ailadrodd llawer o'r materion a ystyriwyd uchod yn rhan o'm casgliadau ynglŷn â gwrthwynebiadau Cyfeillion y Ddaear Sir Benfro. Ni ailadroddir y casgliadau hyn yma. Rwyf hefyd wedi ystyried yr effaith ar goetir hynafol uchod. Ychydig o dystiolaeth a ddarparwyd o unrhyw effeithiau niweidiol o ganlyniad i'r honiad ynghylch hollti ardaloedd coetir.
- 7.43 Mae cynnwys rhan orllewinol y Cynllun yn caniatáu ar gyfer darparu mwy o gyfleoedd diogel i oddiweddyd, gan felly fodloni sawl un o amcanion y Cynllun. Byddai hefyd yn helpu i leihau hollti cymunedol trwy ddarparu llwybr diogel ar gyfer WCHRs i'r gorllewin o'r pentref.
- 7.44 Esboniodd dystiolaeth Llywodraeth Cymru yn argyhoeddiadol pam na fyddai adeiladu'r Cynllun yn achosi llawer o draffig, neu ddim traffig o gwbl. Ystyriwyd opsiynau trafndiaeth gyhoeddus ar gam cynnar ac yn rhan o'r broses WelTAG. Roedd hyn yn cynnwys gwelliannau posibl i reilffyrdd. Daethpwyd i'r casgliad na fyddent yn hyfyw nac yn effeithiol o ran lleihau traffig ar yr A40. Byddai'r Cynllun yn dileu 96% o'r traffig o'r pentref ac yn gwella dibynadwyedd amser siwrneiau. Byddai'r ffactorau hyn yn fwy na gwneud iawn am yr amser a gymerir i fysiau deithio trwy'r cyffyrdd i mewn i'r pentref ac allan ohono i ymuno â'r ffordd osgoi.
- 7.45 Cyfeiriodd Mr Wheeler a sawl gwrthwynebydd arall at fynd i'r afael â hollti cymunedol a mynediad gwael i gerddwyr yn y pentref trwy ryw fath o groesfan (boed hynny'n danffordd, pont droed neu un-lefel) a gwelliannau llwybr troed. Gwnaethant hefyd gyfeirio at fesurau gostegu traffig a lleihau terfynau cyflymder i fynd i'r afael ag effaith traffig ar ansawdd bywyd a diogelwch preswylwyr. Byddai rhai o'r awgrymiadau hyn yn anodd eu gweithredu yng nghyd-destun y briffordd bresennol, sy'n gefnffordd. Byddai lleihau'r terfyn cyflymder yn cael effaith niweidiol ar gyflawni gwelliannau i'r gefnffordd TEN-T. Ni fyddai'r awgrymiadau'n cyflawni amcanion y Cynllun a gallent achosi problemau eu hunain. Byddai lleihau cyflymder traffig ymhellach trwy'r pentref yn gwella'r achos economaidd o blaid y Cynllun. Prin fyddai'r effaith ar lefelau sŵn o draffig.
- 7.46 Mewn cyferbyniad, byddai'r Cynllun yn dileu 96% o'r traffig presennol o'r pentref. Byddai hyn yn caniatáu ar gyfer darparu gwell llwybrau troed, croesfannau diogel a gwell cyfleusterau i gerddwyr a beicwyr yn rhan o'r cynigion Teithio Llesol a Thynnu Statws Cefnffordd. Nodwyd y buddion i breswylwyr lleol uchod ac fe'u mynegwyd yn glir yn y cyfathrebiadau niferus o gefnogaeth i'r Cynllun a gyflwynwyd i'r Ymchwiliad.

Mr Jenkins o Preseli Service Station (R0016)

- 7.47 Byddai'r busnes yn colli rhywfaint o fasnach sy'n mynd heibio o ganlyniad i'r Cynllun. Ar y llaw arall, byddai mynediad lleol yn cael ei wella, yn enwedig i gerddwyr. Ni ddarparodd y gwrthwynebydd unrhyw dystiolaeth o effaith colli masnach sy'n mynd heibio ar hyfywedd. Ni fyddai rhai elfennau o'r busnes yn dibynnu ar fasnach sy'n mynd heibio. Byddai'r arwyddion arfaethedig yn rhoi gwybod i draffig ar yr A40 am y gwasanaethau lleol sydd ar gael. Darparwyd arwyddion tebyg ar ffordd osgoi Robeston Wathen ac mae'r garej a'r siop yno yn parhau i fod ar agor 9 mlynedd ar ôl i'r Cynllun hwnnw agor. Ystyriaf fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud pob ymdrech resymol i fynd i'r afael â phryderon y gwrthwynebydd yn hyn o beth.
- 7.48 Rwyf wedi mynd i'r afael â'r angen am y Cynllun a'r achos economaidd o'i blaid uchod. Darparwyd data am ddamweiniau. Byddai'r Cynllun yn gwella diogelwch ar y ffyrdd ac yn dileu 96% o'r traffig o'r pentref. Byddai hyn yn caniatáu ar gyfer darparu gwell llwybrau troed, croesfannau diogel a gwell cyfleusterau i gerddwyr a beicwyr yn rhan o'r cynigion Teithio Llesol a Thynnu Statws Cefnffordd.

Sandra Rowlands (R0019)

- 7.49 Nodaf yr ymdrechion a wnaed gan Lywodraeth Cymru i esbonio'r Cynllun a'i effaith ar dir ac eiddo'r gwrthwynebydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio lleddfu pryderon y gwrthwynebydd, gan gynnwys trwy gynnig sawl addasiad i'r Cynllun. Mae'r gwrthwynebiad yn cydnabod bod rhai o'r diwygiadau i'r Cynllun wedi'u gwneud i geisio datrys y pryderon a godwyd.
- 7.50 Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau na all addasiad 9 symud ymlaen heb ganiatâd y tîrfeddiannwr, gan y byddai angen tir ychwanegol y tu allan i'r CPO. Rwyf wedi'i ddileu o Atodiad C ond wedi cadw'r rhifau blaenorol er mwyn osgoi drysu gwrthwynebwyr eraill. Er nad yw'r gwrthwynebydd wedi derbyn yr addasiadau arfaethedig, ystyriaf y byddent er budd y gwrthwynebydd a/neu'r cyhoedd a bod pob mater a godwyd wedi derbyn sylw i'r graddau sydd o fewn gallu Llywodraeth Cymru.

John a Linda Smith (R0028)

- 7.51 Mae'r holl faterion a godwyd wedi derbyn sylw o dan wrthwynebiadau eraill uchod.

James Cullingford (R0058)

- 7.52 Mae llawer o'r materion a godwyd wedi derbyn sylw o dan wrthwynebiadau eraill uchod. Deuaf i'r casgliad uchod y byddai effaith dirweddol a gweledol y cynnig yn cael ei lleihau i lefel gymedrol erbyn yr haf yn y flwyddyn ddylunio. Mae'r gwrthwynebiad yn datgan na fyddai niwed amgylcheddol o'r math hwn yn cael ei ganiatáu mewn ardaloedd tebyg sy'n Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol neu'n Barciau Cenedlaethol. Nid yw'r cynllun hwn mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol na Pharc Cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi bod cynlluniau ffyrdd wedi cael eu hadeiladu mewn ardaloedd Parc Cenedlaethol, fel yr A470 yn Eryri, er enghraifft.

Moira Rowlands (R0060)

- 7.53 Mae llawer o'r materion a godwyd wedi derbyn sylw o dan wrthwynebiadau eraill uchod. Mae'r data am ddamweiniau yn dangos bod ffyrdd WS2+1 yn fwy diogel na'r ffyrdd unffrwd maen nhw'n eu disodli. Nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i adeiladu ffyrdd deuol yn yr ardal hon.

Sally Amore (R0069)

- 7.54 Mae'r effaith ar yr orsaf betrol leol, bywyd gwyllt a ffermydd wedi derbyn sylw uchod. Mae'r ES wedi asesu effeithiau sŵn y Cynllun fel yr adroddwyd uchod. Mae effaith sŵn ar eiddo'r gwrthwynebydd wedi cael ei hasesu ac mae'r canlyniadau'n dangos na fyddai sŵn yn cael effaith niweidiol ar yr eiddo.

Y Gorchymion sy'n ofynnol ar gyfer y Cynllun

Casgliadau ynglŷn â'r Gorchymion Llinell a Thynnu Statws Cefnffordd

- 7.55 Rwyf yn fodlon y byddai'r newidiadau arfaethedig i'r rhwydwaith cefnffyrdd, o ystyried gofynion polisi cynllunio lleol a chenedlaethol, gan gynnwys gofynion amaethyddiaeth, yn hwylus ac er budd y cyhoedd er mwyn gwella'r system genedlaethol o lwybrau ar gyfer traffig trwodd yng Nghymru.
- 7.56 Rwyf hefyd yn fodlon bod y cynigion ar gyfer tynnu statws cefnffordd rhan o gefnffordd bresennol yr A40 yn hwylus o ran Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Felly, bodlonir y profion a amlinellwyd ar ddechrau'r adran hon.

Casgliadau ynglŷn â'r Gorchymion Prynu Gorfodol

- 7.57 Rwyf wedi astudio'r Atodlen a'r Cynlluniau sy'n cyd-fynd â'r Gorchymion Prynu Gorfodol yn ofalus, ac ni allaf weld tystiolaeth o unrhyw gynig i brynu unrhyw dir na hawliau heblaw'r rhai hynny sy'n angenrheidiol i weithredu'r Cynllun.
- 7.58 Mae Llywodraeth Cymru wedi argymhell addasiadau i rai ardaloedd, hawliau neu fanylion perchenogaeth sydd wedi'u cynnwys yn y CPO. Rwyf wedi astudio'r cynigion ar gyfer addasu'r Gorchymion yn ofalus ac yn cefnogi'r holl addasiadau fel rhai sy'n angenrheidiol at ddibenion y Cynllun, neu i'w wella er budd pawb, ac er mwyn diffinio'r Gorchymion yn gywir. Lle mae'r addasiadau'n ceisio ehangu cwmpas y CPO, rwyf yn fodlon bod partion â buddiant wedi cytuno â'r addasiadau'n ysgrifenedig. Rwyf yn fodlon na fyddai'r holl addasiadau'n cael effaith niweidiol ar unrhyw barti. Fel y nodwyd uchod, mae cyfres o addasiadau sy'n mynd i'r afael â gwrthwynebiad cyfeirnod R0019. Mae addasiad 9 yn gofyn am dir ychwanegol ac oherwydd nad yw'r tîrfeidiannwr wedi rhoi caniatâd, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau na ddylai gael ei gynnwys. Mae'r gwaith er budd y gwrthwynebydd a gellir ei gynnwys fel gwaith hwylustod yn ddiweddarach. Mae addasiad 9 wedi cael ei ddileu o Atodiad C, ond ni newidiwyd y rhifau er mwyn osgoi dryswch.

- 7.59 Rwyf hefyd yn fodlon nad yw'r Gorchymyn cyfan, fel y'i haddaswyd, yn ymdrin â mwy o dir nag sy'n angenrheidiol a bod yr angen am y CPO cyfan wedi cael ei esbonio er boddhad i mi. Mae darpariaeth gyllidebol wedi cael ei gwneud ar gyfer y Cynllun. Mae'n ymddangos i mi nad oes rhwystr a fyddai'n atal y Cynllun rhag symud ymlaen. Os gwneir y Gorchymynion arfaethedig, gallai'r gwaith ddechrau'n fuan, ac felly rwyf yn fodlon na fyddai unrhyw dir yn cael ei brynu cyn pryd.
- 7.60 Wrth ffurfio barn ynglŷn â hyn, rwyf wedi ystyried y profion Gorchymyn Prynu Gorfodol a grynhoir ym mharagraff 7.4 uchod. Deuaf i'r casgliad y dylai'r Gorchymyn Prynu Gorfodol gael ei addasu, yn unol ag Atodiad C yr adroddiad hwn, ac y dylai gael ei wneud fel y'i haddaswyd.

Casgliadau ynglŷn â'r Gorchymyn Ffyrdd Ymyl

- 7.61 Rwyf yn fodlon bod y cynigion ar gyfer gwella neu gau'r priffyrdd, a chau mynedfeydd preifat yn y Gorchymyn yn angenrheidiol i fodloni amcanion y Cynllun. O ran priffyrdd, byddai'r Cynllun yn sicrhau bod llwybrau eraill cyfleus ar gael.
- 7.62 O ran y mynedfeydd preifat, byddai'r mynedfeydd preifat cyfnewid rhesymol hynny sy'n angenrheidiol o hyd ar gael cyn i bob un gael ei chau, neu byddai mesurau dros dro yn cael eu darparu. Yn ystod yr Ymchwiliad, cododd yr angen am nifer o fân addasiadau. Mae Llywodraeth Cymru a PCC wedi cytuno y bydd sawl mynedfa breifat yn dod yn briffyrdd mabwysiedig, er budd defnyddwyr lleol. Rwyf yn fodlon bod y rhain wedi derbyn sylw yn y rhestr o addasiadau a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru yn Atodiad C.
- 7.63 Felly, rwyf yn fodlon y byddai'r Cynllun yn darparu tramwyad rhesymol gyfleus, ac felly y bodlonwyd y profion a amlinellir ym mharagraff 7.5 uchod.

Casgliadau Cyffredinol ynglŷn â'r Cynllun

- 7.64 Fel yr amlinellwyd uchod, ystyriaf fod amrywiaeth o ffactorau yn dangos y dylai'r Cynllun symud ymlaen, er gwaethaf ei BCR isel. Mae'r Cynllun yn rhan o raglen o welliannau i'r A40 yng ngorllewin Cymru (rhan o'r rhwydwaith TEN-T).
- 7.65 Yn fy marn i, mae achos darbwyllol dros weithredu'r Cynllun er mwyn mynd i'r afael â'r problemau a amlygwyd. Byddai'r Cynllun yn cyflawni'r amcanion yn y ffordd orau, a byddai hyn, yn fy marn i, yn darparu budd sylweddol i'r cyhoedd. Mae'r budd hwn i'r cyhoedd yn drech na'r cynnydd bach mewn allyriadau GHG, yr effaith ar y dirwedd a cholli coetir hynafol o ganlyniad i'r Cynllun. Nodaf fod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau mewn nifer o feysydd eraill i gyflawni ei hymrwymadau niferus ynglŷn â'r newid yn yr hinsawdd.
- 7.66 Am y rhesymau a amlinellwyd gennyf uchod, deuaf i'r casgliad bod yr addasiadau i'r Gorchymynion Ffyrdd Ymyl a Phrynu Gorfodol a gynigir gan Lywodraeth Cymru yn angenrheidiol ac y byddai'r addasiadau hynny'n gwneud y Gorchymynion hynny'n dderbyniol.

- 7.67 Byddai ymgorffori'r addasiadau hynny yn gwneud y Gorchmynion Ffyrdd Ymyl a Phrynu Gorfodol drafft yn dderbyniol. Nid wyf o'r farn bod unrhyw rai o'r addasiadau a gynigir yn gyfystyr â "newid sylweddol" i'r fath raddau sy'n golygu bod angen cynrychiolaeth bellach yn unol â'r hyn a bennir yn Atodlen 1 Adran 8 (3) y Ddeddf Priffyrdd. Mae'n dilyn bod y Cynllun yn dderbyniol.
- 7.68 Yn unol â hynny, credaf fod y Cynllun er budd y cyhoedd ac y dylid caniatáu iddo symud ymlaen. Yn fy marn i, ni fyddai'r Cynllun yn cael unrhyw effeithiau niweidiol anghymesur.
- 7.69 Wrth ddod i'r farn hon, rwyf wedi ystyried yr holl wrthwynebiadau a chynrychiolaethau a wnaed yn ysgrifenedig a'r cyflwyniadau llafar yn yr Ymchwiliad, ond nid ydynt, yn unigol nac ar y cyd, yn drech na'r casgliadau yr wyf wedi dod iddynt.

8. **ARGYMHELLION**

Argymhellaf fod:

- GORCHYMYN CEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (YR A40) (GWELLIANT LLANDDEWI FELFFRE I BENBLEWIN A THYNNU STATWS CEFNFFORDD) 201-
yn cael ei wneud.
- GORCHYMYN CEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (YR A40) (GWELLIANT LLANDDEWI FELFFRE I BENBLEWIN) (FFYRDD YMYL) 201-
yn cael ei addasu fel yr amlinellir yn Atodiad C, ac yn cael ei wneud fel y'i haddaswyd.
- GORCHYMYN PRYNU GORFODOL GWEINIDOGION CYMRU (CEFNFFORDD LLUNDAIN I ABERGWAUN (YR A40) (GWELLIANT LLANDDEWI FELFFRE I BENBLEWIN)) 201-
yn cael ei addasu fel yr amlinellir yn Atodiad C, ac yn cael ei wneud fel y'i haddaswyd.

A L McCooey

Arolygydd

ATODIAD A

YN BRESENNOL YN YR YMCHWILIAD

AR RAN LLYWODRAETH CYMRU

Mr Anthony Vines, Cwnsler Dan gyfarwyddyd Adran Gyfreithiol
Llywodraeth Cymru

GALWODD:

Mr Mark Dixon Prif Dyst – Angen a Pholisi
BEng (Anrh) CEng CEnv MICE

Mr Philip Thiele Traffig ac Economeg
BEng (Anrh) MRes CEng MICE

Mr Tom Edwards Peirianeg
MEng, CEng, MICE MCIHT

Mr Andrew Sumner Tyst Amgylcheddol
CMLI

Mr Pete Wells Ecoleg
BSc MSc MCIEEM CEnv

Dr David Hiller Sŵn
BSc MSc PhD CEng MIOA MIMMM FGS

Mr John Davies Cynllunio a Datblygu Cynaliadwy
MBE BSc MRTPI

Mr Geraint Jones Esbonio'r Gorchmynion Drafft
CEng MEng MICE

Mr Chris Nichols Rheolwr Contract y Cyflogwr
CEng MEng MICE NECReg

CEFNOGWYR

Mr Keith Thomas Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanddewi Felffre

GWRTHWYNEBWYR

Ms Bettina Becker Cyfeillion y Ddaear Sir Benfro

Mr Rodney Powell ar ran Mrs M R Thomas
o Edward H Perkins

Mr Rayner Peett a Mr Lloyd James (Asiant)

ATODIAD B

DOGFENNAU ADNEUO

A

RHESTR O DYSTIOLAETH LLYWODRAETH CYMRU

Dogfennau'r Ymchwiliad

- ID 1 Nodiadau'r Arolygydd o'r Cyfarfod Cyn-Ymchwiliad (PIM) ar 15 Ionawr 2020
- ID 2 Hysbysiad o Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus
- ID 3 Rhaglen yr Ymchwiliad (diweddarwyd 27.02.2020) – agored i'w newid
- ID 4 Crynodeb Gweithredol Strategaeth Reilffyrdd SWWITCH gan AECOM
- ID 5 Datganiad Agoriadol Cwnsler Llywodraeth Cymru
- ID 6 Llyfryn Dewisiadau Amgen Awgrymedig y Gwrthwynebwyr
- ID 7 Cofrestr Camau Gweithredu ac Ymrwymadau Amgylcheddol
- ID 8 Cyngor Sir Penfro – Derbyn Addasiadau
- ID 9 Nodyn ar Eglurhad Porthladd Aberdaugleddau
- ID 10 Llinell Amser Cyhoeddiadau ynglŷn â'r Newid yn yr Hinsawdd
- ID 11 Nodyn ar yr Adolygiad o Ddata Damweiniau
- ID 12 Gwrth-wrthwynebwyr i'r Dewisiadau Amgen – BYW (diweddarwyd 17/03/20)
- ID 13 Prif Gynlluniau Amgylcheddol wedi'u diweddarau
- ID 14 Nodyn ar Ddosbarthu'r Llyfryn Dewisiadau Amgen
- ID 15 Archwiliad Diogelwch Ffyrdd – Adroddiad am Eithriadau (Mawrth 2020)
- ID 16 Canlyniadau Arolwg Coedyddiaeth / Coed Unigol / Grwpiau o Goed
- ID 17 Diweddariad Comisiwn Dylunio Cymru
- ID 18 Hysbysiad o Gontract ynglŷn â gwaith Teithio Llesol a thynnu statws cefnffordd
- ID 19 Nodyn ar newidiadau hanesyddol i gostau'r cynllun a mesurau lliniaru gorwario costau
- ID 20 Nodyn ar effaith dileu tollau Pont Cleddau
- ID 21 Nodyn ar Strwythurau – Mesurau Lliniaru Ystlumod
- ID 22 Nodyn ar grynodedb o gefnogwyr, gwrthwynebwyr a chynrychiolaethau
- ID 23 Tabl Rhestr o Safleoedd Diwylliannol
- ID 24 Nodyn ar Fil Gwasanaethau Bysiau (Cymru)
- ID 25 Cytundeb Mr a Mrs Peett i Addasiad 18
- ID 26 Tynnu Dewisiadau Amgen yn Ôl

ID 27

Cyflwyniad i Gloi Cwnsler Llywodraeth Cymru

ID 28

Nodyn Cwnsler Llywodraeth Cymru ar Ddyfarniad Heathrow

1. Proflenni Tystiolaeth Llywodraeth Cymru

| Rhif y Ddogfen | Disgrifiad |
|-----------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| WG 1.0.1 | Datganiad Amlinellol o'r Achos |
| WG 1.1 | Mark Dixon (Prif Dyst) |
| WG 1.1.1 | Rhan A – Datganiad Polisi Datganiad o Resymau Llywodraeth Cymru dros Gynnig y dylai'r Gorchmynion drafft Cyhoeddedig gael eu gwneud. |
| WG 1.1.2 | Rhan B – Datganiad o'r Angen Datganiad o Resymau Llywodraeth Cymru dros Gynnig y dylai'r Gorchmynion drafft Cyhoeddedig gael eu gwneud. |
| WG 1.1.3 | Rhan C – Datganiad Cryno Datganiad o Resymau Llywodraeth Cymru dros Gynnig y dylai'r Gorchmynion drafft Cyhoeddedig gael eu gwneud. |
| WG 1.1.4 | Rhestr Gwallau mewn perthynas â'r Datganiad o Achos |
| WG 1.2 | Philip Thiele (Traffig ac Economeg) |
| WG 1.2.1 | Crynodeb o'r Broflen Dystiolaeth Traffig ac Economeg |
| WG 1.2.2 | Proflen Dystiolaeth Traffig ac Economeg |
| WG 1.2.3 | Proflen Dystiolaeth Traffig ac Economeg – Atodiadau |
| WG 1.3 | Thomas Edwards (Peirianeg) |
| WG 1.3.1 | Crynodeb o'r Broflen Dystiolaeth Peirianeg |
| WG 1.3.2 | Proflen Dystiolaeth Peirianeg |
| WG 1.3.3 | Proflen Dystiolaeth Peirianeg – Atodiadau |
| WG 1.3.4 | Lluniad GA wedi'i ddiweddarau o Drosbont Llanfallteg Road (parapetau 1.8m) |
| WG 1.4 | Andrew Sumner (yr Amgylchedd) |
| WG 1.4.1 | Crynodeb o'r Broflen Dystiolaeth Amgylcheddol |
| WG 1.4.2 | Proflen Dystiolaeth Amgylcheddol |
| WG 1.4.3 | Proflen Dystiolaeth Amgylcheddol – Atodiadau |
| WG 1.4.4 | Rhestr Gwallau mewn perthynas â Phroflen Dystiolaeth Andrew Sumner |
| WG 1.4.5 | Ychwanegiad – ES Atodiad 9.3 Lluniadau'r Arolwg Coedyddiaeth Rhestrau Coed Unigol Rhestr Grwpiau o Goed (ID.016) |
| WG 1.4.6 | Ychwanegiad – Tabl Rhestr o Safleoedd Diwylliannol (ID.023) |

| | |
|---------------|-------------------------------------------------------------------|
| WG 1.5 | Pete Wells (Ecoleg) |
| WG 1.5.1 | Crynodeb o'r Broflen Dystiolaeth Ecoleg |
| WG 1.5.2 | Proflen Dystiolaeth Ecoleg |
| WG 1.5.3 | Proflen Dystiolaeth Ecoleg – Atodiadau |
| WG 1.5.4 | Rhestr Gwallau mewn perthynas â Phroflen Dystiolaeth Pete Wells |
| WG 1.6 | David Hiller (Sŵn) |
| WG 1.6.1 | Crynodeb o'r Broflen Dystiolaeth Sŵn |
| WG 1.6.2 | Proflen Dystiolaeth Sŵn |
| WG 1.6.3 | Proflen Dystiolaeth Sŵn – Atodiadau |
| WG 1.6.4 | Rhestr Gwallau mewn perthynas â Phroflen Dystiolaeth David Hiller |
| WG 1.6.5 | Rhestr Gwallau mewn perthynas ag Atodiadau David Hiller |
| WG 1.7 | John Davies (Cynllunio a Datblygu Cynaliadwy) |
| WG 1.7.1 | Crynodeb o'r Broflen Dystiolaeth Cynllunio a Datblygu Cynaliadwy |
| WG 1.7.2 | Proflen Dystiolaeth Cynllunio a Datblygu Cynaliadwy |
| WG 1.7.3 | Rhestr Gwallau mewn perthynas â Phroflen Dystiolaeth John Davies |
| WG 1.7.4 | Diwygiad i Broflen Dystiolaeth John Davies |

Proflenni Tystiolaeth yr Ymatebydd

Gwrthwynebwyr

R0046 Cyfeillion y Ddaear Sir Benfro
R0024 Mr R a Mrs C Peett

Cefnogwyr

R0052 Cyngor Sir Penfro (nid oedd yn bresennol)
R0083 Datganiad Cyngor Cymuned Llanddewi Felffre (K Thomas)

Mae datganiad ysgrifenedig a dolenni a chyfeiriadau i wrthbrofion Llywodraeth Cymru ar gael ar wefan yr Arolygiaeth Gynllunio.

Dogfennau Craidd

2. Gorchmynion Drafft

| Gorchmynion Drafft | |
|---------------------------|---------------------------------------------------------------------------|
| Rhif y Ddogfen | Disgrifiad |
| Doc. 2.01 | Gorchymyn Llinell a Thynnu Statws Cefnffordd Drafft |
| 2.01.01 | Gorchymyn Llinell Drafft |
| 2.01.02 | Gorchymyn Llinell Drafft – Dalen Glawr |
| 2.01.03 | Gorchymyn Llinell Drafft – Cynllun |
| Doc. 2.02 | Gorchymyn Ffyrdd Ymyl Drafft |
| 2.02.01 | Gorchymyn Ffyrdd Ymyl Drafft |
| 2.02.02 | Gorchymyn Ffyrdd Ymyl Drafft – Dalen Glawr |
| 2.02.03 | Gorchymyn Ffyrdd Ymyl Drafft – Cynllun allwedd |
| 2.02.04 | Gorchymyn Ffyrdd Ymyl Drafft – Cynllun Safle 1 |
| 2.02.05 | Gorchymyn Ffyrdd Ymyl Drafft – Cynllun Safle 2 |
| 2.02.06 | Gorchymyn Ffyrdd Ymyl Drafft – Cynllun safle 3 |
| 2.02.07 | Gorchymyn Ffyrdd Ymyl Drafft – Atodlen |
| Doc. 2.03 | Gorchymyn Prynu Gorfodol Drafft |
| 2.03.01 | Gorchymyn Prynu Gorfodol Drafft |
| 2.03.02 | Gorchymyn Prynu Gorfodol Drafft – Dalen Glawr |
| 2.03.03 | Gorchymyn Prynu Gorfodol Drafft – Cynllun allwedd |
| 2.03.04 | Gorchymyn Prynu Gorfodol Drafft – Cynllun Safle 1 |
| 2.03.05 | Gorchymyn Prynu Gorfodol Drafft – Cynllun Safle 2 |
| 2.03.06 | Gorchymyn Prynu Gorfodol Drafft – Cynllun Safle 3 |
| 2.03.07 | Gorchymyn Prynu Gorfodol Drafft – Atodlen |
| Doc. 2.04 | Hysbysiadau Cyhoeddus |
| 2.04.01 | Hysbysiad Cyhoeddus – Gorchymyn Llinell a Ffyrdd Ymyl |
| 2.04.02 | Hysbysiad Cyhoeddus – Hysbysiad o Benderfyniad |
| 2.04.03 | Hysbysiad Cyhoeddus – Hysbysiad o'r ES a'r SIAA |
| 2.04.04 | Hysbysiad Cyhoeddus – Hysbysiad o Arddangosfa Gyhoeddus |
| 2.04.05 | Hysbysiad Cyhoeddus – Hysbysiad Cyhoeddus CPO |
| 2.04.06 | Hysbysiad Cyhoeddus – Hysbysiad Safle CPO |
| 2.04.07 | Hysbysiad Cyhoeddus – Hysbysiad o Fwriad i Gynnal Cyfarfod Cyn-Ymchwiliad |

| Gorchmynion Drafft | |
|---------------------------|-----------------------------------------------------------------------|
| Rhif y Ddogfen | Disgrifiad |
| 2.04.08 | Hysbysiad Cyhoeddus – Hysbysiad o Fanylion Ymchwiliad Lleol Cyhoeddus |
| 2.04.09 | Hysbysiad Cyhoeddus – Dewisiadau Amgen |
| Doc. 2.05 | Llythyrau |
| 2.05.01 | Llythyr – Dosbarthu Llythyrau ar draws 100 Metr |
| 2.05.02 | Llythyr – Gorchymyn Llinell a Ffyrdd Ymyl |
| 2.05.03 | Llythyr – Mannau Adneuo |
| 2.05.04 | Llythyr – Cyrff Statudol |
| 2.05.05 | Llythyr – Cyrff Anstatudol |
| 2.05.06 | Llythyr – Llythyr CPO (Tabl 1 gyda Dim Trwydded Hanfodol) |
| 2.05.07 | Llythyr – Mannau Adneuo CPO |
| 2.05.08 | Llythyr – Asiantiaid a Chyfreithwyr |
| 2.05.09 | Llythyr – (Tabl 1 gyda Thrwydded Hanfodol) |
| 2.05.10 | Llythyr – Morgeisieion CPO |
| 2.05.11 | Llythyr – Tabl 2 Buddiannau |
| 2.05.12 | Llythyr – Dyddiad Perthnasol |
| 2.05.13 | Llythyr – Cyfarfod Cyn-Ymchwiliad |
| 2.05.14 | Llythyr – Datganiad Amlinellol |
| 2.05.15 | Llythyr – Datganiad o'r Achos |
| 2.05.16 | Llythyr – Dewisiadau Amgen |
| Doc. 2.06 | Dogfennau Ategol |
| 2.06.01 | Dogfennau Ategol – Datganiad Esboniadol |
| 2.06.02 | Dogfennau Ategol – Datganiad o Resymau |
| 2.06.03 | Dogfennau Ategol – Cynllun Safle 1 Cyfeirnod Tir |
| 2.06.04 | Dogfennau Ategol – Cynllun Safle 2 Cyfeirnod Tir |
| 2.06.05 | Dogfennau Ategol – Cynllun Safle 3 Cyfeirnod Tir |
| 2.06.06 | Dogfennau Ategol – Atodlen Cyfeirnod Tir |

3. Datganiad Amgylcheddol

| Datganiad Amgylcheddol | |
|-------------------------------|-----------------------------------------|
| Rhif y Ddogfen | Disgrifiad |
| 3.01.01 | Pennod 1 - Adroddiad Asesiad Technegol |
| 3.01.02 | Pennod 1 - Ffigurau |
| 3.01.03 | Pennod 1 - Atodiadau |
| 3.02.01 | Pennod 2 - Adroddiad Asesiad Technegol |
| 3.02.02 | Pennod 2 - Ffigurau |
| 3.02.03 | Pennod 2 - Atodiadau |
| 3.03.01 | Pennod 3 - Adroddiad Asesiad Technegol |
| 3.03.02 | Pennod 3 - Atodiadau |
| 3.04.01 | Pennod 4 - Adroddiad Asesiad Technegol |
| 3.04.02 | Pennod 4 - Atodiadau |
| 3.05.01 | Pennod 5 - Adroddiad Asesiad Technegol |
| 3.06.01 | Pennod 6 - Adroddiad Asesiad Technegol |
| 3.06.02 | Pennod 6 - Ffigurau |
| 3.06.03 | Pennod 6 - Atodiadau |
| 3.07.01 | Pennod 7 - Adroddiad Asesiad Technegol |
| 3.07.02 | Pennod 7 - Ffigurau |
| 3.07.03 | Pennod 7 - Atodiadau |
| 3.08.01 | Pennod 8 - Adroddiad Asesiad Technegol |
| 3.08.02 | Pennod 8 - Ffigurau |
| 3.08.03 | Pennod 8 - Atodiadau |
| 3.09.01 | Pennod 9 - Adroddiad Asesiad Technegol |
| 3.09.02 | Pennod 9 - Ffigurau |
| 3.09.03 | Pennod 9 - Atodiadau |
| 3.10.01 | Pennod 10 - Adroddiad Asesiad Technegol |
| 3.10.02 | Pennod 10 - Ffigurau |
| 3.10.03 | Pennod 10 - Atodiadau |
| 3.11.01 | Pennod 11 - Adroddiad Asesiad Technegol |
| 3.11.02 | Pennod 11 - Ffigurau |
| 3.12.01 | Pennod 12 - Adroddiad Asesiad Technegol |
| 3.12.02 | Pennod 12 - Ffigurau |
| 3.13.01 | Pennod 13 - Adroddiad Asesiad Technegol |
| 3.13.02 | Pennod 13 - Ffigurau |
| 3.13.03 | Pennod 13 - Atodiadau |

| Datganiad Amgylcheddol | |
|-------------------------------|--------------------------------------------------|
| Rhif y Ddogfen | Disgrifiad |
| 3.14.01 | Pennod 14 - Adroddiad Asesiad Technegol |
| 3.14.02 | Pennod 14 - Ffigurau |
| 3.14.03 | Pennod 14 - Atodiadau |
| 3.15.01 | Pennod 15 - Adroddiad Asesiad Technegol |
| 3.15.02 | Pennod 15 - Ffigurau |
| 3.15.03 | Pennod 15 - Atodiadau |
| 3.16.01 | Pennod 16 - Adroddiad Asesiad Technegol |
| 3.16.02 | Pennod 16 - Ffigurau |
| 3.17.01 | Pennod 17 - Adroddiad Asesiad Technegol |
| 3.17.02 | Pennod 17 - Atodiadau |
| 3.18.01 | Pennod 18 - Adroddiad Asesiad Technegol |
| 3.18.02 | Pennod 18 - Atodiadau |
| 3.19.01 | Penodau 19, 20, 21 - Adroddiad Asesiad Technegol |
| 3.19.02 | Penodau 19, 20, 21 - Ffigurau |
| 3.19.03 | Penodau 19, 20, 21 - Atodiadau |
| 3.20.01 | Pennod 22 - Adroddiad Asesiad Technegol |

4. Dogfennau Craidd

| Polisi a Deddfwriaeth | |
|------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Rhif y Ddogfen | Disgrifiad |
| 4.01.01 | Gorchymyn Cynlluniad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (Offeryn Statudol (OS) 1999/672) |
| 4.01.02 | Deddf Llywodraeth Cymru 2006 |
| 4.01.03 | Deddf Priffyrdd 1980 |
| 4.01.04 | Deddf Caffael Tir 1981 |
| 4.01.05 | Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 |
| 4.01.06 | HEB EI DDEFNYDDIO |
| 4.01.07 | Llywodraeth Cymru, Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol |
| 4.01.08 | CNC, Datganiadau Ardal |
| 4.01.09 | Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 |
| 4.01.10 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| 4.01.11 | Astudiaeth Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru 2017 (WeITAG) |
| 4.01.12 | HEB EI DDEFNYDDIO |
| 4.01.13 | Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 |
| 4.01.14 | Cynllun Gweithredu Teithio Llesol i Gymru 2016 |
| 4.01.15 | Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 |
| 4.01.16 | Memorandwm Esboniadol ar gyfer Deddf yr Amgylchedd (Cymru) Nodyn Esboniadol Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 |
| 4.01.17 | Llywodraeth Cymru (2019) Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i dacio'r newid yn yr hinsawdd? |
| 4.01.18 | Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 |
| 4.01.19 | Strategaeth Wledig Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Gorffennaf 2004 (Defra, 2004). |
| 4.01.20 | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 |
| 4.01.21 | Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW) 2000 |
| 4.01.22 | Deddf Hawliau Dynol 1998 |
| 4.01.23 | Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n Effro i'r Hinsawdd 2019 |
| 4.01.24 | Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel 2019 |
| 4.01.25 | Coridorau Gwyrdd ar Rwydwaith Cefnffyrdd a Thraffyrdd Llywodraeth Cymru 2018 |
| 4.01.26 | Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yr Ystad Gefnffyrdd (TREBAP) 2004-2014 |

| Polisi a Deddfwriaeth | |
|------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------|
| Rhif y Ddogfen | Disgrifiad |
| 4.01.27 | Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol Cymru 2018 |
| 4.01.28 | Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol 2010 (a ddiweddarwyd wedi hynny yn 2017 a 2018) |
| 4.01.29 | Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2008 |
| 4.01.30 | Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10) 2018 |
| 4.01.31 | Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Road Cymru 2013 |
| 4.01.32 | Adolygiad o Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru 2018 |
| 4.01.33 | Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol 2017 |
| 4.01.34 | Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol (datganiad llesiant) 2017 |
| 4.01.35 | Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu Economaidd 2017 |
| 4.01.36 | Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol 2017 (TAN 24) |
| 4.01.37 | Symud Cymru Ymlaen 2016-2021 |
| 4.01.38 | Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygu Economaidd 2014 (TAN 23) |
| 4.01.39 | Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 2012 |
| 4.01.40 | Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru – Diweddariad ar Lif Prosiectau 2019 |
| 4.01.41 | Adnewyddu'r Economi: cyfeiriad newydd 2010 |
| 4.01.42 | Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio 2009 (TAN 5) |
| 4.01.43 | Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned 2009 |
| 4.01.44 | Blaenraglen Cefnffyrdd, 2002, 2004 a 2008 |
| 4.01.45 | Diweddariad Cynllun Gofodol Cymru 2008 |
| 4.01.46 | Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 |
| 4.01.47 | Cynllun Datblygu Cenedlaethol drafft 2019 |
| 4.01.48 | Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl – Strategaeth Drafnidiaeth Cymru 2008 |
| 4.01.49 | Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth 2007 (TAN 18) |
| 4.01.50 | Strategaeth yr Amgylcheddol ar gyfer Cymru 2006 |
| 4.01.51 | Adroddiad ar Gyflwr yr Amgylchedd, Gorffennaf 2012 |
| 4.01.52 | Cymru – Economi yn Ffynnu 2005 |
| 4.01.53 | Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd 2004 (TAN 15) |
| 4.01.54 | Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn 1997 (TAN 11) |

| Polisi a Deddfwriaeth | |
|------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Rhif y Ddogfen | Disgrifiad |
| 4.01.55 | Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd ar gyfer De-orllewin Cymru 2015-2020 |
| 4.01.56 | Strategaeth Dwristiaeth De-orllewin Cymru, 2004-2008 |
| 4.01.57 | Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Benfro 2013-2018 |
| 4.01.58 | Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Penfro 2013 |
| 4.01.59 | Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2010 |
| 4.01.60 | Cylchlythyr Diwygiedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Orchmyinion Prynu Gorfodol NAFWC14/2004 |
| 4.01.61 | Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd DMRB |
| 4.01.62 | Cynllun Llesiant Sir Benfro 2018 |
| 4.01.63 | Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (NDF) Drafft |
| 4.01.64 | Dysgu Byw'n Wahanol |
| 4.01.65 | Datganiad Ysgrifenedig gan Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn cyhoeddi argyfwng newid yn yr hinsawdd, 29 Ebrill 2019 |
| 4.01.66 | Datganiad Ysgrifenedig gan y Gweinidog Lesley Griffiths (fel yr uchod) yn derbyn cyngor y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd ynglŷn â gostwng GHG yng Nghymru |
| 4.01.67 | Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21 |
| 4.01.68 | Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21 Naratif |
| 4.01.69 | WebTAG |
| 4.01.70 | Datganiad Llesiant Cyfoeth Naturiol Cymru |
| 4.01.71 | Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 |
| 4.01.72 | Deddf Rheoli Llygredd 1974 |
| 4.01.73 | Deddf Llywodraeth Cymru 1998 |
| 4.01.74 | Cynllun Corfforaethol 2017/2018 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| 4.01.75 | Rheolau Priffyrdd (Gweithdrefn Ymchwiliadau) 1994 |
| 4.01.76 | Rheolau Prynu Gorfodol gan Weinidogion (Gweithdrefn Ymchwiliadau) (Cymru) 2010 |
| 4.01.77 | Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Datblygu Cyffredinol) 1995 |
| 4.01.78 | Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WeITAG) 2008 |

| Datblygiad y Cynllun | |
|-----------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Rhif y Ddogfen | Disgrifiad |
| 4.02.01 | Adroddiad Opsiynau Llwybr 2004 (ROR) – Yr A40 i'r Gorllewin o Sanclêr, Cyfrol 1 |
| 4.02.02 | Adroddiad Opsiynau Llwybr 2004 (ROR) - Yr A40 i'r Gorllewin o Sanclêr, Cyfrol 2 |
| 4.02.03 | Llywodraeth Cynulliad Cymru yr A40 i'r Gorllewin o Sanclêr – Adroddiad Arfarniad Technegol (Chwefror 2004) |
| 4.02.04 | Llywodraeth Cynulliad Cymru yr A40 i'r Gorllewin o Sanclêr – Adroddiad Asesu Amgylcheddol Cam 2 (2004) |
| 4.02.05 | Llywodraeth Cynulliad Cymru yr A40 i'r Gorllewin o Sanclêr – Adroddiad Asesu Cynllun Cam 1 (2004) |
| 4.02.06 | Llywodraeth Cynulliad Cymru, [yr A40 i'r Gorllewin o Sanclêr] Ychwanegiad i'r Adroddiad Arfarniad Technegol (2006) |
| 4.02.07 | Datganiad o Ganlyniadau'r Ymgynghoriad Cyhoeddus 2006 |
| 4.02.08 | Cynllun Llwybr a Ffefrir TR111 |
| 4.02.09 | Gosodiad Cam 2 358432-MMD-00-XX-DR-C-0008 |
| 4.02.10 | Llywodraeth Cymru Astudiaeth yr A40 Sanclêr i Hwlfordd, Adroddiad Opsiynau Dylunio (Mehefin 2015) |
| 4.02.11 | Yr A40 Sanclêr i Hwlfordd, Astudiaeth Gweithgarwch Economaidd ac Effeithiau ar Leoliad (EALI) |

| Adroddiadau'r Cynllun | |
|------------------------------|--------------------------------------------------------|
| Rhif y Ddogfen | Disgrifiad |
| 4.03.01 | Crynodeb Annhechnegol (NTS) o'r Datganiad Amgylcheddol |
| 4.03.02 | Adroddiad Asesu'r Cynllun Cam 3 |
| 4.03.03 | Adroddiad Cam 1 WeITAG |
| 4.03.04 | Adroddiad Asesu Effaith Cam 1 WeITAG |
| 4.03.05 | Adroddiad Cam 2 WeITAG |
| 4.03.06 | Adroddiad Asesu Effaith Cam 2 WeITAG |
| 4.03.07 | Adroddiad Cam 3 WeITAG |
| 4.03.08 | Adroddiad Asesu Effaith Cam 3 WeITAG |
| 4.03.09 | Adroddiad Datblygu Cynaliadwy (SDR) |
| 4.03.10 | Adroddiad DCFW Mehefin 2017 |

| | |
|---------|------------------------------|
| 4.03.11 | Adroddiad DCFW Tachwedd 2018 |
| 4.03.12 | Adroddiad DCFW Rhagfyr 2019 |

| Adroddiadau Peirianeg | |
|------------------------------|-------------------------------------------------------|
| Rhif y Ddogfen | Disgrifiad |
| 4.04.01 | Adroddiad Opsiynau Dylunio |
| 4.04.02 | Adroddiad Strategaeth Aliniad a Chyffyrdd |
| 4.04.03 | Gwiriadau oddi wrth yr Adroddiad Safonol |
| 4.04.04 | Adroddiad Strategaeth Ddraenio |
| 4.04.05 | Archwiliad Diogelwch Ffyrdd Cam 1 |
| 4.04.06 | Archwiliad Diogelwch Ffyrdd Cam 1 – Ymateb y Dylunwyr |
| 4.04.07 | Cynigion Teithio Llesol a Thynnu Statws Cefnffyrdd |
| 4.04.08 | Adroddiad Dylunio Geotechnegol (GDR) |
| 4.04.09 | Adroddiad Adeiladu ac Adeiladwyedd |
| 4.04.10 | Adroddiad Gwaith Awdurdodau Statudol |
| 4.04.11 | Strategaeth Goleuadau Ffyrdd |

| Adroddiadau Traffig ac Economeg | |
|----------------------------------------|---------------------------------------------------|
| Rhif y Ddogfen | Disgrifiad |
| 4.05.01 | Yr Adroddiad Traffig a Data Damweiniau Cychwynnol |
| 4.05.02 | Yr Adroddiad Dilysu Model Lleol |
| 4.05.03 | Adroddiad Rhagweld Traffig |
| 4.05.04 | Adroddiad Casglu Data Traffig |
| 4.05.05 | Adroddiad Asesiad Economaidd |

| Dogfennau Amgylcheddol | |
|-------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Rhif y Ddogfen | Disgrifiad |
| 4.06.01 | Canllawiau Sŵn Amgylcheddol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer y Rhanbarth Ewropeaidd |
| 4.06.02 | Jones K 2012. Tranquillity: An Overview. Adroddiad ECRD 1207. Yr Adran Ymchwil ac Ymgynghori Amgylcheddol, yr Awdurdod Hedfan Sifil |
| 4.06.03 | Cyfoeth Naturiol Cymru 2016. Yr Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR): Asesu'r modd y rheolir adnoddau naturiol yn gynaliadwy |
| 4.06.04 | Confensiwn Ramsar |
| 4.06.05 | Rheoliadau Llyswennod (Cymru a Lloegr) 2009 |
| 4.06.06 | Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (fel y'i diwygiwyd) |
| 4.06.07 | Deddf Gwarchod Moch Daear 1992 |
| 4.06.08 | Rheoliadau Perthi 1997 |
| 4.06.09 | Deddf Mamaliaid Gwyllt (Gwarchod) 2016 |
| 4.06.10 | Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) |
| 4.06.11 | HEB EI DDEFNYDDIO |
| 4.06.12 | Datganiad i Lywio Asesiad Priodol (SIAA) |
| 4.06.13 | Asesu'r Goblygiadau i Safleoedd Ewropeaidd (AIES) |
| 4.06.14 | Aldridge H. (1986). Kinematics and aerodynamics of the greater horseshoe bat, <i>Rhinolophus ferrumequinum</i> , in horizontal flight at various flight speeds. <i>Journal of Experimental Biology</i> 126: 479-497 |
| 4.06.15 | Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod. (2012). Arolygon Ystlumod: Canllawiau Arfer Da (Ail argraffiad). Llundain: Yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod. |
| 4.06.16 | Berthinussen A, Altringham J (2012). Do Bat Gentries and Underpasses Help Bats Cross Roads Safely? <i>PLoS ONE</i> 7(6): e38775. https://doi.org/10.1371/journal.pone.0038775 |
| 4.06.17 | Berthinussen A, Altringham J (2015). WC1060 Development of a cost-effective method for monitoring the effectiveness of mitigation for bats crossing linear transport infrastructure. Prosiectau Gwyddoniaeth ac Ymchwil DEFRA. |

| Dogfennau Amgylcheddol | |
|-------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Rhif y Ddogfen | Disgrifiad |
| 4.06.18 | Berthinussen A, Altringham J (2017). Bats and Linear Infrastructure: A summary of DEFRA research project WC1060 by Br Anna Berthinussen and Professor John Altringham. Cyfoeth Naturiol Cymru, Bangor. |
| 4.06.19 | Catherine Bickmore Associates. (2003). Review of Work Carried out on the Trunk Road Network in Wales for Bats. Caerdydd: Llywodraeth Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. |
| 4.06.20 | HEB EI DDEFNYDDIO |
| 4.06.21 | CIEEM. (2018). Canllawiau ar gyfer Asesu Effeithiau Ecolegol yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon: Daearol, Dŵr Croyw, Arfordirol a Morol. Caer-wynt: y Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheoli Amgylcheddol. |
| 4.06.22 | HEB EI DDEFNYDDIO |
| 4.06.23 | Davies, J. (2019). Effectiveness of mitigation of the impacts of a new road on horseshoe bats <i>Rhinolophus ferrumequinum</i> in Wales, UK. Conservation Evidence 16, 17 – 23. |
| 4.06.24 | HEB EI DDEFNYDDIO |
| 4.06.25 | Y Comisiwn Ewropeaidd. (1992, 07 22). Cyfarwyddeb 92/43/EEC y Cyngor dyddiedig 21 Mai 1992 ar Warchod Cynefinoedd Naturiol a Phlanhigion ac Anifeiliaid Gwylt. Cyfnodolyn Swyddogol L., 206, 009-0050. |
| 4.06.26 | HEB EI DDEFNYDDIO |
| 4.06.27 | Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur. (2012). Fframwaith Bioamrywiaeth Ôl-2010 y Deyrnas Unedig. Peterborough: Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur a Defra ar ran Grŵp Bioamrywiaeth y Pedair Gwlad. |
| 4.06.28 | Limpens, H., Twisk, P., a Veenbaas, G. (2005). Bats and Road Construction. Delft, yr Iseldiroedd: Rijkswaterstaat. |
| 4.06.29 | HEB EI DDEFNYDDIO |
| 4.06.30 | Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro. (2011). Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ar gyfer Sir Benfro. Hwlfordd: Cyngor Sir Penfro. |
| 4.06.31 | HEB EI DDEFNYDDIO |
| 4.06.32 | HEB EI DDEFNYDDIO |
| 4.06.33 | HEB EI DDEFNYDDIO |
| 4.06.34 | Cyfarwyddeb EIA EC2014/52/EU |

| Dogfennau Amgylcheddol | |
|-------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Rhif y Ddogfen | Disgrifiad |
| 4.06.35 | Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol yn ymwneud â Harbyrau, Priffyrdd a Thrafnidiaeth) 2017 |
| 4.06.36 | Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Pryfed Peillio (2013) |
| 4.06.37 | HEB EI DDEFNYDDIO |
| 4.06.38 | Cyflwr y Ffyrdd yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Hydref 2019 |
| 4.06.39 | Cynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd |
| 4.06.40 | Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 |

ATODIAD C

ADDASIADAU A GEISIWYD GAN LYWODRAETH CYMRU

ADDASIADAU A GEISIWYD GAN LYWODRAETH CYMRU

